Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol

# Monitro lleoedd cadw

Degfed **Adroddiad Blynyddol**
Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol
y Deyrnas Unedig
**1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019**

CP 228

# Monitro lleoedd cadw

# Degfed Adroddiad Blynyddol Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y Deyrnas Unedig

1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol
dros Gyfiawnder drwy Orchymyn Ei Mawrhydi
Mawrth 2020

CP 228

OGL

ⓗ **Hawlfraint y goron**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/official-documents a www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/national-preventive-mechanism

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn:
hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gsi.gov.uk neu
HM Inspectorate of Prisons, 3rd floor, 10 South Colonnade, Canary Wharf, London E14 4PU

ISBN 978-1-5286-1803-8

CCS0220180248 03/20

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffeibrau wedi'u hailgylchu.

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan CDS ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys


**Cyflwyniad gan John Wadham,**
**Cadeirydd y Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol (NPM)** **4**

**1. Cyd-destun** **8**
Ynghylch Protocol Dewisol y Confensiwn yn erbyn Artaith a
Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol Arall (OPCAT) 9
Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y Deyrnas Unedig 10
Rhoi sylw i atal 14
Cyd-destun gwleidyddol, polisi a datblygiadau deddfwriaethol 15
Y sefyllfa mewn lleoedd cadw yn ystod y flwyddyn 24

**2. Yr NPM yn 2018-19** **36**
Amcanion yr NPM 37
Cryfhau'r NPM 37
Datblygiadau sy'n benodol i'r aelodau 38
Cydweithio ar draws yr NPM 46
Cyflwyno cynigion a sylwadau ar ddeddfwriaeth 47
Craffu a chydweithredu rhyngwladol 51

**3. Edrych Ymlaen at 2019-20** **54**
Ymweliad gan Is-bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Atal
Arteithio 55

**4. Atodiadau** **56**
Atodiad I
Llythyr oddi wrth Gadeirydd yr NPM John Wadham at Gadeirydd
y Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol, Harriet Harman 57

Atodiad II
Llythyr oddi wrth Gadeirydd yr NPM John Wadham at Gadeirydd y
Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder, Syr Robert Neill 59

Atodiad III
Rhestr Termau 61



# Cyflwyniad gan John Wadham,

## Cadeirydd y Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol (NPM)

Mae Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y Deyrnas Unedig (NPM) bellach wedi bod ar waith ers dros 10 mlynedd. Rydym wedi tyfu'n rhwydwaith o 21 o aelodau sy'n cynnwys arolygiaethau annibynnol a chyrff ymweld lleyg, sy'n cynnal mwy na 66,000 o ymweliadau â lleoedd cadw bob blwyddyn. Fi yw cadeirydd annibynnol yr NPM ers dros dair blynedd, ar ôl cael fy mhenodi gan aelodau'r NPM yn 2016. Mae ymroddiad staff a gwirfoddolwyr aelodau'r NPM i fodloni gofynion y Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith (OPCAT) ac atal arteithio a cham-drin mewn mannau lle mae pobl yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid bellach yn creu hyd yn oed fwy o argraff arnaf.

Mae'r syniad o atal camdriniaeth yn hanfodol i'r gwaith y mae'r NPM yn ei wneud bob dydd. Yn yr adroddiad hwn rydym yn nodi ein dull o gyflawni ein tasgau ac yn dangos sut mae'n atal camdriniaeth, gan roi llawer o enghreifftiau o'r ffordd y mae aelodau'r NPM yn cyflawni hyn.

Serch hynny, yn 2018-19, nododd llawer o aelodau'r NPM ormod o enghreifftiau annerbyniol o'r driniaeth a roddir i bobl dan gadwad a'r amodau y maent yn eu hwynebu o ddydd i ddydd. Mewn gormod o achosion, roedd aelodau'r NPM wedi codi'r pryderon hyn yn flaenorol ac roeddent yn dal heb eu datrys. Yn ôl dim ond dau aelod o'r NPM – sef Arolygiaeth Carchardai EM a'r Comisiwn Ansawdd Gofal – yn 2018–19 cafodd mwy na 10,500 o bobl eu cadw neu eu hamddifadu o'u rhyddid mewn lleoedd a oedd yn annigonol neu'n rhy wael i allu cadw unigolion yn ddiogel.[1]

Yn ystod 2018–19, nododd aelodau'r NPM gyda phryder fod nifer y bobl sy'n cael eu cadw o dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl ledled y DU wedi cynyddu. Cyfeiriwyd at brinder gwelyau ynghyd â chymorth cyfyngedig i bobl yn y gymuned fel ffactorau a oedd wedi cyfrannu at y cynnydd hwn – maent yn golygu bod mwy o bobl â phroblemau iechyd meddwl difrifol nad ydynt yn cael y cymorth cywir ac sy'n wynebu risg o waethygu i'r graddau bod angen eu cadw'n gaeth. Mae'r NPM yn croesawu'r penderfyniad

1 Y llynedd, roedd y Comisiwn Ansawdd Gofal yn ystyried bod 5% o'r sefydliadau iechyd meddwl a all gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn annigonol mewn perthynas â diogelwch. Rhoddir mwy na 40,000 o gleifion dan gadwad o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl bob blwyddyn ac, felly, mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn amcangyfrif ei bod yn bosibl y gallai 2,000 o gleifion o'r fath gael eu rhoi dan gadwad mewn ysbytai yr ystyrir eu bod yn anniogel. Yn 2018–19, rhoddwyd 2,131 o hysbysiadau pellach i'r Comisiwn Ansawdd Gofal o ganlyniad cais o dan y Trefniadau Diogelu Wrth Amddifadu o Ryddid mewn lleoliadau a oedd yn cael eu hystyried yn annigonol o ran diogelwch ar 22 Awst 2019. Dengys ffigurau Arolygiaeth Carchardai EM, mewn adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2018-19, fod 6,003 o'r 29,361 o garcharorion mewn carchardai a arolygwyd yn byw mewn sefydliadau yr ystyriwyd eu bod yn wael o ran diogelwch. Mae'r Comiswn Ansawdd Gofal ac Arolygiaeth Carchardai EM yn defnyddio methodolegau a safonau asesu gwahanol yn eu hadroddiadau arolygu. Er mai gradd isaf y Comisiwn Ansawdd Gofal yw 'annigonol', mae Arolygiaeth Carchardai EM yn graddio sefydliadau o 1 i 4, lle mae 1 yn dynodi 'gwael' o ran canlyniadau ei phedwar prawf carchar iach.

i gyflwyno Deddf Unedau Iechyd Meddwl (Defnyddio Grym) 2018, sy'n atgyfnerthu'r gofyniad i staff mewn ysbytai iechyd meddwl yng Nghymru a Lloegr gofnodi'r dull atal a ddefnyddiwyd. Fodd bynnag, er y bydd y Ddeddf hon yn darparu data ar ataliaeth mewn ysbytai iechyd meddwl yng Nghymru a Lloegr, ac er bod rhywfaint o ddata arbrofol ar gael ar gyfer Lloegr drwy Set Ddata Gwasanaethau Iechyd Meddwl, rydym yn pryderu o hyd ynghylch y ffaith nad oes unrhyw ffigurau dibynadwy ar hyn o bryd ar gyfer faint o weithiau y defnyddir dulliau atal corfforol mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban.

Mae aelodau'r NPM hefyd wedi tynnu sylw at y tueddiadau dinistriol ledled y DU yn ystod y flwyddyn adrodd. Roedd lefelau trais a'r defnydd o rym ac ataliaeth yn uchel mewn sawl carchar, lle nad oedd digon yn cael ei wneud i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol y trais hwn. Yn aml, roedd y trefniadau ar gyfer rheoli'r defnydd o rym yn annigonol, a barodd i rai aelodau godi pryderon cychwynnol ynghylch y penderfyniad i gyflwyno chwistrell PAVA – sef chwistrell pupur synthetig sy'n analluogi'r rhai y mae'n cael ei chwistrellu arnynt dros dro – mewn carchardai dynion yng Nghymru a Lloegr. Yn ogystal â hyn, mynegodd yr NPM bryder mawr ynghylch y lefelau parhaus a brawychus o hunan-niweidio mewn carchardai.

Nodwyd y materion hyn, a llawer o faterion eraill, yn ein cyflwyniad i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Artaith (CAT). Cynhaliodd CAT ei chweched adolygiad cyfnodol o ymdrechion y Deyrnas Unedig i roi'r cytuniad rhyngwladol hwn ar waith ym mis Mai 2019, ac roedd ein tystiolaeth – ar faterion trawsbynciol a phryderon ynghylch hawliau dynol mewn carchardai, dalfeydd yr heddlu, lleoedd cadw iechyd meddwl, dalfeydd mewnfudo ac ym maes gofal ac iechyd cymdeithasol – yn arbennig o bwysig. Arweiniodd hyn yn uniongyrchol at nifer o'r cwestiynau heriol a ofynnodd y pwyllgor i'r llywodraeth yn y gwrandawiad cyhoeddus, ac roedd yn sail i rai o gasgliadau terfynol a hanfodol y pwyllgor.

Gwnaethom ddefnyddio'r adolgyiad rhyngwladol pwysig hwn hefyd i ailddatgan bod angen terfyn amser llym ar gyfer cadw mewnfudwyr yn gaeth. Ers sawl blwyddyn, mae aelodau'r NPM wedi dogfennu effaith niweidiol cadw mewnfudwyr yn gaeth am gyfnod amhenodol. Nododd aelodau a fu'n monitro lleoedd cadw mewnfudwyr yn 2018-19 hefyd nad oedd y mesurau diogelu a roddwyd ar waith i atal pobl agored i niwed rhag cael eu cadw'n gaeth yn gweithio'n effeithiol. Rwy'n mawr obeithio y bydd y Llywodraeth newydd yn mynd ati o ddifrif i weithredu ar yr argymhelliad hwn, ac argymhellion eraill a wnaed yn ein cyflwyniad i CAT.

Mae datgeliadau diweddar ynghylch achosion o gam-drin honedig yn ysbytai Whorlton Hall a Muckamore Abbey, lle mae pobl ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth sy'n agored i niwed yn cael eu dal ar sail y dybiaeth y gofelir amdanynt, y byddant yn ddiogel ac y cânt eu cefnogi, wedi peri pryder mawr i mi. Datgelodd rhaglen *Panorama* y BBC ffilm frawychus o'r ffordd roedd cleifion yn cael eu trin gan staff yn Whorlton Hall ac mae ymchwiliad gan yr heddlu i ffilm teledu cylch cyfyng yn Muckamore Abbey wedi nodi hyd yma, tua 1,500 o droseddau honedig, gan gynnwys achosion o gleifion yn cael eu cam-drin yn gorfforol ac yn feddyliol gan staff yn yr ysbyty. Mewn datblygiad pwysig arall, cyhoeddwyd ymchwiliad cyhoeddus i honiadau o gam-drin pobl a oedd yn cael eu cadw o dan bwerau mewnfudo yng Nghanolfan Symud Mewnfudwyr Brook House, a ddatgelwyd hefyd gan raglen ddogfen gudd, yn 2017.

Yn anffodus, yn 2018–19 roedd y Llywodraeth yn dal heb lunio strategaeth ar sut i atgyfnerthu'r NPM drwy roi sail statudol iddo, gan sicrhau bod ganddo'r pwerau sydd ei angen arno a gwarantu ei annibyniaeth. Rhoi sail ddeddfwriaethol i'r NPM yw'r unig ffordd o sicrhau y gallwn gyflawni ein mandad i atal camdriniaeth yn unol â gofynion rhyngwladol. Galwodd CAT am ddarparu gwell adnoddau i'r NPM hefyd ac rydym bellach yn barod i drafod sut yn union y dylid gwneud hynny gyda'r Llywodraeth.


Mae'n destun gofid nad yw'r NPM yn gwybod o hyd beth yw safbwynt y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar fater deddfwriaeth ynglŷn ag NPM, y ffaith ein bod wedi bod yn ceisio gwneud cynnydd gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y mater hollbwysig hwn ers pum mlynedd, a'r argymhellion mynych gan gyrff hawliau dynol rhyngwladol a phwyllgorau dethol yn nodi'n glir y dylid rhoi sail statudol i'r NPM.

Cyhoeddodd yr Is-bwyllgor ar Atal Arteithio (SPT), sy'n gorff rhyngwladol a sefydlwyd o dan OPCAT, yn ystod y flwyddyn adrodd, y byddai'n cynnal ei ymweliad cyntaf erioed â'r Deyrnas Unedig yn ddiweddarach yn 2019: a oedd yn adeg bwysig i'r NPM. Ar adeg ysgrifennu, roedd yr ymweliad hwn wedi dod i ben ac rydym yn aros am adroddiad gan yr SPT. Buddsoddodd yr NPM gryn dipyn o amser er mwyn sicrhau bod yr SPT yn deall ein pryderon ynghylch y sefyllfa mewn lleoedd cadw yn y DU, yn ogystal â'n barn ynglŷn â'r prif heriau sy'n ein hwynebu o ran cyflawni ein cyfrifoldebau o dan OPCAT. Gwnaeth y ffaith bod yr SPT wedi penderfynu blaenoriaethu ymweliad â'r DU ein hatgoffa bod llawer mwy i'w wneud er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein rôl i atal camdriniaeth.



**John Wadham**
Cadeirydd
Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y DU

# Adran un
# Cyd-destun



## Ynghylch Protocol Dewisol y Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol Arall (OPCAT)

Mae Protocol Dewisol y Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol Arall (OPCAT) yn gytuniad rhyngwladol ar hawliau dynol sy'n ceisio rhoi mwy o amddiffyniad i bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid. Pan gafodd ei fabwysiadu gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn 2002, dangoswyd bod consensws yn y gymuned ryngwladol bod pobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid yn neilltuol o agored i'r perygl o gael eu cam-drin a bod angen canolbwyntio ar gamau ataliol wrth ymladd yn erbyn cam-drin o'r fath. Mae OPCAT yn ymgorffori'r syniad mai'r ffordd orau o atal cam-drin mewn lleoedd cadw yw drwy system o ymweliadau rheolaidd annibynnol â'r holl leoedd cadw. Yn ystod ymweliadau o'r fath, bydd triniaeth y rhai dan gadwad, a'r amodau ar eu cyfer, yn cael eu monitro.

Daeth OPCAT i rym ym mis Mehefin 2006. Mae'n ofynnol i wladwriaethau sy'n cadarnhau OPCAT ddynodi 'mecanwaith ataliol cenedlaethol' (NPM). Corff neu grŵp o gyrff yw hwn sy'n archwilio'n rheolaidd sut y mae unigolion mewn lleoedd cadw yn cael eu trin, yn gwneud argymhellion ac yn cynnig sylwadau ar ddeddfwriaeth bresennol neu ddrafft er mwyn gwella'r driniaeth a'r amodau mewn lleoedd cadw.

Er mwyn cyflawni ei rôl monitro yn effeithiol, rhaid i'r NPM:

- fod yn annibynnol ar y llywodraeth a'r sefydliadau y mae'n eu monitro;
- cael digon o adnoddau i gyflawni ei rôl;
- cyflogi personél sydd â'r arbenigedd angenrheidiol ac sy'n ddigon amrywiol i gynrychioli'r gymuned y mae'n gweithredu ynddi.

Hefyd, mae'n rhaid i'r NPM gael y pŵer i wneud y canlynol:

- mynd i mewn i'r holl leoedd cadw (gan gynnwys y rheini sy'n cael eu rhedeg gan ddarparwyr preifat);
- cynnal cyfweliadau ag unigolion mewn lleoedd cadw a phobl berthnasol eraill yn breifat;
- dewis y lleoedd y mae am ymweld â nhw a'r bobl y mae am eu cyfweld;
- cael gwybodaeth am nifer y bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid, nifer y lleoedd cadw a'u lleoliad;
- cael gwybodaeth am driniaeth y rhai sydd mewn lleoedd cadw a'r amodau ar eu cyfer.

Mae'n rhaid i'r NPM hefyd gydgysylltu â'r Is-bwyllgor ar Atal Arteithio (SPT), sef corff rhyngwladol a sefydlwyd gan OPCAT sydd â swyddogaethau gweithredol (ymweld â lleoedd cadw mewn gwladwriaethau sy'n barti a gwneud argymhellion ynghylch amddiffyn rhai mewn lleoedd cadw rhag cael eu cam-drin) a swyddogaethau cynghori (darparu cymorth a hyfforddiant i wladwriaethau sy'n barti a mecanweithiau ataliol cenedlaethol). Mae 25 o arbenigwyr annibynnol a diduedd o bob rhan o'r byd yn aelodau o'r Is-bwyllgor ar Atal Arteithio, ac mae'n cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau.[2] Ar adeg ysgrifennu, mae 90 o wladwriaethau sy'n barti i OPCAT, a 71 o fecanweithiau ataliol cenedlaethol dynodedig.[3]

2 Mae pob adroddiad, gan gynnwys y 12fed adroddiad blynyddol (sef yr un diweddaraf) sy'n ymdrin â'r gwaith a wnaed gan yr SPT yn 2018, ar gael ar wefan Swyddfa'r Uchel Gomisiynydd dros Hawliau Dynol, http://tbinternet.ohchr.org/_layouts/treatybodyexternal/TBSearch.aspx?Lang=en&TreatyID=12&DocTypeID=27 [cyrchwyd 24/02/20].

3 Casgliad Cytuniadau'r Cenhedloedd Unedig, "Chapter IV: 9. b Optional Protocol to the Convention against Torture and Other Cruel, Inhuman or Degrading Treatment or Punishment', statws ar 08/01/20, https://treaties.un.org/Pages/ViewDetails.aspx?src=TREATY&mtdsg_no=IV-9-b&chapter=4&clang=_en [cyrchwyd 08/01/20]; Y Gymdeithas er Atal Arteithio, cronfa ddata OPCAT, ar gael yn: http://www.apt.ch/en/opcat-database/ [cyrchwyd 01/12/19].

## Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y DU

Cymeradwyodd y DU OPCAT ym mis Rhagfyr 2003 a dynododd ei NPM ym mis Mawrth 2009. Llywodraeth y DU oedd yn gyfrifol am ddynodi'r NPM a dewisodd ddynodi nifer o gyrff a oedd yn bodoli eisoes yn hytrach na chreu un NPM newydd. Ystyriodd hyn y ffaith bod llawer o fathau o leoedd cadw yn y DU eisoes yn cael eu monitro gan gyrff annibynnol, fel y rhagwelwyd gan OPCAT, a'r gwahanol systemau gwleidyddol, cyfreithiol a gweinyddol oedd ar waith yn y pedair gwlad sy'n ffurfio'r DU. Cafodd aelodau'r NPM eu dynodi drwy ddatganiad gweinidogol i'r Senedd a heb unrhyw sail ddeddfwriaethol benodol, rhywbeth sydd wedi cael ei feirniadu'n hallt gan y Cenhedloedd Unedig.[4] Mae 21 o gyrff bellach wedi'u dynodi i'r NPM; y dynodiad mwyaf diweddar oedd Adolygwr Annibynnol Deddfwriaeth Terfysgaeth ar 12 Ionawr 2017.[5]

### Yr Alban

Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ar gyfer yr Alban (HMIPS)
Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi ar gyfer yr Alban (HMICS)
Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC)
Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban (MWCS)
Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yr Alban (ICVS)
Yr Arolygiaeth Gofal (CI)

### Gogledd Iwerddon

Arolygiad Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon (CJINI)
Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd (RQIA)
Byrddau Monitro Annibynnol (Gogledd Iwerddon) (IMBNI)
Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon (NIPBICVS)

### Cymru a Lloegr

Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
Cymdeithas yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa (ICVA)
Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS)
Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
Byrddau Monitro Annibynnol (IMB)
Comisiynydd Plant Lloegr (CCE)
Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (Ofsted)
Sylwedyddion Lleyg (LO)
Y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)

### Y Deyrnas Unedig

Adolygwr Annibynnol Deddfwriaeth Terfysgaeth (IRTL)

4 Llythyr at John Wadham oddi wrth Bennaeth Tîm Rhanbarthol Ewropeaidd yr SPT, Ionawr 2018, https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/npm-prod-storage-19n0nag2nk8xk/uploads/2019/01/2.-2018.01.29-reply-to-the-NPM-of-UK-copy-002.pdf [cyrchwyd 14/01/19].

5 Ceir rhagor o wybodaeth am y broses ddynodi a dolen i'r Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig ar wefan yr NPM yn https://www.nationalpreventivemechanism.org.uk/about/background/ [cyrchwyd 08/01/20].

Mae'r cyrff sy'n rhan o NPM y DU yn monitro gwahanol fathau o leoedd cadw ym mhob un o'r awdurdodaethau, gan gynnwys carchardai, dalfeydd yr heddlu, dalfeydd y llysoedd, cyfleusterau cadw'r tollau, llety diogel i blant, cyfleusterau cadw mewnfudwyr, cyfleusterau cadw gwasanaethau iechyd meddwl a dalfeydd y lluoedd arfog, fel a ganlyn:

| Lleoliad cadw | Awdurdodaeth | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Lloegr | Cymru | Yr Alban | Gogledd Iwerddon |
| Carchardai a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc | Arolygiaeth Carchardai EM gyda'r Comisiwn Ansawdd Gofal ac Ofsted | Arolygiaeth Carchardai EM gydag AGIC | HMIPS gyda CI ac SHRC; MWCS | CJINI ac Arolygiaeth Carchardai EM gyda RQIA |
| | IMB | IMB | | IMBNI |
| Dalfa'r heddlu | HMICFRS ac Arolygiaeth Carchardai EM | | HMICS | CJINI gyda RQIA |
| | ICVA | | ICVS | NIPBICVS |
| Hebrwng a dalfeydd y llysoedd | Sylwedyddion Lleyg ac Arolygiaeth Carchardai EM | | HMIPS | CJINI |
| Cadw o dan y Ddeddf Terfysgaeth | IRTL | | | |
| | ICVA, Arolygiaeth Carchardai EM a HMICFRS | | ICVS | NIPBICVS |
| Plant mewn llety diogel | Ofsted (ar y cyd ag Arolygiaeth Carchardai EM a'r Comisiwn Ansawdd Gofal mewn perthynas â chanolfannau hyfforddi diogel) | AGC ac AGIC | CI | RQIA |
| | | | | CJINI |
| Plant (ym mhob lleoliad cadw) | CCE | | CI | |
| Cadw o dan y ddeddf iechyd meddwl | Comisiwn Ansawdd Gofal | AGIC | MWCS | RQIA |
| Trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid[6] a mesurau diogelu eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol | Comisiwn Ansawdd Gofal | AGIC | CI ac MWCS | RQIA |
| | | AGC | | |
| Lleoedd cadw mewnfudwyr | Arolygiaeth Carchardai EM | | | Arolygiaeth Carchardai EM gyda CJINI |
| | IMB | | | |
| Dalfeydd y lluoedd arfog | Arolygiaeth Carchardai EM | | | |
| Cyfleusterau cadw'r tollau | HMICFRS, Arolygiaeth Carchardai EM a HMICS | | | |

6 Dim ond i Gymru a Lloegr fel rhan o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2015 y mae trefniadau diogelu wrth amddifadu a ryddid yn gymwys, ond mae sefydliadau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ymweld â chyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol lle y gall pobl fod wedi'u hamddifadu o'u rhyddid, ac yn eu harolygu.

Caiff gofyniad hanfodol OPCAT – sef bod pob lle cadw yn cael ei fonitro'n annibynnol – ei fodloni gan aelodau unigol yr NPM neu gan aelodau yn gweithio mewn partneriaeth â'i gilydd. Cyhoeddir canfyddiadau manwl sy'n ymwneud â thriniaeth unigolion sy'n cael eu cadw'n gaeth a'r amodau ar eu cyfer yn adroddiadau arolygu neu adroddiadau blynyddol pob aelod o'r NPM.

Cyfarfodydd busnes yr NPM, a gynhelir ddwywaith y flwyddyn, yw ei brif fforwm i'r aelodau rannu canfyddiadau, arferion gorau, profiadau a gwersi o fonitro gwahanol fathau o leoedd cadw a gwahanol awdurdodaethau. Cytunir ar gynllun busnes yr NPM a chaiff ei fonitro yn y cyfarfodydd hyn a gwneir penderfyniadau eraill sy'n gofyn am fewnbwn pob un o'r aelodau. Eleni, cynhaliwyd cyfarfodydd busnes ym mis Medi 2018 yn Llundain ac ym mis Ebrill 2019 yng Nghaerdydd.

## Cadeirydd yr NPM

Penodir Cadeirydd annibynnol yr NPM gan aelodau'r NPM. Ymgymerodd John Wadham â'r rôl yn 2016. Rôl y Cadeirydd yw rhoi cyngor i'r NPM a'i helpu i gyflawni ei fandad, gan gynnwys:

- cadeirio cyfarfodydd grŵp llywio'r NPM dair neu bedair gwaith y flwyddyn a chyfarfodydd busnes yr NPM ddwywaith y flwyddyn;
- helpu aelodau'r NPM i ddatblygu a chyflawni gwaith yr NPM a chyflawni eu cyfrifoldebau o ran yr NPM;
- siarad yn gyhoeddus ar ran yr NPM a chynrychioli'r NPM mewn cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid allanol.

Mae'r Cadeirydd hefyd yn helpu Ysgrifenyddiaeth yr NPM i gyflawni ei rôl.

## Ysgrifenyddiaeth yr NPM

Mae Ysgrifenyddiaeth yr NPM wedi'i lleoli o fewn Arolygiaeth Carchardai EM ac mae'n cydgysylltu NPM y DU er mwyn helpu i sicrhau bod OPCAT yn cael ei roi ar waith yn llawn ac yn effeithiol yn y DU. Mae'n cyflogi dau unigolyn sy'n cydgysylltu'r NPM er mwyn gwneud y canlynol:

- hyrwyddo cydlyniant a dealltwriaeth gyffredin o OPCAT ymhlith aelodau'r NPM;
- annog cydweithredu a rhannu gwybodaeth ac arferion da rhwng aelodau NPM y DU;
- hwyluso gweithgareddau ar y cyd rhwng aelodau ar faterion sy'n peri pryder i bawb;
- cydgysylltu â'r SPT, mecanweithiau ataliol cenedlaethol mewn gwladwriaethau eraill a chyrff hawliau dynol rhyngwladol eraill;
- rhannu profiadau ac arbenigedd rhwng NPM y DU a mecanweithiau ataliol cenedlaethol mewn gwladwriaethau eraill;
- cynrychioli'r NPM cyfan gerbron y llywodraeth a rhanddeiliaid eraill yn y DU;
- llunio'r adroddiad blynyddol a chyhoeddiadau eraill.

## Grŵp llywio'r NPM

Mae grŵp llywio'r NPM yn goruchwylio strategaeth gyffredinol a gweithgareddau'r NPM. Mae ei bum aelod yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cynrychioli aelodau ym mhob un o bedair gwlad y DU ac, i'r graddau y bo'n bosibl, gylchoedd gwaith gwahanol y sefydliadau sy'n ffurfio'r NPM.

Mae grŵp llywio'r NPM yn helpu i wneud penderfyniadau rhwng cyfarfodydd busnes ac yn datblygu cynllun busnes yr NPM a chynigion i'r aelodau.

Yn y flwyddyn adrodd, cyfarfu'r grŵp llywio bedair gwaith. Ym mis Mawrth 2019, roedd aelodau grŵp llywio'r NPM fel a ganlyn:

- Peter Clarke, Arolygiaeth Carchardai EM;
- Rachel Lindsay, CJINI;
- John Powell, AGIC;
- Colin McKay, MWCS;
- Katie Kempen, ICVA.

### Is-grwpiau'r NPM

Ers i'r NPM gael ei ddynodi, mae ei aelodau wedi bwrw ati eu hunain i sefydlu is-grwpiau thematig sy'n eu galluogi i atgyfnerthu trefniadau cydweithredu, rhannu gwybodaeth a blaenoriaethu pynciau sy'n arbennig o berthnasol i'w mandad o ran yr NPM. Mae gan yr NPM bedwar is-grŵp a fu'n gweithio drwy gydol y flwyddyn.

Is-grŵp mwyaf newydd yr NPM yw is-grŵp yr heddlu, sy'n ystyried materion trawsbynciol ar gyfer pedair gwlad y DU, gan rannu arferion da a nodi pryderon sy'n ymwneud â dalfeydd yr heddlu. Cydnabu'r aelodau hynny o'r NPM sy'n ymweld â dalfeydd yr heddlu fod y problemau a wynebir gan bobl sy'n cael eu cadw'n gaeth am gyfnod byr yn aml yn wahanol i'r rhai sy'n cael eu cadw'n gaeth am gyfnod hwy, a phenderfynodd y byddai fforwm penodol lle y gallai'r aelodau drafod mater cadw unigolion yn nalfeydd yr heddlu, gan gynnwys cadw unigolion o dan ddeddfwriaeth terfysgaeth, fod yn fuddiol. Cynhaliodd is-grŵp yr heddlu ei gyfarfod cyntaf ym mis Mai 2018 a'i ail gyfarfod ym mis Tachwedd 2018. Caiff yr is-grŵp ei drefnu a'i gadeirio gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn yr Alban.

Cyfarfu is-grŵp yr Alban ddwywaith yn ystod y flwyddyn, ym mis Medi a mis Mawrth 2019. Mae'r grŵp yn cydgysylltu gweithgareddau'r NPM yn yr Alban, yn rhoi cymorth i aelodau'r NPM, yn codi proffil gwaith yr NPM ac yn gwella gweithgarwch cydgysylltu â Llywodraeth yr Alban. Yn ystod y flwyddyn adrodd, cadeiriwyd y grŵp gan aelod yr Alban o Grŵp Llywio'r NPM, Colin McKay, Prif Weithredwr Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban. Sicrhaodd y grŵp gymorth, mewn egwyddor, gan Lywodraeth yr Alban i recriwtio cydgysylltydd cynorthwyol rhan-amser.

Cyfarfu'r is-grŵp iechyd meddwl, sy'n dod â gwahanol aelodau'r NPM sy'n gyfrifol am fonitro lleoedd cadw iechyd meddwl yn y DU at ei gilydd, ddwywaith yn ystod y flwyddyn, ym mis Ebrill a mis Hydref 2018. Mae'r is-grŵp hwn yn cynnig cyfle i sefydliadau sy'n gyfrifol am fonitro ac amddiffyn pobl mewn lleoedd cadw ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gydweithio ar faterion sy'n effeithio'n benodol ar iechyd meddwl. Cadeirir y grŵp hwn gan Gomisiwn Lles Meddyliol yr Alban.

Parhaodd yr is-grŵp o'r NPM sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc dan gadwad i fod yn gyfrwng i aelodau'r NPM allu cyfnewid gwybodaeth ac ystyried cydweithio ar faterion sy'n effeithio ar blant dan gadwad. Cadeirir y grŵp gan staff o Gomisiynydd Plant Lloegr a chyfarfu ym mis Tachwedd 2018.

## Rhoi sylw i atal

Mae Erthygl 1 o OPCAT yn nodi bod yn rhaid sefydlu system o oruchwyliaeth 'in order to prevent torture and other cruel, inhuman or degrading treatment or punishment'. Mae OPCAT yn gytuniad rhyngwladol unigryw am ei fod yn canolbwyntio ar atal achosion o dorri hawliau dynol cyn iddynt ddigwydd yn hytrach nag ar y camau y dylid eu cymryd ar ôl i hawliau dynol gael eu torri.

O dan OPCAT, cyrff goruchwylio fel SPT a mecanweithiau ataliol cenedlaethol yw'r ffordd orau o wireddu'r arfer o atal. Mae'n hollbwysig ein bod ni, fel NPM, yn sicrhau ein bod yn defnyddio safonau rhyngwladol wrth ystyried a yw'r llywodraeth yn cyflawni ei rhwymedigaeth i ddiogelu hawliau dynol pobl dan gadwad. Ar gyfer ei 10fed flwyddyn, mae'r NPM wedi ystyried beth yw ystyr atal a sut beth ydyw yn ymarferol.

### Monitro ataliol

Ystyr monitro ataliol yw gweithio yn unol â set eang o safonau sy'n cyfrannu at greu amgylchedd lle mae achosion o arteithio a cham-drin yn llai tebygol o ddigwydd.[7]

Mae dull ataliol, fel y'i diffinnir gan y Gymdeithas er Atal Arteithio, yn golygu bod ymweliadau â lleoedd cadw yn rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol er mwyn sicrhau bod arwyddion o gamdriniaeth yn cael eu gweld cyn iddi ddigwydd. Er bod yn rhaid i gyrff cwynion neu gyrff ymchwiliol ymdrin ag adroddiadau am gamdriniaeth, mae monitro ataliol yn golygu datblygu system o oruchwyliaeth lle yr arsylwir ar arferion ac y cânt eu dadansoddi fel mater o drefn.

Felly, dylid cynnal ymweliadau yn rheolaidd, gan sicrhau bod cyfleusterau yn destun craffu a'u bod yn dryloyw. Nid yw OPCAT yn nodi pa mor rheolaidd na pha mor aml y dylai mecanweithiau ataliol cenedlaethol gynnal ymweliadau – mater i'r corff monitro benderfynu arno yw hwnnw.[8] Mae llawer o ymwelwyr annibynnol gwirfoddol â'r ddalfa, er enghraifft, yn anelu at ymweld â gorsafoedd yr heddlu bob wythnos er mwyn sicrhau bod llesiant pobl yn y ddalfa yn cael ei oruchwylio'n effeithiol, ac mae byrddau monitro annibynnol yn ymweld â charchardai tua dwy neu dair gwaith yr wythnos. Mae aelodau eraill o'r NPM yn blaenoriaethu ymweliadau yn seiliedig ar ffactorau risg neu wybodaeth benodol. Arolygir carchardai gan Arolygiaeth Carchardai EM o leiaf unwaith bob pum mlynedd, tra bod sefydliadau risg uchel, megis y rhai sy'n dal plant a phobl ifanc, yn cael eu harolygu'n amlach.

Mae ysbryd o gydweithredu yn nodwedd bwysig arall ar fonitro ataliol. Mae arolygiaethau yn rhoi argymhellion i'r awdurdodau sy'n gyfrifol am y polisïau a'r arferion sy'n gymwys mewn lleoedd cadw. Mae argymhellion yn hwyluso deialog â'r awdurdodau hyn gyda'r nod o wella'r sefyllfa mewn lleoedd cadw. Mae cyrff ymweld lleyg yn cysylltu'n rheolaidd â'r rhai sy'n rheoli sefydliadau er mwyn trosglwyddo unrhyw bryderon a monitro cynnydd yn eu herbyn. Mae sawl ffordd y gall aelodau'r NPM godi eu canfyddiadau gyda swyddogion, gwleidyddion, aelodau seneddol a grwpiau rhanddeiliaid ehangach er mwyn sicrhau y cânt eu rhoi ar waith.

7 Ceir rhagor o wybodaeth am atal yn nogfen SPT, *The approach of the Subcommittee on Prevention of Torture to the concept of prevention of torture and other cruel, inhuman or degrading treatment or punishment under the Optional Protocol to the Convention against Torture and Other Cruel, Inhuman or Degrading Treatment or Punishment* (CAT/OP/12/6), Tachwedd 2010 sydd ar gael yn http://docstore.ohchr.org/SelfServices/FilesHandler.ashx?enc=6QkG1d%2fPPRiCAqhKb7yhsquBlBCPFD%2bXLNadyD9hiZ4R2ifOm%2fkPeiu3sYGHOmGMsGCei%2fqxK3MyHYEY%2bGl%2b0olrf33FTl4nDSkhMm0WAHWDw1BE%2fFCFsu8qp2vhJ5DM

8 Hardwick a Murray, 'Regularity of OPCAT visits by NPMs', *Australian Journal of Human Rights*, Ebrill 2019, ar gael yn https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/1323238X.2019.1588054

Mae dull ataliol yn un cyffredinol, lle y caiff asesiadau o leoedd cadw eu llywio gan bob agwedd sy'n ymwneud ag amddifadu o ryddid. Fel mecanwaith ataliol cenedlaethol, rydym yn gwneud gwaith thematig ar faterion systemig er mwyn sicrhau ein bod yn ystyried y gwahanol ffactorau sy'n effeithio ar yr amser y mae unigolyn yn ei dreulio yn y ddalfa. Ochr yn ochr â'u harolygiadau rheolaidd sy'n edrych ar driniaeth ac amodau pobl yn y ddalfa, mae HMICS hefyd yn cynnal arolygiadau sy'n canolbwyntio ar agweddau strategol ar ddalfeydd yr heddlu, er enghraifft arweinyddiaeth a hyfforddiant o fewn timau o staff, yn ogystal â'r ffordd y mae'r rhai sy'n darparu gwasanaethau cystodaeth yn dysgu o gwynion a wneir. Mae hyn yn galluogi HMICS i ddeall ffactorau sy'n galluogi neu'n rhwystro amgylchedd lle y caiff hawliau eu parchu. Gall safbwynt eang ei gwmpas sy'n ystyried sefydliadau unigol, mathau unigol o gyfleusterau cadw a gwledydd unigol nodi ffactorau a all achosi niwed neu gamdriniaeth yn fwy cywir.

## Cyd-destun gwleidyddol, polisi a datblygiadau deddfwriaethol

Drwy gydol y flwyddyn, parhaodd y drafodaeth wleidyddol i gael ei dominyddu gan Brexit. Roedd y ddadl ynghylch gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn rhoi pwyslais cryf ar 'adennill rheolaeth' ar agweddau ar bolisi mudo a bennir ar hyn o bryd gan gyfraith yr UE. Rhoddwyd polisi mudo'r llywodraeth o dan y chwyddwydr o ganlyniad i sgandal Windrush, lle y cafodd rhai unigolion a oedd wedi bod yn byw yn y DU ers amser maith eu hallgludo ar gam neu y bygythiwyd eu hallgludo gan y Swyddfa Gartref. Cyhoeddodd y llywodraeth bapur gwyn ar fewnfudo ym mis Rhagfyr 2018 yn nodi ei bod yn bwriadu dod â pholisi mewnfudo o dan gyfraith y DU a sefydlu system ffiniau a mewnfudo newydd i atgyfnerthu gweithgarwch gorfodi.[9] Beirniadwyd hyn gan rai am nad oedd yn ymdrin â pholisi mewnfudo mewn ffordd strategol.[10]

Roedd y ffaith nad oedd Cynulliad na Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi bod ar waith ers mis Ionawr 2017 yn golygu nad oedd unrhyw ddeddfwriaeth newydd, craffu gwleidyddol na goruchwyliaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder na'r Pwyllgor Cyfiawnder na'r Gweinidog Iechyd na'r Pwyllgor Iechyd ar gyfer lleoedd cadw, yr NPM nac adroddiadau Arolygiad Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon. Er enghraifft, nid oes sail statudol wedi'i rhoi i Ombwdsmon Carcharorion Gogledd Iweddon, er bod y ddeddfwriaeth sylfaenol angenrheidiol ar waith.[11] At hynny, roedd disgwyl i'r broses o roi Deddf Galluedd Meddyliol Gogledd

9 Llywodraeth EM, Rhagfyr 2018, *The UK's future skills-based immigration system*, https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/766465/The-UKs-future-skills-based-immigration-system-print-ready.pdf [cyrchwyd 04/12/19]

10 Institute for Government, Mawrth 2019, *Managing migration after Brexit*, https://www.instituteforgovernment.org.uk/sites/default/files/publications/IfG-Migration-After-Brexit_4.pdf [cyrchwyd 04/12/19]

11 Aeth y broses o roi sail statudol i'r swydd yn ei blaen drwy Gynulliad Gogledd Iwerddon a chafodd y Bil Cyfiawnder (Rhif 2) gydsyniad brenhinol ar 12 Mai 2016. Nid oedd yn bosibl cwblhau'r Rheoliadau tanategol cyn i'r Cynulliad gael ei ddiddymu ar 26 Ionawr 2017.

Iwerddon (2016) ar waith gael ei chwblhau yn 2020 ac mae pryderon y caiff ei gohirio.[12] Un o ganlyniadau eraill y ffaith nad oes unrhyw weithrediaeth yw'r risg o 'stagnation and decay' o ran diweddaru polisïau a dadlau'n effeithiol dros ddarparu adnoddau ar gyfer newid. Ystyriodd 'The Institute for Government' effaith llywodraethu heb Weinidogion a nododd fod y ffaith nad oedd unrhyw drafodaeth ynghylch ariannu gofal iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, yn yr hirdymor yn broblem benodol.[13]

## Cyfraith iechyd meddwl

Bu datblygiadau pwysig yng nghyfraith iechyd meddwl ledled y DU yn ystod y flwyddyn. Un newid pwysig yw bod yr Adran Iechyd wedi cael ei hailenwi'n Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mis Ionawr 2018.

Yng Nghymru a Lloegr, ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd y llywodraeth Fil Galluedd Meddyliol (Diwygio) a basiwyd ym mis Mai 2019. Mae'r Ddeddf yn diwygio'r broses ar gyfer awdurdodi trefniadau ar gyfer gofal neu driniaeth unigolyn sy'n gyfystyr â'i amddifadu o'i ryddid, lle nad oes gan yr unigolyn y galluedd i gydsynio i'r trefniadau hyn. Bydd Trefniadau Diogelu Wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn cael eu disodli gan yr hyn y bwriedir iddo fod yn gynllun symlach a elwir yn Drefniadau Diogelu Rhyddid ('Liberty Protection Safeguards'). Penderfynwyd gwneud y newid hwn yn sgil dyfarniad gan y Goruchaf Lys yn 2014 ar achos P v. Cheshire West, lle roedd tri unigolyn ag anableddau dysgu difrifol yn byw o dan drefniadau yr oedd y llysoedd o'r farn eu bod yn eu hamddifadu o'u rhyddid. Rhoddodd y dyfarniad feichiau cynyddol ar awdurdodau lleol ac ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol a oedd yn gweinyddu'r DoLS. Wedyn, argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y dylid diddymu'r DoLS a chynigiodd gynllun newydd yn eu lle a nodir yn y Bil drafft.[14] Caiff y Ddeddf ei rhoi ar waith yn 2020, ar ôl i God Ymarfer diwygiedig gael ei gyhoeddi. Yn ystod hynt y Bil drwy'r Senedd, rhoddwyd y gorau i gynnig i gyflwyno diffiniad statudol newydd o amddifadu o ryddid.

Cafodd Deddf Unedau Iechyd Meddwl (Defnyddio Grym) 2018 ei deddfu ym mis Tachwedd 2018. Daw'r Ddeddf – a fydd yn darparu mwy o fesurau diogelu ac yn sicrhau mwy o oruchwyliaeth o'r defnydd o rym mewn lleoliadau iechyd meddwl yn Lloegr – i rym yn 2020. Mae darpariaethau'r Ddeddf yn cynnwys gofynion cryfach a mwy o reoleiddio o ran cofnodi'r defnydd o dduliau atal a rhoi gwybod amdano mewn lleoliadau o'r fath, ac i'r heddlu wisgo camerâu corff pan elwir arnynt i gynorthwyo staff gofal iechyd ynddynt. Yn bwysig, bydd marwolaeth unrhyw glaf mewn uned iechyd meddwl sy'n deillio o'r defnydd o rym gan staff yno, yn destun proses adolygu gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Gelwir y ddeddfwriaeth hon yn Ddeddf Seni, am ei bod yn deillio o achos Olaseni 'Seni' Lewis a fu farw yn 2010 ar ôl cael ei atal am amser hir gan 11 o swyddogion yr heddlu tra roedd yn

12 Daeth y rhannau o'r Bil sy'n darparu ar gyfer awdurdodi amddifadu o ryddid i rym yn y pen draw ar 2 Rhagfyr 2019. Maent yn galluogi panel i awdurdodi cadw unigolyn 16 oed a throsodd â galluedd diffygiol yn gaeth, o dan amgylchiadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid, mewn man lle mae gofal neu driniaeth briodol ar gael iddo. Gweler https://www.mentalcapacitylawandpolicy.org.uk/all-or-at-least-part-go-for-the-mental-capacity-act-northern-ireland/ [cyrchwyd 05/12/19]

13 Institute for Government, Medi 2019, *Governing without ministers*, https://www.instituteforgovernment.org.uk/sites/default/files/publications/governing-without-ministers-northern-ireland.pdf [cyrchwyd 11/12/19]

14 Comisiwn y Gyfraith, Mawrth 2017, *Mental Capacity and Deprivation of Liberty*, https://www.lawcom.gov.uk/project/mental-capacity-and-deprivation-of-liberty/ [cyrchwyd 04/12/19]

glaf mewnol gwirfoddol mewn ysbyty iechyd meddwl.[15]

O ran mater cysylltiedig marwolaethau mewn lleoedd cadw, ym mis Rhagfyr 2018 cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban adolygiad o'r trefniadau ar gyfer ymchwilio i farwolaethau cleifion sy'n cael eu trin am anhwylder meddwl a nododd gynllun gweithredu.[16] Y cam gweithredu allweddol oedd i Gomisiwn Lles Meddyliol yr Alban ddatblygu system ar gyfer ymchwilio i holl farwolaethau cleifion a oedd, pan fuont farw, yn destun gorchymyn o dan naill ai Deddf Iechyd Meddwl (Gofal a Thriniaeth) (yr Alban) 2003 neu ran VI o Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (yr Alban) 1995 (p'un a oeddent yn yr ysbyty neu'r gymuned, gan gynnwys y rhai yr oedd y gorchymyn i'w cadw wedi'i atal dros dro).

Cyhoeddwyd adroddiad hirddisgwyliedig Adolygiad annibynnol o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (i Gymru a Lloegr) ym mis Rhagfyr 2018.[17] Nododd dair her allweddol o ran y ffordd y mae'r Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith ar hyn o bryd, sef: y cydbwysedd cymhleth rhwng parchu ymreolaeth unigolyn a dyletswydd Gwladwriaeth ddiwylliedig i ddiogelu'r rhai sy'n agored i niwed o dan wahanol Erthyglau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; problem ofn – a wynebir gan gleifion, y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol sy'n rhan o'r system; a'r cynnydd mewn gorfodaeth a gwaddol parhaus stigma, gwahaniaethu a hiliaeth mewn cymdeithas. Cydnabu'r Adolygiad nad oedd unrhyw ateb syml ond daeth i'r casgliad y dylid helpu cleifion i wneud mwy o ddewisiadau drostynt eu hunain ac argymhellodd hawl newydd i apelio yn erbyn triniaeth orfodol. Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban adolygiad annibynnol o Ddeddf Iechyd Meddwl (Gofal a Thriniaeth) (yr Alban) 2003 gyda'r nod o wella hawliau a mesurau diogelwch i'r rhai sy'n byw gyda salwch meddwl a dileu rhwystrau i'r rhai sy'n gofalu am eu hiechyd a'u llesiant. Bydd yr Adolygiad yn ystyried datblygiadau yng nghyfraith ac arferion iechyd meddwl sy'n ymwneud â chadw unigolion yn gaeth yn orfodol a gofal a thriniaeth ers i'r ddeddfwriaeth bresennol ddod i rym yn 2005.[18] Bydd yn adeiladu ar adolygiad a gyhoeddwyd yn flaenorol, sy'n edrych yn benodol ar y ffordd y mae cyfraith iechyd meddwl yn effeithio ar bobl ag anableddau dysgu ac awtistiaeth.[19]

Yng Nghymru, bu gwaith yn mynd rhagddo i wella ansawdd gofal cymdeithasol. Rhoddwyd darpariaethau yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 – sy'n ei gwneud yn ofynnol i wahanol fathau o ddarparwyr gofal a chymorth, gan gynnwys y rhai sy'n darparu gwasanaethau mewn sefydliadau diogel, gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru –

15 INQUEST, Tachwedd 2018, *Family celebrate lasting legacy as 'Seni's Law' receives Royal Assent*, https://www.inquest.org. uk/senis-law-assent [cyrchwyd 04/12/19]

16 Llywodraeth yr Alban, Rhagfyr 2018, *Review of the arrangements for investigating the deaths of patients being treated for mental disorder*, https://www.gov.scot/publications/review-arrangements-investigating-deaths-patients-being-treated-mental-disorder/ [cyrchwyd 04/12/19]

17 Llywodraeth EM, Rhagfyr 2018, *Modernising the Mental Health Act*, https://assets.publishing.service.gov.uk/ government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/778897/Modernising_the_Mental_Health_Act_-_increasing_ choice__reducing_compulsion.pdf [cyrchwyd 04/12/19]

18 Llywodraeth yr Alban, Mawrth 2019, *Review of the Mental Health Act*, https://news.gov.scot/news/review-of-the-mental-health-act [cyrchwyd 04/12/19]

19 Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Rhagfyr 2019. IRMHA, Rhagfyr 2019, *The Independent review of Learning Disability and Autism in the Mental Health Act, Final Report*, https://www.irmha.scot/wp-content/uploads/2020/01/IRMHA-Final-report-18-12-19-2.pdf [cyrchwyd 04/02/20]

ar waith rhwng mis Ebrill 2018 a mis Ebrill 2019 (gweler adran 2).[20] Atgyfnerthodd y Ddeddf y trefniadau ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol er mwyn gwella ansawdd gofal, cymorth a chanlyniadau llesiant i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Cafodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn er mwyn iddi allu penodi staff arolygu a staff cymorth ychwanegol; ni chaiff y budd i'r rhaglen waith ei wireddu'n llawn tan y flwyddyn ganlynol.

Ym mis Mawrth 2019, lansiodd Llywodraeth yr Alban adolygiad o wasanaethau iechyd meddwl fforensig er mwyn ystyried y galw am wasanaethau o'r fath a'r ffordd y maent yn cael eu darparu mewn carchardai, cyfleusterau iechyd meddwl diogel a gwasanaethau adsefydlu.[21] Ar hyn o bryd mae heriau penodol yn gysylltiedig â darparu ar gyfer cleifion benywaidd y mae angen gwasanaethau diogelwch uchel arnynt a phlant y mae angen gofal iechyd meddwl diogel arnynt, sy'n golygu bod achosion yn cael eu trosglwyddo i Loegr. Tynnwyd sylw at fater trosglwyddiadau trawsawdurdodaethol ar gyfer cleifion benywaidd a phlant, yn benodol, gan yr NPM yn dilyn ei waith trawsbynciol a fu'n edrych ar symudiadau a llwybrau rhwng gwahanol leoliadau iechyd meddwl. Mae'r materion hyn hefyd yn effeithio ar Gymru a Gogledd Iwerddon. Nododd yr NPM mai dim ond un ysbyty sy'n cynnig darpariaeth dra diogel i ferched yn y DU ac nad oes unrhyw unedau iechyd meddwl diogel i blant a phobl ifanc o dan 18 oed y tu allan i Loegr.[22]

## Carchardai a diwygio

Mae cwestiynau wedi'u gofyn am gynaliadwyedd poblogaethau'r carchardai yng Nghymru a Lloegr a'r Alban, gyda phryderon yn cael eu lleisio ynghylch capasiti a seilwaith yr ystad garchardai bresennol i ddarparu ar gyfer y cynnydd a ragamcenir.

Nododd Audit Scotland fod Gwasanaeth Carchardai'r Alban (SPS) yn gweithredu y tu hwnt i'w gapasiti o ran nifer y carcharorion, ar ôl i'r boblogaeth gynyddu o 7,200 ym mis Ebrill 2018 i fwy nag 8,100 ym mis Mawrth 2019, gyda'r rhagolygon yn rhagamcanu twf pellach.[23] Roedd diffyg rhagamcanol yn y gyllideb gyda goblygiadau gweithredol posibl o ran sicrhau a chynnal diogelwch carcharion a swyddogion carchar. Roedd lefelau uwch o absenoldeb oherwydd salwch yn rhoi pwysau ychwanegol ar staff. Oherwydd y pwysau hyn, cafodd gwasanaethau cymorth gofal drwy'r broses – lle mae swyddogion carchar yn helpu carcharorion byrdymor i baratoi ar gyfer eu rhyddhau ac yn eu cefnogi ar ôl hynny – eu hatal dros dro gan Wasanaeth Carchardai'r Alban er mwyn i aelodau profiadol o staff allu cael eu symud i ddyletswyddau gweithredol craidd. Roedd y Llywodraeth yn gweithio gyda'r sector gwirfoddol, y trydydd sector ac awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r diffyg hwn.

20 Mae person sy'n rheoli carchar neu sefydliad carcharol tebyg wedi'i eithrio o'r diffiniad os yw'n darparu gofal a chymorth yn uniongyrchol i'r unigolion sy'n cael eu cadw yno. Fodd bynnag, os yw gofal a chymorth yn cael eu darparu i unigolion dan gadwad gan Wasanaeth Cymorth Cartref (er enghraifft, Gwasanaeth Cymorth Cartref o fewn awdurdod lleol) ac nid gan berson sy'n rheoli'r carchar, nid yw'n ofynnol iddo gofrestru ag AGC.

21 Llywodraeth yr Alban, Mawrth 2019, *Improving mental health services*, https://news.gov.scot/news/improving-mental-health-services-1 [cyrchwyd 04/12/19]

22 Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y DU, Chwefror 2018, *Monitro lleoedd cadw. Wythfed Adroddiad Blynyddol Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y Deyrnas Unedig*, https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/npm-prod-storage-19n0nag2nk8xk/uploads/2018/02/6.4122_NPM_AR2016-17_v4_web.pdf, [cyrchwyd 04/12/19]

23 Audit Scotland, Mehefin 2019, *Scottish Prison Service 2018/19 Annual Audit Report to the Accountable Officer and the Auditor General for Scotland*, https://www.audit-scotland.gov.uk/uploads/docs/report/2019/aar_1819_scottish_prison_service.pdf [cyrchwyd 04/12/19]

Hefyd, aeth Gwasanaeth Carchardai'r Alban ati i geisio prynu lleoedd carchar ychwanegol mewn dau garchar yn y sector preifat.[24] Roedd datblygiadau eraill yn ystod y flwyddyn yn cynnwys: Gwasanaeth Carchardai'r Alban yn ceisio proffesiynoli rôl y swyddog carchar drwy'r Rhaglen Proffesiynoli Swyddogion Carchar (POPP), a gweithredu ymrwymiad Gwasanaeth Carchardai'r Alban i gyflwyno carchardai di-fwg erbyn diwedd y flwyddyn.

Ymrwymodd Llywodraeth yr Alban i ymestyn y rhagdybiaeth yn erbyn dedfrydau byr o dri mis neu lai i 12 mis neu lai a chyhoeddodd y byddai'n rhoi £250 miliwn i wella gwasanaethau iechyd meddwl. Bydd yr olaf yn cynnwys buddsoddiad o £35 miliwn dros bum mlynedd i ddarparu mynediad at 800 o weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ychwanegol mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, meddygfeydd, dalfeydd yr heddlu a charchardai. Pasiodd Llywodraeth yr Alban Ddeddf Cam-drim Domestig (yr Alban) 2018 sy'n gwneud cam-drin domestig seicolegol ac ymddygiad gorfodol a rheolaethol yn drosedd. Lluniodd y Llywodraeth Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol, a lansiwyd ym mis Mehefin 2018, gydag 11 o ganlyniadau cenedlaethol y mae'n ceisio eu cyflawni er mwyn gwella cydraddoldeb. Mae dau ganlyniad yn arbennig o bwysig i gyfiawnder, sef: 'We live in communities that are inclusive, empowered, resilient and safe', a 'We respect, protect and fulfil human rights and live free from discrimination'.

Cafwyd cyhoeddiadau pwysig yng Nghymru a Lloegr a oedd yn ceisio mynd i'r afael â'r heriau yn gysylltiedig â diogelwch a seilwaith carchardai a nodi strategaethau a buddsoddiad arfaethedig. Ochr yn ochr ag ymdrechion parhaus i recriwtio staff ychwanegol i garchardai, cyhoeddwyd pecyn gwerth £30 miliwn ym mis Gorffennaf 2018 i fynd i'r afael ag anghenion cynnal a chadw dybryd, mesurau diogelwch a'r angen i ddarparu ffonau mewn celloedd sy'n cael eu monitro'n ddiogel.[25] At hynny, cyflwynodd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) dasglu ar gyffuriau a chyhoeddodd strategaeth gyffuriau er mwyn mynd i'r afael â'r cyflenwad a'r galw ym mhob rhan o'r system. Ym mis Awst 2018, lansiwyd Prosiect 10 Carchar gyda'r nod o leihau trais mewn 10 carchar yng Nghymru a Lloegr drwy ganolbwyntio ar leihau'r defnydd o gyffuriau, mynd i'r afael â thrais, gwella gwedduster a meithrin y gallu i arwain. Fe'i hwyluswyd gan £10 miliwn o gyllid ychwanegol.[26] Addawodd y Gweinidog Carchardai a Phrawf y byddai'n ymddiswyddo pe na bai'r prosiect yn cael yr effaith ddymunol o fewn 12 mis. Cydnabu'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder y gyfradd garcharu uchel yng Nghymru a Lloegr a chynigiodd y dylid bod yn ofalus wrth barhau i gynyddu dedfrydau. Roedd o'r farn bod achos cryf iawn dros ddiddymu dedfrydau byr o garchar (gyda rhai eithriadau) a gwneud mwy o ddefnydd o orchmynion cymunedol, er na wnaeth unrhyw ymrwymiad i ddeddfu.[27] At hynny, parhaodd y Llywodraeth â'i pharatoadau ar gyfer adeiladu carchardai newydd, gan

24 Llwyddodd i wneud hyn yn ddiweddarach yn 2019. Gweler *The Scotsman*, Medi 2019, 'Scottish Government forced to pay for extra private prison places as overcrowding soars', https://www.scotsman.com/news/crime/scottish-government-forced-to-pay-for-extra-private-prison-places-as-overcrowding-soars-1-5012374 [cyrchwyd 04/12/19]

25 Justice Secretary launches fresh crackdown on crime in prison: araith gan David Gauke, Gorffennaf 2018, https://www.gov.uk/government/speeches/justice-secretary-launches-fresh-crackdown-on-crime-in-prison-speech [cyrchwyd 04/12/19]

26 Y 10 carchar yw Hull, Humber, Leeds, Lindholme, Moorland, Wealstun, Nottingham, Ranby, Isis a Wormwood Scrubs. Gweler https://www.gov.uk/government/news/minister-announces-10-prisons-project-to-develop-new-model-of-excellence [cyrchwyd 05/12/19]

27 'Beyond prison, redefining punishment': araith gan David Gauke, Chwefror 2019, https://www.gov.uk/government/speeches/beyond-prison-redefining-punishment-david-gauke-speech [cyrchwyd 04/12/19]

gynnwys yn Wellingborough, y disgwylir iddo agor yn 2021.

Er gwaethaf y buddsoddiad hwn, tynnodd y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder sylw at ôl-groniad sylweddol o waith cynnal a chadw mawr mewn carchardai. Amcangyfrifodd y Gweinidog dros Garchardai, ym mis Awst 2018, mai'r swm cyfredol roedd ei angen ar gyfer gwaith cynnal a chadw mawr mewn carchardai cyhoeddus oedd £716 miliwn ac eto, ar gyfer y flwyddyn 2018–19, dim ond £90 miliwn a ddyranwyd ar ei gyfer. Yn ei adroddiad dilynol, ailddatganodd y Pwyllgor argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor a'i ragflaenodd yn 2017 y dylid atgyfnerthu seiliau statudol Yr Ombwdsman Carchardai a Phrawf a'r Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am redeg CEM Birmingham o G4S i'r Gwasanaeth Carchardai dros dro ym mis Awst 2018 ar ôl i Hysbysiad Brys gael ei gyflwyno gan Arolygiaeth Carchardai EM; ar 1 Ebrill 2019 cyhoeddwyd y byddai'r trosglwyddiad hwn yn barhaol.

Cynhaliwyd gwrandawiad Arolygiad Barnwrol yn yr Uchel Lys yn erbyn Sodexo Justice Services a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ar 4 a 5 Gorffennaf 2018, yn dilyn pum achos o noeth-chwilio anghyfreithlon yn CEM Peterborough y flwyddyn flaenorol.[29] Cyfaddefodd Sodexo Justice Services ei fod yn gyfrifol am achosion systemig o dorri Cyfarwyddyd y Gwasanaeth Carchardai 07/2016 ac Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol[30], gan gynnwys y ffaith nad oedd wedi rhoi hyfforddiant digonol i'w staff ar gynnal noeth-chwiliadau. Dyfarnodd y Llys nad oedd mesurau a roddwyd ar waith gan yr Ysgrifennydd Gwladol er mwyn diogelu prosesau noeth-chwilio yn ddigonol nac yn effeithiol i atal Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol rhag cael ei thorri gan Sodexo am na wnaeth sicrhau bod systemau priodol ac addas ar waith ar gyfer hyfforddi staff i gynnal noeth-chwiliadau. Roedd Arolygiaeth Carchardai EM wedi tynnu sylw ar y gorddefnydd o brosesau noeth-chwilio yn CEM Peterborough yn ei adroddiadau arolygu yn 2014 a 2017 a chafodd y lleihad yn y defnydd ohonynt a ddeilliodd o hynny ei fonitro a'i nodi wedyn yn adroddiad 2017-18 gan y Byrddau Monitro Annibynnol yn y carchar.[31]

28 Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin, Ebrill 2019, *Prison population 2022: planning for the future sixteenth report of session 2017-19*, https://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmjust/483/483.pdf [cyrchwyd 04/12/19]

29 LW & Ors v Sodexo Ltd & Anor (Rev 1) [2019] EWHC 367 https://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/Admin/2019/367.html [cyrchwyd 04/12/19]

30 Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yw'r hawl i barch at fwyd preifat a bywyd teuluol.

31 Arolygiaeth Carchardai EM, Ionawr 2018, Datganiad i'r wasg: 'Peterborough women's prison – respectful but undermined by deteriorating safety and concerns over force and strip-searching', https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/media/press-releases/2018/01/peterborough-womens-prison-respectful-but-undermined-by-deteriorating-safety-and-concerns-over-force-and-strip-searching/ [cyrchwyd 24/02/20]; Y Bwrdd Monitro Annibynnol yn CEM/Sefydliad Troseddwyr Ifanc Peterborough, Awst 2018, *Annual Report of the Independent Monitoring Board at HMP/YOI Peterborough for reporting year April 2017–March 2018*, https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/imb-prod-storage-1ocod6bqky0vo/uploads/2018/08/Peterborough-2017-18.pdf [cyrchwyd 24/02/20]

Parhaodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder â'i gwaith i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, yn enwedig er mwyn gweithredu ar yr argymhellion a wnaed gan David Lammy AS yn ei adroddiad yn 2017 y dylid lleihau triniaeth wahaniaethol yn erbyn carcharorion o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig a chyflwyno rhaglen newydd i wella canlyniadau i garcharorion benywaidd o dan y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd, a lansiwyd ym mis Mehefin 2018.[32]

Dechreuodd Prif Swyddog Gweithredol newydd HMPPS, Dr Jo Farrar, ei chyfnod yn y swydd ar 1 Ebrill 2019. Ers y mis Ebrill blaenorol, roedd HMPPS wedi parhau i roi'r Model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC) ar waith mewn carchardai i oedolion yng Nghymru a Lloegr er mwyn cydgysylltu a threfnu taith unigolyn drwy gystodaeth ac ar ôl iddo gael ei ryddhau. Mae fframwaith OMiC yn cynnwys pennu gweithiwr allweddol i bob carcharor gwrywaidd i'w gefnogi yn ystod ei amser yn y ddalfa. Fel rhan o ddiwygiadau, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016, i egluro cyfrifoldebau llywodraethwyr carchardai a'u galluogi i wneud penderfyniadau lleol, roedd HMPPS wedi bod yn adolygu ei bolisïau gweithredol er mwyn eu symleiddio.[33] Yn ystod rhan olaf 2018 ac ar ddechrau 2019, cyhoeddodd gyfres o Fframweithiau Polisi er mwyn egluro rhai canllawiau presennol a chyflwyno canllawiau newydd yn lle rhai eraill (a gyhoeddwyd drwy Gyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Carchardai a Gorchmynion y Gwasanaeth Carchardai).[34] Cyhoeddodd y Llywodraeth hefyd gynlluniau hirddisgwyliedig ar gyfer dyfodol gwasanaethau prawf, gan ddod â gweithgarwch rheoli troseddwyr yn ôl o dan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wrth gadw rhywfaint o ddarpariaeth gan y sector preifat a'r sector gwirfoddol er mwyn helpu i adsefydlu ac ailsefydlu troseddwyr.

## Plant dan gadwad

Yng Ngogledd Iwerddon ac yng Nghymru a Lloegr, gwnaed cynlluniau i newid natur llety diogel i blant mewn ffyrdd gwahanol. Yn ystod 2018, sefydlodd yr Adran Iechyd a'r Adran Gyfiawnder yng Ngogledd Iwerddon fwrdd prosiect er mwyn creu un cyfleuster integredig i ddarparu gofal a dalfa i blant a phobl ifanc; bydd y cyfleuster hwn yn integreiddio gwasanaethau a ddarperir yng Nghanolfan Cyfiawnder Ieuenctid Woodlands a Chartref Plant Gofal Diogel Lakewood ar un campws.

Ym mis Mehefin 2018, daeth rhagor o fanylion i'r amlwg am weledigaeth y Llywodraeth ar gyfer sefydlu ysgolion diogel yng Nghymru a Lloegr.[35] Bwriad cynnig y Llywodraeth – a ddilynodd adolygiad Charlie Taylor o'r system cyfiawnder ieuenctid – yw y bydd ysgolion diogel yn disodli sefydliadau troseddwyr ifanc a chanolfannau hyfforddi diogel. Caiff ysgolion diogel yn Lloegr eu cofrestru a'u harolygu fel cartrefi diogel i blant ag Ofsted a'u harolygu fel

32 Comisiynwyd David Lammy AS i gynnal adolygiad annibynnol o driniaeth a chanlyniadau unigolion o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y system cyfiawnder troseddol. Yn ei adroddiad, a elwir yn Adolygiad Lammy, gwnaeth argymhellion i wella'r ffordd y caiff ethnigrwydd, canlyniadau unigolion BAME yn y carchar, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r system Cymhellion a Breintiau a Enillir (IEP), y defnydd o rym a'r system gwyno, ac amrywiaeth staff carchardai eu monitro. Gweler https://www.gov.uk/government/publications/lammy-review-final-report [cyrchwyd 24/02/20]; Rhoddodd y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd y pwyslais ar ddarpariaeth gymunedol i ferched, er na ddarparwyd fawr ddim cyllid ychwanegol i ddatblygu hyn. Gweler https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy [cyrchwyd 24/02/20]

33 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Tachwedd 2016, *Prison Safety and Reform*, https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/565014/cm-9350-prison-safety-and-reform-_web_.pdf [cyrchwyd 24/02/20]

34 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Medi 2018, *Prison and Probation Policy Frameworks*, https://www.gov.uk/government/collections/prison-probation-policy-frameworks [cyrchwyd 24/02/20]

35 Nid yw Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei chynlluniau i agor ysgolion diogel eto. Mae cynlluniau i agor yr ysgol ddiogel gyntaf, ar safle Canolfan Hyfforddi Ddiogel Medway, wedi'u gohirio. Gweler: https://www.cypnow.co.uk/News/article/moj-confirms-delay-to-secure-school-opening [cyrchwyd 05/12/19]

academïau 16-19. Cyflwynodd Llywodraeth yr Alban ddeddfwriaeth gyda'r bwriad o godi oedran cyfrifoldeb troseddol i 12 oed.[36] Ym mis Tachwedd 2018, comisiynodd y Llywodraeth Brif Arolygydd Carchardai EM ar gyfer yr Alban i ymchwilio i'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc sy'n mynd i mewn i CEM Sefydliad Troseddwyr Ifanc Polmont ac sy'n cael eu dal yno, ar ôl i ddau unigolyn farw yn y carchar.[37] Ar gais y Llywodraeth, arweiniwyd yr adolygiad gan y Prif Arolygydd ynghyd â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol â phrofiad perthnasol ac asiantaethau eraill.[38] Yn fwy cyffredinol, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai Tasglu Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc a Chomisiwn Ieuenctid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn cael eu creu.

## Dalfeydd yr heddlu

Yn ystod haf 2018, bu ICVA yn gweithio gyda'r Coleg Plismona er mwyn diweddaru canllawiau ymarfer proffesiynol ar gyfer lleoedd cadw a dalfeydd yr heddlu yng Nghymru a Lloegr sy'n ymwneud â chynhyrchion mislif i fenywod a merched. Mae'r canllawiau bellach yn dweud y dylid hysbysu menywod a merched dan gadwad: y gallant siarad â swyddog benywaidd yn breifat; bod unrhyw ffilm o doiledau a gaiff ei recordio gan gamerâu diogelwch wedi'i phicselu; bod cyfleusterau golchi dwylo a chawodydd ar gael ar gais; os bydd angen, neu os yw'n debygol y bydd angen, unrhyw gynhyrchion mislif arnynt tra byddant yn nalfa'r heddlu, cânt eu darparu am ddim, gan gynnwys unrhyw eitemau newydd yn lle rhai a ddefnyddiwyd. Chwaraeodd ICVA ran allweddol hefyd wrth sicrhau cytundeb y Swyddfa Gartref i newid deddfwriaeth o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) er mwyn ei gwneud yn ofynnol i heddluoedd barchu urddas menywod a merched yn y ddalfa a rhoi gofal priodol i fenywod a merched sy'n cael mislif yn y ddalfa.[39]

Bydd strategaeth ystad tair blynedd Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon yn arwain at gau gorsafoedd yr heddlu, y mae 12 ohonynt eisoes wedi'u cau. Fodd bynnag, roedd y gwaith o drawsnewid gofal iechyd yn nalfeydd yr heddlu yn mynd rhagddo, gyda'r nod o ddatblygu a gweithredu model amlddisgyblaethol sy'n canolbwyntio ar y claf, gyda gwasanaeth nyrsio ymgorfforedig, mewn cydweithrediad ag Asiantaeth Iechyd y Cyhoedd, yr Adran Iechyd a'r Adran Gyfiawnder ac Ymddiriedolaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mynegodd Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban bryderon sylweddol ynghylch goblygiadau defnydd arfaethedig yr heddlu o systemau brysbennu dyfeisiau digidol o ran hawliau dynol, a rhoddodd y dystiolaeth i Senedd yr Alban ar ddau achlysur.[40] Byddai'r systemau hyn,

36 Cafodd y ddeddfwriaeth hon Gydsyniad Brenhinol ym mis Mehefin 2019, y tu allan i'r cyfnod adrodd.

37 Cyhoeddwyd yr adroddiad a ddeilliodd o'r ymchwiliad ym mis Mai 2019, y tu allan i'r cyfnod adrodd. Gweler Arolygiaeth Carchardai EM ar gyfer yr Alban, Mai 2019, *Report on Expert Review of Provision of Mental Health Services at HMP YOI Polmont*, https://www.prisonsinspectoratescotland.gov.uk/sites/default/files/publication_files/Report%20on%20Expert%20Review%20of%20Provision%20of%20Mental%20Health%20Services%20at%20HMP%20YOI%20Polmont%20-%20Final%20Version.pdf [cyrchwyd 05/12/19]

38 Arolygiaeth Carchardai EM ar gyfer yr Alban, Awst 2019, *Annual Report 2018-19*, https://www.prisonsinspectoratescotland.gov.uk/sites/default/files/publication_files/Annual%20report.pdf [cyrchwyd 05/12/19]

39 Cymdeithas yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa, Awst 2018, *ICVA Welcomes Increased Dignity for Female Detainees, Press Release*, https://icva.org.uk/wp-content/uploads/2018/08/2018.08.21-Menstruation-ICVA-Press-Release.pdf [cyrchwyd 05/12/19]; Llywodraeth EM, Awst 2019, *Guide to the 2019 revisions to the Police and Criminal Evidence Act 1984 (PACE)*, https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/ file/826408/2019_Guide-to-2019Revised-CodesC_H.pdf [cyrchwyd 05/12/19]

40 Senedd yr Alban, Medi 2018, *Justice Sub-Committee on Policing Scottish Parliament Session 5*, http://www. parliament.scot/parliamentarybusiness/report.aspx?r=11670&mode=pdf [cyrchwyd 05/12/19]; Senedd yr Alban, Tachwedd 2018, *Justice Sub-Committee on Policing Scottish Parliament Session 5*, http://www.parliament.scot/parliamentarybusiness/report.aspx?r=11785&mode=pdf [cyrchwyd 05/12/19]

a elwir yn 'seibergiosgau', yn darparu galluoedd fforensig digidol cyflymach i archwilio dyfeisiau symudol a atafaelwyd, gan gynnwys y rhai a drosglwyddwyd yn wirfoddol. Roedd pryderon Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban yn ymwneud â diffyg ymddangosiadol mesurau diogelwch priodol mewn perthynas â mynediad at ddata personol a sensitif o fewn y broses hon.[41]

## Dalfeydd y llysoedd

Tynnodd Prif Arolygydd Carchardai EM ar gyfer yr Alban sylw at y potensial i wneud gwell defnydd o gyfleusterau cyswllt fideo a mabwysiadu dull mwy craff o gludo carcharorion. Cynigiodd y byddai hyn yn arbed arian ac yn lleihau'r risg sy'n gysylltiedig â chludiant a charcharorion, nifer y carcharorion sy'n ymddangos yn y llys ar gyfer gwrandawiadau gweithdrefnol byr a'r anghyfleuster a wynebir gan garcharorion sy'n deillio o oriau hir o deithio neu gael eu cadw'n gaeth ar gyfer ymddangosiadau byr yn y llys.[42]

Ar ddechrau 2018, cyhoeddodd y Llywodraeth ymgynghoriad cyhoeddus ar strategaeth ar gyfer adeiladau a chyfleusterau llysoedd yng Nghymru a Lloegr.[43]

## Canolfannau cadw mewnfudwyr

Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd Stephen Shaw adroddiad dilynol i'w adolygiad annibynnol o lesiant pobl sy'n agored i niwed mewn canolfannau cadw mewnfudwyr, a gyhoeddwyd yn 2015, ar ôl i'r Swyddfa Gartref ofyn iddo ystyried i ba raddau roedd wedi mabwysiadu ei argymhellion a'r effaith roedd hyn wedi'i chael ar arferion.[44] Croesawodd y cynnydd roedd y Llywodraeth wedi'i wneud o ran gweithredu ar ei argymhellion, lleihau'r defnydd o bwerau cadw mewnfudwyr ac am faint o amser y mae mewnfudwyr yn cael eu cadw'n gaeth ar gyfartaledd a gwella amodau i'r rhai sy'n cael eu dal. Serch hynny, nododd fod 'gap between the laudable intentions of policymakers and actual practice on the ground', yn enwedig mewn perthynas â nifer y bobl sy'n agored i niwed sy'n cael eu dal yn gaeth. Roedd ei argymhellion yn cynnwys gwelliannau i fesurau diogelwch ar gyfer oedolion sy'n agored i niwed, atgyfnerthu prosesau sicrhau ansawdd a'r trefniadau ar gyfer eu goruchwylio a chynigion ar gyfer llunio opsiynau amgen i gadw mewnfudwyr yn gaeth.

Ym mis Gorffennaf 2018 cyhoeddodd y Llywodraeth ymrwymiad i wneud diwygiadau pellach i'r trefniadau ar gyfer cadw mewnfudwyr yn gaeth, ond awgrymodd nad oedd digon o dystiolaeth i lunio barn ar fater terfynau amser.[45] Mae cynnig i wella tryloywder ynglŷn â chadw mewnfudwyr yn gaeth drwy gyhoeddi mwy o ddata a chomisiynu Prif Arolygydd Annibynnol Ffiniau a Mewnfudo i gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar y polisi oedolion mewn perygl mewn canolfannau cadw mewnfudwyr, yn haeddu sylw.[46]

---

41 *Police Scotland Serving a Changing Scotland*, https://www.scotland.police.uk/about-us/serving-a-changing-scotland/cyber-kiosk, [cyrchwyd 05/12/19]

42 Arolygiaeth Carchardai EM ar gyfer yr Alban, Awst 2019, *Annual Report 2018-19*, https://www.prisonsinspectoratescotland.gov.uk/sites/default/files/publication_files/Annual%20report.pdf [cyrchwyd 14/01/20]

43 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder , Ionawr 2018, *Fit for Future: transforming the Court and Tribunal Estate*, https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-court-tribunal-estate/supporting_documents/hmctsstrategyapproachconsultation.pdf [cyrchwyd 14/01/20]

44 Stephen Shaw, Gorffennaf 2018, *Assessment of government progress in implementing the report on the welfare in detention of vulnerable persons - A follow-up report to the Home Office,* https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/728376/Shaw_report_2018_Final_web_accessible.pdf [cyrchwyd 05/12/19]

45 Datganiad Llafar i'r Senedd, datganiad yr Ysgrifennydd Cartref ar gadw mewnfudwyr yn gaeth ac adroddiad Shaw https://www.gov.uk/ government/speeches/home-secretary-statement-on-immigration-detention-and-shaw-report [cyrchwyd 05/12/19]

46 Llywodraeth EM, Rhagfyr 2018, *The UK's future skills-based immigration system*, https://assets.publishing.service. gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/766465/The-UKs-future-skills-based-immigration-system-print-ready.pdf [05/12/19]

O ran tryloywder, ym mis Medi 2018, cododd Stephen Shaw y ffaith nad yw'r Swyddfa Gartref yn cydymffurfio â'r arfer o gyhoeddi data ar farwolaethau mewnfudwyr dan gadwad gyda'r Pwyllgor Materion Cartref. Mae papurau newydd *The Guardian* a *The Independent* wedi nodi ffyrdd eraill lle mae diffyg tryloywder wedi bod o ran data'r Swyddfa Gartref. Ym mis Rhagfyr 2018, honnodd *The Independent* fod y Swyddfa Gartref wedi dileu cofnodion am farwolaeth mewnfudwr dan gadwad, Michal Netyks, yr oedd disgwyl iddo gael ei ryddhau ar ôl treulio cyfnod yn y carchar, a hynny'n fwriadol.[47] Tynnodd y papur newydd sylw hefyd at sawl achos lle roedd pobl yr oedd y Swyddfa Gartref wedi nodi'n ffurfiol eu bod yn ddioddefwyr caethwasiaeth fodern, neu a oedd yn dangos arwyddion clir eu bod yn ddioddefwyr, wedi cael eu cadw'n gaeth neu lle y bygythiwyd eu hallgludo.[48] Nododd fod 507 o bobl a oedd wedi dianc rhag ecsbloetiaeth yn cael eu cadw'n gaeth o dan bwerau mewnfudo yn 2018, er gwaethaf canllawiau'r Swyddfa Gartref na ddylid cadw'r grŵp hwn yn gaeth.[49] Ym mis Medi 2018, nododd *The Guardian* fod y Swyddfa Gartref wedi colli bron i dri chwarter yr apeliadau yn erbyn dyfarniadau mewnfudo.[50] Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref y byddai tîm yn cael ei sefydlu er mwyn adolygu tystiolaeth newydd ym mhob apêl fewnfudo yn yr arfaeth.

## Y sefyllfa mewn lleoedd cadw yn ystod y flwyddyn

### Carchardai

Lleisiwyd pryderon sylweddol ynghylch y sefyllfa mewn carchardai ledled pedair gwlad y DU gan aelodau'r NPM, gan gynnwys y ffaith bod sylweddau seicoweithredol newydd yn dal i fod yn gyffredin mewn carchardai ac effaith y sylweddau hynny ar iechyd a diogelwch carcharorion, a'r angen i wella gofal iechyd meddwl yn y carchar yn sylweddol. Ar 29 Mawrth 2019 cyfanswm poblogaeth carchardai yng Nghymru a Lloegr oedd 82,643 (78,806 o ddynion a 3,837 o fenywod), sy'n debyg i'r boblogaeth a gofnodwyd ar yr un adeg yn y flwyddyn flaenorol.[51] Y boblogaeth yng ngharchardai'r Alban ar ddiwedd mis Mawrth 2019 oedd 8,122, sef cynnydd o 709 (bron 9%) yng nghyfanswm y bobl yn y carchar yn yr Alban dros y flwyddyn ddiwethaf, sy'n cyfateb i un carchar mawr ychwanegol.[52] Ni fu fawr o newid ym mhoblogaeth y carchardai yng Ngogledd Iwerddon, a'r boblogaeth ddyddiol gyfartalog ar draws y flwyddyn oedd 1,448.[53]

Ar y cyfan, roedd aelodau'r NPM o'r farn bod yr amodau mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr yn wael, gyda llawer o garcharorion yn cael eu cadw mewn cyfleusterau budr, gorlawn. Roedd yr amser yr oedd carcharorion yn ei dreulio

47 *The Independent*, Rhagfyr 2018, 'Home Office accused of 'denial and obfuscation' after deleting records on death of immigration detainee', https://www.independent.co.uk/news/uk/home-news/home-office-immigration-detention-denial-deleting-records-death-michal-netyks-poland-a8693121.html [cyrchwyd 05/12/19]

48 *The Independent,* Gorffennaf 2019, 'Home Office accused of covering up plight of hundreds of trafficking victims wrongly detained in immigration centres', https://www.independent.co.uk/news/uk/home-news/home-office-modern-slavery-trafficking-victims-immigration-detention-detained-foi-data-a9007251.html [cyrchwyd 05/12/19]

49 *The Independent*, Gorffennaf 2019, 'Home Office forced to defend 'cover-up' over detention of hundreds of modern slavery victims', https://www.independent.co.uk/news/uk/home-news/home-office-modern-slavery-victims-immigration-detention-caroline-nokes-diane-abbott-parliament-a9008836.html [cyrchwyd 05/12/19]

50 *The Guardian*, Medi 2018, 'Home Office loses 75% of its appeals against immigration rulings', https://www. theguardian.com/uk-news/2018/sep/03/inhumane-three-quarters-of-home-office-asylum-appeals-fail [cyrchwyd 05/12/19]

51 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol, Gwasanaeth Carchardai EM, a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, Bwletin Poblogaeth: Wythnosol 29 Mawrth 2019, https://www.gov.uk/government/statistics/prison-population-figures-2019 [cyrchwyd 12/10/19]

52 Arolygiaeth Carchardai EM ar gyfer yr Alban, Awst 2019, *HM Chief Inspector of Prisons for Scotland: Annual Report 2018-19*, https://www.prisonsinspectoratescotland.gov.uk/publications/hm-chief-inspector-prisons-scotland-annual-report-2018-19?page=9 [cyrchwyd 18/10/19]

53 Yr Adran Gyfiawnder, Medi 2019, *The Northern Ireland Prison Population*, https://www.justice-ni.gov.uk/sites/default/files/publications/justice/ni-prison-population-18-19.pdf [cyrchwyd 08/01/20]

mewn celloedd, unwaith eto, yn cael ei ystyried yn annerbyniol gan Arolygiaeth Carchardai EM. Mae hyn yn destun pryder parhaus sydd wedi'i nodi yn adroddiadau Arolygiaeth Carchardai EM dros sawl blwyddyn. Dim ond mewn traean o'r carchardai i oedolion gwrywaidd a arolygwyd yr ystyriwyd bod gweithgarwch pwrpasol yn dda neu'n eithaf da. Croesawodd y Byrddau Monitro Annibynnol y cynnydd yn nifer y staff ond gwnaethant nodi bod i nifer a chyfran y staff newydd a dibrofiad oblygiadau i ddiogelwch a thriniaeth deg carcharorion. Mewn llawer o achosion roedd cyfleoedd i dreulio amser y tu allan i'r gell, cael addysg a gweithio yn parhau i fod yn gyfyngedig. Cododd Byrddau bryderon difrifol hefyd ynghylch y defnydd o unedau arwahanu i ymdrin â charcharorion â chyflyrau iechyd meddwl difrifol, na ellid eu trosglwyddo oherwydd y prinder dybryd o wasanaethau iechyd meddwl arbenigol priodol ac a oedd, mewn rhai achosion, yn treulio cyfnodau annerbyniol o hir mewn cell ar eu pennau eu hunain. Parhau i gynyddu a wnaeth nifer y digwyddiadau hunan-niweidio ac ymosodiadau, a chofnodwyd y lefelau uchaf erioed am y flwyddyn unwaith yn rhagor. Cyfanswm y digwyddiadau hunan-niweidio oedd 57,968 ar gyfer y flwyddyn, sef cynnydd o 24% o gymharu â'r ffigur a gofnodwyd 12 mis ynghynt. Cofnodwyd 34,425 o ymosodiadau, sef cynnydd o 11% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O'r digwyddiadau hyn, ystyriwyd bod 11% yn rhai difrifol.[54]

Cafwyd 317 o farwolaethau yn nalfeydd yr heddlu yn ystod y flwyddyn, sef cynnydd o 18 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O'r rhain, roedd 87 yn farwolaethau hunanachosedig, sef cynnydd o 14 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.[55] Roedd yn destun pryder bod Arolygiaeth Carchardai EM wedi nodi, fel yn y ddwy flynedd flaenorol, nad oedd digon o sylw wedi'i roi i argymhellion a wnaed gan yr Ombwdsman Carchardai a Phrawf yn dilyn marwolaeth, mewn tua thraean o'r carchardai a arolygwyd.

Roedd y canlyniadau o ran diogelwch, gweithgarwch pwrpasol a pharch yn waeth, ar y cyfan, o gymharu â'r sgoriau arolygu blaenorol ar gyfer rhai carchardai i ddynion yng Nghymru a Lloegr.[56] Roedd lefelau trais wedi cynyddu mewn mwy na hanner y carchardai a arolygwyd gan Arolygiaeth Carchardai EM. Tynnodd adroddiadau ar Garchardai EM Caerwysg, Birmingham a Bedford, yn arbennig, sylw at yr angen i wneud gwelliannau fel mater o frys, a gwnaethant arwain at gyflwyno Hysbysiadau Brys. Yn wir, carchardai categori B a chategori C i ddynion – sy'n dal y mwyafrif o garcharorion – a oedd yn achosi'r pryder mwyaf. O'r 28 o garchardai lleol a charchardai hyfforddi a arolygwyd yn ystod y flwyddyn, ystyriwyd bod 22 yn wael neu nad oeddent yn ddigon da mewn perthynas â diogelwch.[57] Tynnodd y Byrddau Monitro Annibynnol sylw hefyd at y dirywiad sylweddol mewn amodau a chyfundrefnau, y defnydd cynyddol o sylweddau seicoweithredol newydd a lefelau cynyddol o hunan-niweidio a thrais mewn carchardai lleol a charchardai hyfforddi.[58]

54 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gorffennaf 2019, *Safety in Custody quarterly*: *update to March 2019*, https://www.gov.uk/government/statistics/safety-in-custody-quarterly-update-to-march-2019 [cyrchwyd 18/10/19]

55 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Ebrill 2019, *Safety in Custody Statistics, England and Wales: Deaths in Prison Custody to March 2019;* Assaults and Self-harm to December 2018, https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/797074/safety-custody-bulletin-q4-2018.pdf [cyrchwyd 18/10/19]

56 Ar gyfer pob 'asesiad carchar iach' a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Carchardai EM, roedd mwy o sgoriau wedi aros yn 'ddigyfnewid' o gymharu ag arolygiadau blaenorol nag a oedd wedi gostwng neu wedi gwella.

57 Arolygiaeth Carchardai EM, Gorffennaf 2019, *HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales Annual report 2018-19*, https:// assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/814689/hmip-annualreport-2018-19.pdf [cyrchwyd 18/10/19].

58 Byrddau Monitro Annibynnol, Mehefin 2019, *Annual Report*, https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/imb-prod-storage1ocod6bqky0vo/uploads/2019/06/IMB-NATIONAL-ANNUAL-REPORT-PUBL-5-JUNE-2019.pdf [cyrchwyd 18/10/19]; *Introducing the use of PAVA spray in prisons*, Hydref 2018, https://prisonjobs.blog.gov.uk/2018/10/09/introducing-theuse-of-pava-spray-in-prisons/ [cyrchwyd 05/12/19]

Roedd y defnydd o rym gan staff yn helaeth mewn llawer o garchardai a lleisiwyd pryderon ynghylch gwendidau o ran y ffordd y mae'r defnydd ohono yn cael ei reoli. Cyhoeddwyd eleni y byddai chwistrell PAVA – sef chwistrell pupur synthetig sy'n analluogi'r rhai y mae'n cael ei chwistrellu arnynt dros dro – yn cael ei gyflwyno yn ystad yr oedolion gwrywaidd (yn dilyn cynllun peilot) ac y byddai canllawiau cysylltiedig i garchardai yn cael eu cyhoeddi, ac roedd disgwyl i hynny ddechrau ym mis Ebrill 2019;[59] lleisiodd y Byrddau Monitro Annibynnol bryderon cychwynnol ynghylch y ffaith nad oedd unrhyw ganllawiau rheoli cadarn.

Fodd bynnag, roedd Arolygiaeth Carchardai EM a'r Byrddau Monitro Annibynnol o'r farn bod cyflwyno gweithwyr allweddol (sef swyddog carchar wedi'i neilltuo i bob carcharor i roi cymorth iddo ac ymgysylltu ag ef yn rheolaidd) drwy'r model OMiC newydd yn ddatblygiad addawol.

Er bod dau o bob tri charcharor yn gadarnhaol ynghylch y ffordd roeddent yn cael eu trin gan staff, ailddatganodd Arolygiaeth Cachardai EM y canfyddiad mynych nad oedd carcharorion o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig yr un mor gadarnhaol ynghylch eu triniaeth a'u hamodau. Er enghraifft, dim ond 56% o ddynion o gefndir du neu leiafrifoedd ethnig a oedd yn teimlo bod y rhan fwyaf o'r staff yn eu trin â pharch, o gymharu â 74% o ddynion gwyn.[60]

Roedd y canlyniadau mewn carchardai i fenywod a arolygwyd yn Lloegr yn well, ar y cyfan, o gymharu â'r canlyniadau ar gyfer dynion. Fodd bynnag, roedd lefelau hunan-niweidio yn uchel iawn ac roeddent wedi cynyddu 24% ym mhob rhan o ystad y menywod yn 2018.[61] Nododd arolygwyr fod y cymorth a oedd ar gael i fenywod i'w helpu i gadw mewn cysylltiad â theuluoedd a ffrindiau yn amrywio o garchar i garchar ac, oherwydd y pellteroedd o'u cartrefi, fod hyn yn achosi problemau mewn llawer o achosion. Yn CEM Eastwood Park, nododd y Bwrdd Monitro Annibynnol fod rhwng 50 a 60 o brosesau ACCT (rheoli achosion ar gyfer carcharorion sydd mewn perygl o hunan-niweidio) ar agor bob mis, a bod cynnydd mewn trais yn gysylltiedig â menywod a adalwyd yn dychwelyd i'r ddalfa.[62]

Yn yr Alban, nododd y pedwar arolygiad a gynhaliwyd gan HMIPS yn y flwyddyn fod carcharorion yn teimlo'n ddiogel, ar y cyfan, a bod dystiolaeth o gydberthnasau cadarnhaol a pharchus rhwng staff a charcharorion. Serch hynny, nododd HMIPS a'i Fonitoriaid Carchardai Annibynnol fod gorlenwi wedi dechrau amharu ar y gwaith o gyflawni cyfundrefnau llawn ac effeithiol. Er enghraifft, gwnaethant nodi effeithiau andwyol megis y ffaith bod gan staff lai o amser i ddelio ag unigolion a bod carcharorion yn cael eu lleoli ymhellach i ffwrdd o'u cartrefi a rhestr aros hwy ar gyfer rhaglenni ymddygiad troseddwyr. Nodwyd bod sicrhau darpariaeth gyson o ofal iechyd yn her benodol ar draws y rhan fwyaf o'r ystad. Roedd y cais mwyaf cyffredin am gymorth a dderbyniodd Monitoriaid Carchardai Annibynnol gan garcharorion yn ymwneud â materion meddygol, yn arbennig gwahaniaethau mewn arferion rhagnodi gan ddarparwyr gofal iechyd. Roedd

59 Llywodraeth EM, Hydref 2018, *Prison officer safety equipment rolled out*, https://www.gov.uk/government/news/prison-officer-safety-equipment-rolled-out [cyrchwyd 05/12/19]

60 Arolygiaeth Carchardai EM, Gorffennaf 2019, *HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales Annual report 2018-19*, https:// assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/814689/hmip-annualreport-2018-19.pdf [cyrchwyd 18/10/19].

61 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, *Safety in Custody Statistics, England and Wales: Deaths in Prison Custody to March 2019, Assaults and Self-Harm to December 2018,* https://www.gov.uk/government/statistics/safety-in-custody-quarterly-update-to-march-2019

62 Byrddau Monitro Annibynnol, Mehefin 2019, *Annual Report*, https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/imb-prod-storage1ocod6bqky0vo/uploads/2019/06/IMB-NATIONAL-ANNUAL-REPORT-PUBL-5-JUNE-2019.pdf [cyrchwyd 18/10/19]

HMIPS hefyd yn pryderu ynghylch y ffordd roedd materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu rheoli o fewn carchardai a nododd fod angen gwella'r ffordd roedd nodweddion gwarchodedig yn cael eu monitro, eu tracio a'u cofnodi.

Nodwyd pryderon sylweddol ynghylch triniaeth carcharorion a oedd yn cael eu cadw ar wahân yng ngharchar i fenywod Cornton Vale gan Bwyllgor Cyngor Ewrop er Atal Arteithio yn ystod ei ymweliad â'r Alban yn 2018. Nodwyd bod menywod yr oedd angen gofal a thriniaeth frys arnynt mewn cyfleuster seiciatrig yn cael eu cadw mewn cell ar eu pennau eu hunain am gyfnodau hir. Mae'n destun pryder bod y Pwyllgor er Atal Arteithio o'r farn nad oedd gan yr Uned Arwahanu ac Ailintegreiddio (SRU) na Ross House (uned lety) y cyfarpar na'r staff priodol i ddarparu gofal cywir i'r menywod agored i niwed a oedd yn cael eu dal ar adeg yr ymweliad.[63]

Yng Ngogledd Iwerddon, nododd adolygiad thematig o ddiogelwch carcharorion a gynhaliwyd ar y cyd gan RQIA a CJINI fod yr Uned Gofal a Goruchwyliaeth i ddynion ifanc 18-24 oed yng Ngholeg Hydebank Wood yn anniogel. O ganlyniad, symudwyd yr Uned hon i ran arall o'r Coleg ag amgylchedd ffisegol gwell. Nododd arolygiad amlasiantaeth o Garchar Maghaberry, sy'n cynnwys oedolion gwrywaidd, welliannau da i wasanaethau iechyd a phrosesau rheoli meddyginiaeth, yn ogystal â morâl y staff ac arweinyddiaeth. Roedd gostyngiadau mewn lefelau trais ac anhrefn hefyd yn ddatblygiadau cadarnhaol. Nododd y tîm arolygu fod angen gwneud rhagor o waith i gefnogi'r carcharorion a oedd fwyaf agored i niwed ym Maghaberry, gan gynnwys rheoli dynion a oedd wedi hunan-niweidio neu a oedd mewn perygl o wneud hynny a gofalu amdanynt yn well.[64]

## Plant dan gadwad

Ar y cyfan, croesawodd aelodau'r NPM y lleihad parhaus yn nifer y plant sy'n cael eu cadw yn y ddalfa ledled y DU yn ystod y flwyddyn.[65] Asesodd arolygiadau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban rai gwelliannau o ran canlyniadau diogelwch. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch y nifer gynyddol o bobl ifanc sy'n cael eu cadw yn y ddalfa a'r nifer anghymesur o uwch o blant a phobl ifanc o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig sy'n cael eu cadw'n gaeth.

Yng Ngogledd Iwerddon, bwriodd RQIA ymlaen â chamau gorfodi yn 2017–18 mewn perthynas ag agweddau ar ofal yng Nghartref Diogel i Blant Lakewood, lle roedd yn pryderu ynghylch y ffordd roedd cwynion gan y bobl ifanc yn cael eu rheoli, y ffaith bod pobl ifanc yn cael eu cyfyngu i'w hystafelloedd gwely a threfniadau diogelu.

Asesodd arolygiadau o bob un o'r pum gwasanaeth gofal diogel penodol i blant a phobl ifanc yn yr Alban, fod ansawdd y gofal yn dda iawn neu'n well ar gyfer y flwyddyn 2018–19. Nododd yr arolygwyr gynnydd mewn ymarfer seiliedig ar gydberthnasau sy'n cydnabod pwysigrwydd y cydberthnasau dynol sydd gan staff â'r bobl y maent yn gweithio gyda nhw, y ffaith bod gwasanaethau yn fwyfwy ymwybodol o drawma a gwelliannau sylweddol i amgylcheddau ffisegol.

63 Y Pwyllgor er Atal Arteithio, Hydref 2019, *Report to the Government of the United Kingdom on the visit to the United Kingdom carried out by the European Committee for the Prevention of Torture and Inhuman or Degrading Treatment or Punishment (CPT)*, https://rm.coe.int/1680982a3e [cyrchwyd 27/10/19]

64 Adroddiad ar arolygiad dirybudd o Garchar Maghaberry 9–19 Ebrill 2017, Tachwedd 2018, https://www. justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/wp-content/uploads/sites/4/2018/11/CJINI-Maghaberry-Prison-unannouncedwith-tables.pdf [cyrchwyd 05/12/19]

65 Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, Medi 2019, *Youth Custody Report*, https://www.gov.uk/government/statistics/youth-custody-data [cyrchwyd 05/12/19]

Yng Nghymru a Lloegr, roedd lefelau trais mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel yn dal i fod yn uchel ac roedd bwlio, a oedd yn aml yn gysylltiedig â gweithrediadau gangiau, yn destun pryder parhaus. Fodd bynnag, gwelwyd rhywfaint o welliant mewn canlyniadau diogelwch yn gyffredinol, a oedd yn ganfyddiad cadarnhaol ar ôl i Arolygiaeth Carchardai EM ddod i'r casgliad ym mis Chwefror 2017 nad oedd unrhyw sefydliadau o'r fath yn ddiogel i gadw plant. Serch hynny, roedd Ofsted, Arolygiaeth Carchardai EM a'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn dal i fod o'r farn bod angen i bob un o'r tair Canolfan Hyfforddi Ddiogel yn Lloegr wella 'to be good'. Roedd y farn hon yn adlewyrchu pryderon ynghylch lefelau uchel o drais, y defnydd o rym ac ataliaeth gorfforol, diogelwch plant a staff a'r lefelau o sgìl a gwybodaeth ymhlith staff i ofalu'n briodol am y plant. Roedd Arolygiaeth Carchardai EM o'r farn nad oedd y rhan fwyaf o blant mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc yn treulio digon o amser y tu allan i'w celloedd[66] a nododd Byrddau Monitro Annibynnol pob Sefydliad Troseddwyr Ifanc yn Lloegr fod 'keep aparts', lle na ellir rhoi person ifanc mewn unedau penodol er ei ddiogelwch ei hun, neu am fod risg uchel y bydd yn ymosod ar eraill, yn broblem.[67] O'r 13 o gartrefi diogel i blant, roedd Ofsted o'r farn bod naw o leiaf yn dda ac ystyriwyd bod angen i bedwar wella 'to be good'.[68]

Ni chafwyd unrhyw farwolaethau hunanachosedig mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc na Chanolfannau Hyfforddi Diogel yn ystod 2018-19 yng Nghymru a Lloegr. Roedd lefelau hunan-niweidio wedi aros yn ddigyfnewid yn Wetherby a Werrington ac roeddent yn is nag mewn sefydliadau eraill. Roedd lefelau hunan-niweidio wedi gostwng yn Feltham A a Parc, ond roeddent yn dal i fod yn uchel yn Uned Keppel yn Wetherby, sy'n adlewyrchu'r ffaith ei bod yn darparu gofal i rai o'r bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed yn Lloegr.

Yn arolwg Arolygiaeth Carchardai EM, dywedodd 49% o'r plant mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a 62% o'r plant mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel eu bod wedi cael eu hatal yn gorfforol tra roeddent yn y ddalfa. Roedd y defnydd o rym wedi cynyddu yn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc Werrington a Wetherby ac yn Uned Keppel. Fodd bynnag, nododd Arolygiaeth Carchardai EM fod y rhan fwyaf o strategaethau rheoli ymddygiad wedi newid tuag at feithrin diwylliant seiliedig ar wobrwyo a oedd yn annog ymddygiad da, a bod hyn i'w groesawu. Roedd angen ymgorffori'r mentrau cadarnhaol hyn yn ehangach. Cydnabu Arolygiaeth Carchardai EM hefyd fod rhai gwelliannau wedi bod o ran mynd i'r afael â thrais a'i leihau ymhlith y boblogaeth gymhleth o ddynion ifanc sy'n cael eu dal yn Feltham A – roedd nifer yr ymosodiadau ar fechgyn wedi gostwng traean ac roedd ymosodiadau ar staff wedi gostwng mwy nag 80%. Serch hynny, nododd yr Arolygiaeth y gallai hyn fod yn 'fragile if investment falls away or leadership loses its focus.'[69]

Parhau i gynyddu a wnaeth cyfran y plant a phobl ifanc o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig a oedd yn cael eu cadw'n gaeth mewn lleoedd cadw pobl ifanc, a hynny ar ôl codi'n raddol ers y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2011 pan gofnodwyd

66 Arolygiaeth Carchardai EM, Gorffennaf 2019, *HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales Annual report 2018-19*, https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/814689/hmip-annualreport-2018-19.pdf [cyrchwyd 18/10/19].

67 Tystiolaeth ysgrifenedig gan y Byrddau Monitro Annibynnol i ymchwiliad y Pwyllgor Cyfiawnder i Blant a Phobl Ifanc dan Gadwad http://data.parliament.uk/writtenevidence/committeeevidence.svc/evidencedocument/justicecommittee/children-and-young-people-in-custody/written/106134.html [cyrchwyd 05/12/19]

68 Roedd un arall yn dal i fod yn 'inadequate', ar ôl cael ei asesu felly mewn arolygiad ym mis Hydref 2016. Mae'r ddarpariaeth hon ar gau dros dro ac ni fu unrhyw blant yn byw yno ers 2016.

69 Sbardunodd y Prif Arolygydd Carchardai broses yr Hysbysiad Brys ar gyfer CEM Feltham A ar 24 Gorffennaf 2019 ar sail dirywiad nodedig mewn diogelwch a gofal.

ffigur o 29.7%. Yng Nghymru a Lloegr, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2018, nododd mwy na hanner (51%) y bechgyn mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a 42% o'r plant mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel eu bod yn dod o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig.[70] Hon oedd y gyfradd uchaf a gofnodwyd yn arolygon Arolygiaeth Carchardai EM mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc.

Dros y flwyddyn, bu amodau ar gyfer plant dan gadwad mewn gwahanol leoliadau dan y chwyddwydr. Ym mis Ebrill 2018, dechreuodd y Cydbwyllgor Hawliau Dynol ymchwiliad i leoedd cadw pobl ifanc a oedd yn canolbwyntio ar yr arfer o gloi unigolion mewn celloedd ar eu pennau eu hunain ac ataliaeth. Yn dilyn tystiolaeth am achosion o blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth yn cael eu cadw'n amhriodol mewn ysbytai iechyd meddwl, cyhoeddodd gais pellach am dystiolaeth a oedd yn ymwneud yn benodol â'r mater hwn. Nododd y Pwyllgor fod gormod o ddefnydd yn cael ei wneud o arwahanu ac ataliaeth mewn ysbytai a dalfeydd ac nad oedd hawliau plant dan gadw yn cael eu gorfodi'n aml.[71] Nododd nad yw'r systemau mewn ysbytai a dalfeydd yn gwneud digon 'to ensure that children are sufficiently aware of their rights and of how to appeal if their rights have been breached'. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad hefyd fod 'the deliberate infliction of pain in [YOIs] is unacceptable under any circumstances under rights legislation'. Mae'r NPM yn rhannu'r farn hon ac yn croesawu safbwynt digamsyniol y Cydbwyllgor ar Hawliau Dynol. Mae'r adroddiad yn galw am wahardd y defnydd o ataliaeth i gynnal 'good order and discipline' ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol.

Cododd Comisiynydd Plant Lloegr bryderon ynghylch y cynnydd cyson yng nghyfran y plant a oedd yn cael eu remandio yn y ddalfa a goblygiadau'r duedd hon i hawliau plant, a oedd yn peri pryder. Roedd plant ar remánd yn cyfrif am 28% o gyfanswm poblogaeth y bobl ifanc mewn dalfeydd ac ni chafodd y mwyafrif ohonynt (66%) ddedfryd o garchar wedi hynny.[72] Hefyd, heriodd y Comisiynydd y cynnydd yn nifer y cyfnodau o arwahanu mewn lleoedd cadw pobl ifanc yng Nghymru a Lloegr dros y pedair blynedd diwethaf, er bod cyfanswm y plant a oedd yn cael eu cadw'n gaeth wedi lleihau.

Er nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i leoedd cadw, mae Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban wedi edrych ar arferion arwahanu ac atal mewn ysgolion ac wedi ystyried a yw'r rhain yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid.[73] Nododd y Comisiynydd fod arferion o ran cofnodi'r defnydd o arwahanu ac ataliaeth mewn ysgolion yn amrywio ac, mewn rhai awdurdodau lleol, y gall plant gael eu hatal yn gorfforol a'u harwahanu heb fod unrhyw bolisi na chanllawiau ar waith i gefnogi arferion cyfreithlon sy'n cydymffurfio â hawliau. Argymhellodd y Comisiynydd y dylai Llywodraeth yr Alban gyhoeddi polisi cenedlaethol seiliedig ar hawliau a chanllawiau ar atal yn gorfforol ac arwahanu mewn ysgolion.

---

70 Arolygiaeth Carchardai EM a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Ionawr 2019, *Children in Custody 2017–18. An analysis of 12–18-year-olds' perceptions of their experiences in secure training centres and young offender institutions*. Mae data pellach ar gael gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Ionawr 2020, Youth Justice Statistics 2018 to 2019, https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/wp-content/uploads/sites/4/2019/01/6.5164_HMI_Children-in-Custody-2017-18_A4_v10_web.pdf [cyrchwyd 04/02/20] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/862078/ youth-justice-statistics-bulletin-march-2019.pdf [cyrchwyd 05/12/19]

71 Cydbwyllgor Hawliau Dynol, Ebrill 2019, *Youth detention: solitary confinement and restraint, Nineteenth Report of Session 2017-19*, https://publications.parliament.uk/pa/jt201719/jtselect/jtrights/994/994.pdf [cyrchwyd 05/12/19]. Noder bod yr adroddiad wedi'i gyhoeddi ym mis Mai 2019, y tu allan i'r cyfnod adrodd.

72 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Ionawr 2020, *Youth Justice Statistics 2018 to 2019*, https://www.gov.uk/government/statistics/youth-justice-statistics-2018-to-2019 [cyrchwyd 04/02/20]

73 Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban, Rhagfyr 2018, *Restraint and Seclusion in Scotland's schools: Commissioner publishes first investigation report*, https://www.cypcs.org.uk/news/in-the-news/restraint-and-seclusion-in-scotlands-schools-commissioner-publishes-first-investigation-report [cyrchwyd 13/01/20]

## Dalfeydd yr heddlu

Tynnodd aelodau'r NPM sylw at sefyllfa fregus ac anghenion gofal iechyd llawer o bobl yn nalfeydd yr heddlu, lle roedd y defnydd helaeth parhaus o rym yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn dal i beri pryder difrifol.

Nododd HMICS, ym mhob un o'r 17 o ddalfeydd a arolygwyd ganddi yn yr Alban, fod y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon dda, ond bod ansawdd yr amgylchedd carcharol yn amrywio a'i fod yn wael yn aml, a oedd yn ei gwneud yn anodd rheoli unigolion dan gadwad yn effeithiol ac yn effeithlon. Cododd HMICS bryderon ynghylch yr anghysondebau o ran arferion rhwng dalfeydd, yn ogystal â'r gallu i ddiogelu anghenion gofal iechyd unigolion dan gadwad sy'n agored iawn i niwed.[74]

Yng Nghymru a Lloegr, bu farw 16 o unigolion yn nalfa'r heddlu, neu ar ôl iddynt fod yn nalfa'r heddlu yn ystod y flwyddyn, sef lleihad o gymharu â'r 23 a fu farw y flwyddyn flaenorol. O blith y rhain roedd 14 o ddynion a dwy fenyw. Nodwyd bod gan 10 o bobl broblemau iechyd meddwl. Roedd 63 o hunanladdiadau ymddangosiadol ar ôl bod yn nalfa'r heddlu.[75]

Yn y naw adroddiad ar arolygiadau o heddluoedd yng Nghymru a Lloer a gyhoeddwyd yn 2018-19, roedd y trefniadau ar gyfer rheoli a goruchwylio'r defnydd o rym yn destun pryder mewn pump ohonynt, ac yn faes i'w wella yn y pedwar heddlu arall.[76] Ymhlith y meysydd eraill a oedd yn achosi pryder roedd presenoldeb parhaus mannau clymu mewn dalfeydd; gwaith cofnodi gwael ar gofnodion dalfeydd lle nad oedd y rhesymau dros rai penderfyniadau yn ddigon clir; a rhai arosiadau hir i blant ac oedolion sy'n agored i niwed cyn iddynt gael cymorth gan oedolyn priodol.[77] Nid oedd digon o heddluoedd yn cofnodi gwybodaeth am ethnigrwydd na nodweddion gwarchodedig eraill unigolion dan gadwad.

Nodwyd mwy o fuddsoddiad a gwelliannau mewn cymorth iechyd meddwl ym mhob un o'r heddluoedd a arolygwyd a nododd yr arolygwyr mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol roedd pobl â salwch meddwl yn cael eu cadw mewn celloedd fel man diogel (o dan adran 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983). Dilynodd hyn ddiwygiadau i'r Ddeddf y bwriadwyd iddynt gyfyngu ar y defnydd o orsafoedd yr heddlu fel man diogel, a ddaeth i rym ym mis Rhagfyr 2017. Fodd bynnag, i'r rhai a oedd dan gadwad, roedd yr amseroedd aros i gael eu hasesu a'u trosglwyddo o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn dal i fod yn hir.[78]

Nododd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa fod unigolion dan gadwad, ar y cyfan, yn cael eu trin ag urddas gan y staff a gwnaethant nodi gwelliannau yn y gofal mislifol a oedd yn cael ei ddarparu i fenywod a merched yn nalfeydd yr heddlu. Parhaodd arolygiadau i ganfod plant a oedd yn cael eu cadw'n ddiangen yng nghelloedd yr heddlu, yn aml am nad oedd llety amgen addas, megis gwelyau awdurdodau lleol, ar gael.

74 Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM yn yr Alban, Hydref 2018, *Inspection of Custody Centres across Scotland*, https://www. hmics.scot/sites/default/files/publications/HMICS20181019PUB.pdf [cyrchwyd 13/01/20]

75 Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu, 2019, *Deaths during or following police contact: Statistics for England and Wales for 2018/19*, https://www.policeconduct.gov.uk/sites/default/files/Documents/statistics/deaths_during_following_ police_contact_201819.pdf [cyrchwyd 17/10/2019]

76 Arolygiaeth Carchardai EM, 2019, *HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales Annual report 2018-19*, https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/inspections/annual-report-2018-19/ [cyrchwyd 13/01/20].

77 Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EM, 2018, *State of Policing. The Annual Assessment of Policing in England and Wales*, https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/wp-content/uploads/state-of-policing-2018.pdf [cyrchwyd 05/12/19]

78 Ibid.

Ar ddechrau 2019 cynhaliodd HMICFRS ac Arolygiaeth Carchardai EM yr arolygiad cyntaf o gyfleusterau cadw pobl dan gadwad o dan y Ddeddf Terfysgaeth (TACT). Asesodd yr arolygiad ganlyniadau carcharorion yn y pum dalfa ledled Lloegr, ynghyd â'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer dalfeydd TACT a ddarperir drwy'r Rhwydwaith Plismona Gwrthderfysgaeth Cenedlaethol ac a oruchwylir ganddo. Nododd yr arolygiad fod lefelau da o ofal ar gyfer unigolion a oedd yn cael eu cadw'n gaeth o dan TACT a'u bod yn cael eu trin yn dda, ond mai cyfyngedig oedd y trefniadau llywodraethu ar gyfer dal carcharorion o dan TACT. Gwnaeth yr adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2019, argymhellion i faes plismona gwrthderfysgaeth a'r heddluoedd a oedd yn cynnal y dalfeydd TACT hyn er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn.

### Dalfeydd y llysoedd a hebryngwyr

Gwelodd Arolygiaeth Carchardai EM fod ymrwymiad i wella canlyniadau i unigolion a oedd yn cael eu cadw'n gaeth ym mhob ardal lys a arolygwyd ganddi, gyda ffocws clir ar lesiant. Serch hynny, nododd fod gormod o ddefnydd yn cael ei wneud o efynnau a chwilio yng nghyfleusterau cadw'n gaeth llysoedd. Er i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM roi cryn sylw i wella amgylcheddau llysoedd, ar y cyfan roedd yr amodau ffisegol yng nghelloedd y llysoedd yn dal i fod yn wael. Roedd y diffyg cymorth iechyd meddwl cyson i unigolion a oedd yn cael eu cadw yng nghelloedd y llysoedd hefyd yn destun pryder. Nododd Arsylwyr Lleyg fod pryderon difrifol ynghylch ansawdd a chyflawnrwydd gwybodaeth yng nghofnodion hebryngwyr pobl (a ddefnyddir i gofnodi gwybodaeth am bobl sy'n cael eu cadw'n gaeth pan gânt eu trosglwyddo rhwng lleoedd cadw) yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys diffyg gwybodaeth am gyflyrau iechyd a risgiau hunan-niweidio a oedd yn arwain, yn ei dro, at ddefnydd amhriodol o efynnau. Rhwng mis Hydref 2018 a mis Mawrth 2019, roedd 55% o'r cofnodion hebryngwyr pobl a archwiliwyd yn anfoddhaol. Er enghraifft, roedd data allweddol megis rhifau cyswllt meddygol priodol yn cael eu hepgor yn rheolaidd, gan effeithio ar wedduster a llesiant.[79] Roedd pryderon difrifol eraill yn cynnwys plant a phobl ifanc yn cael eu gadael ar eu pennau eu hunain yng nghelloedd cadw'n gaeth llysoedd er ei bod yn ofynnol i rywun fod gyda nhw; teithiau hir i'r llys ac oddi yno i blant a phobl ifanc – gan gynnwys teithiau yn ôl a blaen o hyd at bedair awr yn ystod treialon; ac arosiadau hir yn nalfeydd llysoedd ar ddiwedd gwrandawiadau tra bod trefniadau cludo i Sefydliadau Troseddwyr Ifanc yn cael eu gwneud.

### Canolfannau cadw mewnfudwyr

Ar ddiwedd mis Mawrth 2019, roedd 1,839 o bobl mewn canolfannau cadw yn y DU, sef traean (33%) yn llai na'r llynedd.[80] Roedd hyn yn adlewyrchu lleihad o 10% yn nifer y bobl a aeth i mewn i leoedd cadw mewnfudwyr yn y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2018. Fodd bynnag, roedd y ffaith bod 355 o bobl yn cael eu cadw'n gaeth mewn carchardai yn destun pryder.[81] Nododd y Byrddau Monitro Annibynnol fod y lleihad sylweddol hwn mewn niferoedd wedi rhoi terfyn ar orlenwi, wedi galluogi gwelliannau ac wedi arwain at safonau glanweithdra uwch. Nododd Arolygiaeth Carchardai EM fod y canlyniadau yn dda neu'n eithaf da ym mhob un o'r canolfannau

79 Arsylwyr Lleyg, 2019, *Annual Report of Chair of Lay Observers 2018–19*, https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/layobservers-prod-storage-nu2yj19yczbd/uploads/2019/09/Lay-Observers-18-19-Annual-Report-180919-FINAL.pdf [cyrchwyd 18/10/19]

80 Y Swyddfa Gartref, Mai 2019, *Immigration statistics, year ending March 2019*, https://www.gov.uk/government/publications/immigration-statistics-year-ending-march-2019/summary-of-latest-statistics [cyrchwyd 18/10/19]

81 Ystadegau Gwladol, Mai 2019, *How many people are detained or returned?* https://www.gov.uk/government/publications/immigration-statistics-year-ending-march-2019/how-many-people-are-detained-or-returned [cyrchwyd 05/12/19]

symud mewnfudwyr a arolygwyd yn 2018-19. Arweiniodd adroddiadau am ddinasyddion Windrush a oedd wedi cael eu cadw'n gaeth a'u hallfudo at y lleihad yn nifer y bobl a aeth i mewn i ganolfannau cadw mewfudwyr a welwyd yn 2018. Arweiniodd y Cydbwyllgor Hawliau Dynol ymchwiliad i'r ffordd yr oedd yr unigolion hyn wedi cael eu trin gan y Swyddfa Gartref a chyhoeddodd adroddiad ar y sgandal ym mis Mehefin 2018.

Fodd bynnag, codwyd pryderon parhaus ynghylch diogelwch unigolion dan gadwad, y defnydd helaeth o sylweddau seicoweithredol newydd a thrais cysylltiedig. Er enghraifft, nododd Bwrdd Monitro Annibynnol Heathrow ei fod wedi canfod bod problem fawr o ran cyffuriau, gweithgarwch gangiau a digwyddiadau treisgar yn y sefydliad ac yn Brook House rhoddwyd gwybod am 55 o achosion gwirioneddol neu a amheuwyd o fwlio dros y flwyddyn. Cododd Byrddau Monitro Annibynnol mewn tair canolfan – sef Heathrow, Brook House a Campsfield House – bryderon ynghylch y defnydd helaeth o efynnau ar garcharorion a oedd yn cael eu hebrwng ar ymweliadau allanol a mynegodd Tîm Monitro Ehediadau Siarter y Bwrdd Monitro Annibynnol bryderon tebyg am y gorddefnydd o wregysau atal o gwmpas y canol ar ehediadau symud mewnfudwyr.[82]

Cododd Byrddau Monitro Annibynnol bryderon ynghylch y ffordd roedd polisi ‘oedolion mewn perygl’ y Swyddfa Gartref yn cael ei roi ar waith a pha mor effeithiol ydoedd wrth gadw'r unigolion mwyaf agored i niwed allan o'r ddalfa,[83] a chafodd gwendidau ym mesurau diogelwch rheol 35 eu nodi gan Arolygiaeth Carchardai EM yn Tinsley House, sy'n Ganolfan Symud Mewnfudwyr bach lle mae ychydig o dan 140 o unigolion yn cael eu cadw'n gaeth.[84] Nod y polisi oedolion mewn perygl yw sicrhau y caiff ffactorau risg sy'n ymwneud â bod yn agored i niwed eu cydbwyso yn erbyn ‘ffactorau rheoli mewnfudo’ (h.y. faint o amser a dreulir yn y ddalfa, materion sy'n ymwneud â diogelu'r cyhoedd a materion sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth). Yn eu tystiolaeth i adolygiad dilynol Stephen Shaw, nododd sawl sefydliad eu bod yn pryderu ynghylch a oedd y cydbwysedd hwn yn cael ei sicrhau, yn enwedig mewn perthynas â'r lefelau o dystiolaeth a sgrinio i weld a yw unigolion yn agored i niwed.[85] Yn y dyfodol, bydd y Prif Arolygydd Annibynnol Ffiniau a Mewnfudo yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar y ffordd y mae'r polisi yn gweithredu.

Roedd canlyniadau cadw pobl yn gaeth a chadw pobl yn gaeth am gyfnod amhenodol yn dal i achosi problemau. Lleisiodd y Byrddau Monitro Annibynnol bryderon ynghylch yr effaith y byddai diffyg terfyn amser statudol yn ei chael ar iechyd meddwl a chorfforol unigolion a oedd yn cael eu cadw'n gaeth ac ynghylch y gyfran uchel o bobl dan gadwad a oedd yn cael eu rhyddhau o Ganolfan Symud Mewnfudwyr yn hytrach na'u symud. Fodd bynnag, gwnaethant groesawu'r lleihad yn nifer y bobl a oedd yn cael eu cadw'n gaeth a nifer y bobl a oedd yn cael eu cadw am gyfnodau rhy hir a'r penderfyniad i

82 Byrddau Monitro Annibynnol, Hydref 2019, *National Annual Report for the Immigration Estate 2018*, https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/imb-prod-storage-1ocod6bqky0vo/uploads/2019/10/IMBIDE-Annual-Report-2018-FINAL-003.pdf [cyrchwyd 05/12/19]

83 Daeth polisi diwygiedig i rym ym mis Gorffennaf 2018

84 Arolygiaeth Carchardai EM, Mehefin 2018, *Report on an unannounced inspection of Tinsley House Immigration Removal Centre*, https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/wp-content/uploads/sites/4/2018/08/Tinsley-House-Web-2018.pdf [cyrchwyd 05/12/19]

85 Shaw, S., Gorffennaf 2018, *Assessment of government progress in implementing the report on the welfare in detention of vulnerable persons. A follow-up report to the Home Office,* https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/728376/Shaw_report_2018_Final_web_accessible.pdf [cyrchwyd 18/10/19]

gyflwyno atgyfeiriad awtomatig at wrandawiad mechnïaeth ar gyfer y rhan fwyaf o bobl sy'n cael eu cadw'n gaeth ar ôl treulio pedwar mis mewn lle cadw. Bydd y Byrddau Monitro Annibynnol yn monitro sut mae hyn yn effeithio ar gyfnodau yn y ddalfa.

Roedd yr ymchwiliad i'r achosion honedig o gam-drin unigolion a oedd yn cael eu cadw'n gaeth yng Nghanolfan Symud Mewnfudwyr Brook House, a ddangoswyd ar ffurf ffilm gudd gan raglen *Panorama* y BBC ym mis Medi 2017, yn destun her gyfreithiol yn ystod y flwyddyn. Cychwynodd dau o'r unigolion a oedd yn cael eu cadw'n gaeth yno achos adolygiad barnwrol er mwyn galw ar y Swyddfa Gartref i sefydlu ymchwiliad annibynnol i'r gamdriniaeth, yn unol â dyletswyddau o dan Erthygl 3 o'r Confesiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (gwahardd arteithio). Yn fuan cyn y gwrandawiad terfynol yn yr achos, gofynnodd y Swyddfa Gartref am i'r Ombwdsman Carchardai a Phrawf gynnal 'dedicated, bespoke, independent, Article 3-compliant investigation'.[86] Ar ddiwedd y flwyddyn adrodd, roedd cyfreithwyr wedi herio'r ffaith na fyddai gan ymchwiliad yr Ombwdsman Carchardai a Phrawf y pŵer i orfodi tystion i ymddangos ac roeddent yn aros am ddyfarniad gan yr Uchel Lys. Roedd G4S, a oedd yn rhedeg Canolfan Symud Mewnfudwyr Brook House, wedi comisiynu ymchwiliad a nododd wendidau mewn prosesau rheoli a threfniadau ar gyfer hyfforddi, arfarnu a datblygu staff, yn ogystal â rheoli'r defnydd o rym.[87]

## Lleoedd cadw iechyd a gofal cymdeithasol

Roedd tuedd gyffredinol i gadw mwy o bobl yn gaeth o dan bwerau iechyd meddwl yn amlwg ledled y DU. Dangosodd y data diweddaraf a oedd ar gael ar gyfer Cymru fod nifer y derbyniadau ffurfiol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a deddfwriaeth arall yn ystod y flwyddyn 2016–17 wedi cynyddu 3% i 1,779.[88] Yng Ngogledd Iwerddon, cynyddodd nifer y derbyniadau gorfodol i ysbytai iechyd meddwl o dan Orchymyn Iechyd Meddwl (Gogledd Iwerddon) 1986 119 (12.1%), o 987 yn 2014–15 i 1,106 yn 2018–19.[89] Amcangyfrifir bod nifer y bobl a oedd yn cael eu cadw'n gaeth o dan bwerau iechyd meddwl yn Lloegr wedi cynyddu 2% yn ystod 2018-19, er bod gwendidau o ran ansawdd y data sydd ar gael.[90] Yn yr Alban, yn 2018–19 cafwyd 6,038 o episodau newydd o driniaeth orfodol yn ystod y flwyddyn – sef y ffigur uchaf ers i'r ddeddfwriaeth bresennol ddod i rym yn 2005.[91]

Ym mis Rhagfyr 2018, yn sgil pwysau cyhoeddus ynghylch triniaeth wael pobl â phroblemau iechyd meddwl, anableddau dysgu a/neu awtistiaeth, gan gynnwys plant, comisiynwyd y Comisiwn Ansawdd Gofal gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gynnal adolygiad yn Lloegr o ataliaeth, ynysu am gyfnod hir ac arwahanu ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl, anabledd dysgu

86 *The Guardian*, Hydref 2018, *Home Office agrees to inquiry into immigrant abuse allegations*, https://www.theguardian.com/uk-news/2018/oct/11/home-office-agrees-inquiry-immigrant-abuse-claims-detainees-removal-centres [cyrchwyd 14/01/20]

87 K. Lampard VERITA, Chwefror 2018, *Managers need to model the right behaviours for a successful organisational culture*, https://www.verita.net/blogs/managers-need-to-model-the-right-behaviours-for-a-successful-organisational-culture/ [cyrchwyd 05/12/19]

88 Llywodraeth Cymru, Ionawr 2018, *Derbyn cleifion i gyfleusterau iechyd meddwl*: Ebrill 2016 i Mawrth 2017, https://llyw.cymru/derbyn-cleifion-i-gyfleusterau-iechyd-meddwl-ebrill-2016-i-mawrth-2017 [cyrchwyd 05/12/19]

89 Yr Adran Iechyd, Awst 2019, *Mental Health and Learning Disability Inpatients 2018-19*, https://www.health-ni.gov. uk/news/mental-health-and-learning-disability-inpatients-2018-19 [cyrchwyd 04/02/20]

90 NHS Digital Mental Health Act Statistics, Hydref 2019, *Annual Figures 2018–19*, https://digital.nhs.uk/data-and-information/publications/statistical/mental-health-act-statistics-annual-figures/2018-19-annual-figures [cyrchwyd 05/12/19]

91 Y Comisiwn Lles Meddyliol, Hydref 2019, *Annual statistical monitoring*, https://www.mwcscot.org.uk/sites/default/files/2019-11/MHA-MonitoringReport2019.pdf [cyrchwyd 05/12/19]

neu awtistiaeth.[92] Nododd canfyddiadau dros dro, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2019, fod gwasanaethau yn ei chael hi'n anodd diwallu anghenion y rhai a oedd yn cael eu cadw ar wahân, nad oedd gan lawer o staff y sgiliau angenrheidiol i ymdrin â phobl a oedd yn cael eu cadw ar wahân, fod rhai wardiau yn amgylcheddau anaddas a bod oedi cyn rhyddhau pobl am nad oedd gofal addas ar gael mewn lleoliad nad oedd yn ysbyty.[93]

Ym mis Mehefin 2019, cyflwynodd y Comisiwn Ansawdd Gofal adroddiad ar adolygiad o God Ymarfer y Ddeddf Iechyd Meddwl.[94] Mae'n destun pryder iddo nodi nad oedd darparwyr yn deall sut i hyrwyddo na chymhwyso'r egwyddorion arweiniol yn y Cod, nac adrodd ar yr egwyddorion hynny a oedd yn cynnwys egwyddorion defnyddio'r opsiwn lleiaf cyfyngol a sicrhau'r lefel uchaf posibl o annibyniaeth, yn ogystal â chynnwys a grymuso cleifion a'u trin gydag urddas a pharch. Cynigiodd fod angen mwy o gydweithio er mwyn sicrhau bod pobl y mae angen gofal brys arnynt yn gallu cael gwely sy'n agos i'w cartref yn amserol, yn unol â disgwyliad adran 140 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

Nododd y Comisiwn Ansawdd Gofal fod tuedd gyffredinol barhaus i wella yn Lloegr, ond bod y sgoriau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl wedi gwaethygu, a briodolwyd ganddo i brinder staff a diffyg staff cymwysedig.[95] Er enghraifft, roedd pobl yr oedd angen cymorth arnynt gan wasanaethau iechyd meddwl, anabledd dysgu neu awtistiaeth yn fwy tebygol o gael gofal gwael neu fod wedi cyrraedd pwynt argyfwng cyn iddynt gael y gofal roedd ei angen arnynt na phobl heb y cyflyrau hyn. Roeddent hefyd yn fwy tebygol o gael eu cadw'n gaeth mewn gwasanaethau anaddas ymhell o'u cartref am nad oeddent wedi cael cymorth ynghynt neu am nad oeddent yn gallu cael gofal o gwbl. Yn benodol, nododd y Comisiwn Ansawdd Gofal fod gormod o bobl ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth yn yr ysbyty am nad oedd gwasanaethau cymunedol lleol ar gael. Ers mis Hydref 2018, mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal wedi graddio 14 o ysbytai iechyd meddwl sy'n derbyn pobl ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth yn 'annigonol' a'u rhoi o dan fesurau arbennig.[96] Yn y mwyafrif o'r gwasanaethau iechyd meddwl i gleifion mewnol a raddiwyd yn 'annigonol' neu 'mae angen ei wella' ers mis Hydref 2018, mae'r arolygiad yn nodi bod diffyg staff â'r sgiliau priodol yn broblem. Nododd y Comisiwn Ansawdd Gofal hefyd fod nifer y gwelyau iechyd meddwl wedi lleihau 14% rhwng 2014–15 a 2018–19.

Ym mis Mai 2019, datgelodd rhaglen *Panorama* y BBC ddiwylliant o gam-drin yn Whorlton Hall, sy'n ysbyty diogel i bobl ag anawsterau dysgu a/neu

92 Y Comisiwn Ansawdd Gofal, Tachwedd 2018, *Terms of reference of the use of restraint, prolonged seclusion and segregation for people with mental health problems, learning disabilities and/or autism*, https://www.cqc.org.uk/sites/default/files/20181203_restraint-thematic_tor.pdf [cyrchwyd 05/12/19]

93 Y Comisiwn Ansawdd Gofal, Mai 2019, *Interim report: Review of restraint, prolonged seclusion and segregation for people with a mental health problem, a learning disability and or autism*, https://www.cqc.org.uk/publications/themed-work/interim-report-review-restraint-prolonged-seclusion-segregation-people [cyrchwyd 05/12/19]

94 Y Comisiwn Ansawdd Gofal, Mehefin 2019, *Mental Health Act Code of Practice 2015: An evaluation of how the Code is being used*, https://www.cqc.org.uk/publications/major-report/mental-health-act-code-practice-2015-evaluation-how-codebeing-used [cyrchwyd 05/12/19]. Noder: gofynnwyd i'r adolygiad gael ei gynnal gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystod y cyfnod adrodd.

95 Y Comisiwn Ansawdd Gofal, Hydref 2019, *State of Care 2018–19*, https://www.cqc.org.uk/publications/major-report/state-care#access [cyrchwyd 13/01/20]

96 Daw'r ffigurau hyn o Adroddiad y Comisiwn Ansawdd Gofal, *State of Care 2018–19* (ibid). Daw'r data a ddefnyddiwyd o arolygiadau a graddau y Comisiwn Ansawdd Gofal a gyhoeddwyd ar 31 Gorffennaf 2019, sy'n golygu bod rhai o'r graddau hyn, o bosibl, y tu allan i amserlen yr adroddiad blynyddol hwn.

awtistiaeth yn Swydd Durham. Dangosodd ffilm camera staff yn cam-drin cleifion yn gorfforol, yn eu bwlio ac yn eu bygwth. Mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal wedi comisiynu'r Athro Glynis Murphy i gynnal adolygiad annibynnol i'r ffordd y mae'n rheoleiddio Whorlton Hall.[97]


Cynhaliodd Arolygiaeth Iechyd Cymru 17 o arolygiadau o ysbytai iechyd meddwl, gan gynnwys un yn benodol ar gyfer anableddau dysgu, yn ystod y flwyddyn. Roedd ei chanfyddiadau o driniaeth cleifion yn gadarnhaol, ar y cyfan ac, yn nodedig, roedd rhai gwasanaethau yn gweithio'n galed i leihau arferion cyfyngol. Fodd bynnag, roedd gwaith cynllunio gofal a thriniaeth yn wael, ac roedd angen gwneud gwelliannau er mwyn rheoli risg mewn lleoliadau annibynnol. Un maes a oedd yn achosi pryder oedd cynnal a chadw ac adnewyddu wardiau a oedd, mewn rhai achosion, yn cael effaith andwyol ar ofal, preifatrwydd, urddas a diogelwch cleifion.

Ar draws cyfleusterau iechyd meddwl ac anableddau dysgu a arolygwyd yng Ngogledd Iwerddon, codwyd pryderon ynghylch y diffyg amgylcheddau diogel a therapiwtig. Yn ail hanner y flwyddyn lleisiwyd pryderon ynghylch achosion o gam-drin cleifion a oedd yn cael eu cadw'n gaeth o dan Orchymyn Iechyd Meddwl (Gogledd Iwerddon) 1986 yn Ysbyty Muckamore Abbey, sy'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl i gleifion mewnol ag anabledd dysgu. Nododd arolygiad amlddisgyblaethol o'r ysbyty a gynhaliwyd gan RQIA ym mis Chwefror 2018 bryderon mewn sawl maes ymarfer, gan gynnwys y defnydd o arferion cyfyngol ac, yn benodol, arferion ynysu. Mae'r digwyddiadau, y rhoddwyd gwybod amdanynt yn 2017, bellach yn destun ymchwiliad mawr gan yr heddlu.

97 BBC, 22 Mai 2019, *Whorlton Hall abuse and how it was uncovered*, https://www.bbc.co.uk/news/health-48369500 [cyrchwyd 13/01/20]; Y Comisiwn Ansawdd Gofal, 19 Mehefin 2019, *Update on independent review into regulation of Whorlton Hall*, https://www.cqc.org.uk/news/stories/update-independent-review-regulation-whorlton-hall [cyrchwyd 13/01/20]

# Adran dau

# Yr NPM yn 2018-19



## Amcanion yr NPM

Bob blwyddyn, mae'r NPM yn cytuno ar gynllun busnes er mwyn llywio'r gwaith a wnawn a sicrhau ein bod yn bodloni gofynion OPCAT. Yn 2018–19, bu'r NPM yn gweithio yn unol â phedwar amcan, i wneud y canlynol:

- cydweithio fel aelodau o'r NPM i atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer diogelu'r rhai sy'n cael eu cadw'n gaeth yn y DU
- sicrhau bod pob aelod o'r NPM yn cyflawni ei gyfrifoldebau ei hun o dan OPCAT
- creu NPM sy'n bodloni holl ofynion OPCAT yn effeithiol
- gwella gwelededd rôl yr NPM o ran atal, OPCAT, gwahardd camdriniaeth mewn lleoedd cadw a'r Confensiwn yn erbyn Artaith a chynyddu ymwybyddiaeth ohoni.

## Cryfhau'r NPM

### Diffyg fframwaith statudol

Rydym yn dal i bryderu nad yw deddfwriaeth yn darparu ar gyfer yr NPM o hyd. Gwnaethom geisio mynd i'r afael â'r diffyg cydnabyddiaeth gyfreithiol ffurfiol o annibyniaeth a rôl yr NPM fel cyfangorff a'i 21 o aelodau unigol yn 2018-19, ond cawsom ein siomi gan y diffyg gweithredu gan y llywodraeth i fynd i'r afael â'r methiant sylweddol hwn.

Ysgrifennodd yr NPM at y Cydbwyllgor Hawliau Dynol a'r Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder, sydd, yn y gorffennol, wedi galw am roi sail statudol i'r NPM.[98] Gwnaethom anfon llythyr at Harriet Harman (Gweler Atodiad I), Cadeirydd y Cydbwyllgor Hawliau Dynol, ym mis Medi 2018. Yn y llythyr, tynnwyd sylw at y ffaith bod y diffyg deddfwriaeth ar gyfer yr NPM yn methu â bodloni gofynion OPCAT.

Ysgrifennodd yr NPM hefyd at Bob Neill, Cadeirydd Pwyllgor Dethol Senedd y DU ar Gyfiawnder, ym mis Awst 2018 (Gweler Atodiad II). Croesawodd ein llythyr argymhelliad y Pwyllgor Cyfiawnder i'r llywodraeth y dylid rhoi sail statudol bendant i'r NPM pe bai deddfwriaeth ynglŷn â diwygio carchardai yn cael ei chyflwyno.[99] Roeddem yn falch bod adroddiad y Pwyllgor Cyfiawnder, 'Prison Population 2022', a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019, wedi gwneud argymhelliad pellach i atgyfnerthu seiliau statudol yr NPM.[100]

### Protocol y Weinyddiaeth Gyfiawnder/NPM

Cytunodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r NPM y byddai'n ddefnyddiol drafftio Protocol. Mae'r NPM o'r farn bod hwn yn gam dros dro tuag at ddeddfwriaeth ar gyfer yr NPM ac na ddylid disodli deddfwriaeth o'r fath. Mae cynnydd tuag at gwblhau'r protocol wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn. Bydd y Protocol yn nodi, ar lefel uchel, rôl y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r NPM mewn perthynas ag OPCAT, yn ogystal â threfniadau mewn perthynas ag aelodau'r NPM, ei llywodraethu, ei chyllideb a'i strwythur.

### Cyllid

Rydym yn falch, ar ôl cyflwyno cynnig cyllido i Lywodraeth yr Alban ym mis Gorffennaf 2018, inni sicrhau cyllid i ddarparu ar gyfer cydgysylltydd cynorthwyol rhan-amser i NPM yr Alban, a ddechreuodd yn y swydd ar ddiwedd 2019.

---

98 Y Pwyllgor Cyfiawnder, Ebrill 2017, *14th Report – Prison Reform: Part 1 of the Prisons and Courts Bill, Topical Questions*, 25 Ebrill 2017, Hansard *Volume 624*, https://publications.parliament.uk/pa/cm201617/cmselect/cmjust/1150/1150.pdf [cyrchwyd 13/01/20]

99 ibid

100 Y Pwyllgor Cyfiawnder, Ebrill 2019, *16th Report – Prison population 2022: planning for the future,* https//publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmjust/483/483.pdf [cyrchwyd 05/12/19]

Mae rôl cydgysylltydd cynorthwyol NPM yr Alban yn gam pwysig tuag at gynyddu adnoddau'r NPM. Bydd y rôl yn cefnogi ac yn cysylltu gwaith y gwahanol aelodau Albanaidd o'r NPM ar themâu cyffredin sy'n berthnasol i fathau gwahanol o leoedd cadw. Bydd cydgysylltydd cynorthwyol yr Alban hefyd yn gwneud y canlynol: datblygu cyfleoedd i ddylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth berthnasol yn yr Alban; cefnogi gweithgarwch ymgysylltu'r NPM â Senedd yr Alban. ehangu dull yr NPM o atal camdriniaeth yn yr Alban; a gwella ymwybyddiaeth o ofynion OPCAT ymhlith rhanddeiliaid yn yr Alban.

### Ymgysylltu a gweledeDD ehangach

Mae'r NPM yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid eraill ar faterion sy'n ymwneud â gwaith yr NPM. Ym mis Gorffennaf 2018, cyfarfu'r Ysgrifenyddiaeth â'r Panel Cynghori Annibynnol ar Farwolaethau yn y Ddalfa a Bwrdd y Gweinidog ar Farwolaethau yn y Ddalfa er mwyn trafod meysydd o ddiddordeb cyffredin, megis data ar farwolaethau yn y ddalfa yn dilyn prosiect mapio data dalfeydd yr NPM.

Ym mis Hydref 2018, trefnodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder 'NPM awareness-raising event'. Nod y digwyddiad oedd dod ag aelodau'r NPM, eu noddwyr yn y llywodraeth ac arweinwyr polisi perthnasol o bob rhan o'r DU at ei gilydd er mwyn codi ymwybyddiaeth o OPCAT a gwaith aelodau'r NPM. Trafododd y rhai a oedd yn bresennol rôl yr NPM a chyfleoedd i aelodau'r NPM a chyrff y llywodraeth sy'n eu noddi gydweithio yn y dyfodol.

## Datblygiadau sy'n benodol i'r aelodau

Drwy gydol 2018–19 bu aelodau'r NPM yn gwneud gwaith a oedd yn berthnasol i'w rôl o fewn yr NPM. Lluniodd nifer o aelodau, megis yr Arolygiaeth Gofal a HMIPS, safonau diwygiedig ar gyfer arolygiadau a ymgorfforodd hawliau dynol yn eu prosesau. Lansiodd ICVA fethodoleg newydd sbon yn y flwyddyn a datblygodd Arolygiaeth Carchardai EM ei methodoleg ymhellach. Hefyd, ar draws yr NPM, cynhyrchodd aelodau gyfoeth o dystiolaeth newydd a gwneud argymhellion ar gyflwr lleoedd cadw yn y DU, o adroddiadau ar ymweliadau i ddadansoddiadau thematig ar faterion penodol mewn lleoedd cadw.

Yn 2018–19, dechreuodd yr **Arolygiaeth Gofal** ddatblygu methodoleg newydd ar gyfer arolygu gwasanaethau gofal, a ymgorfforodd safonau iechyd a gofal cymdeithasol 2017 Llywodraeth yr Alban sy'n seiliedig ar hawliau dynol. Cyhoeddodd yr Arolygiaeth Gofal hefyd Fframwaith Ansawdd newydd ar gyfer Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn yn 2018, sy'n nodi'r hyn y mae'r Arolygiaeth Gofal yn disgwyl ei weld mewn cartrefi gofal yn ystod arolygiadau er mwyn helpu gwasanaethau i werthuso eu perfformiad eu hunain. Dechreuodd arolygiadau seiliedig ar y fframwaith newydd ddiwedd mis Gorffennaf 2018 ac, ers hynny, mae'r Arolygiaeth Gofal wedi dechrau datblygu ei fframweithiau ansawdd ar gyfer lleoliadau eraill sy'n cael eu monitro ganddi, megis ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal i oedolion, cartrefi gofal i blant a phobl ifanc ac ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal diogel.

Er mwyn helpu darparwyr gwasanaethau annibynnol ac awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion pobl ifanc, cyhoeddodd yr Arolygiaeth Gofal ganllawiau ar dderbyn pobl ifanc i sefydliadau preswyl, gan gynnwys cartrefi diogel i blant. Hefyd, lluniodd yr Arolygiaeth Gofal ac Education Scotland ganllawiau ar y cyd ar

egwyddorion ataliaeth gorfforol er mwyn helpu arolygwyr i gyflawni eu rolau craffu a gwella. Mae'r canllawiau hyn wedi'u strwythuro ar sail Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Parhaodd yr Arolygiaeth Gofal i eistedd ar Fwrdd Rhaglen Llywodraeth yr Alban ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn Carchardai. Nod y Bwrdd yw mynd i'r afael â rhwystrau strwythurol i wella iechyd a gofal cymdeithasol mewn carchardai, gan ystyried trosglwyddo gofal i mewn ac allan o'r carchar a rôl cyd-fyrddau integreiddio a byrddau iechyd wrth ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol mewn carchardai. Yn ystod 2018-19, penododd yr Arolygiaeth Gofal Brif Weithredwr newydd, Peter Macleod, a ddechreuodd yn y swydd ym mis Ionawr 2019.

Yn ogystal â chynnal arolygiad o 17 o ddalfeydd yr heddlu ledled yr Alban, dechreuodd **Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn yr Alban (HMICS)** waith hefyd ar ddull newydd o gasglu data ar brofiadau y rhai dan gadwad o ddalfeydd yr heddlu. Nododd arolygwyr y gall y rhai dan gadwad fod yn amharod i siarad ag arolygwyr yn ystod eu hamser yn nalfeydd yr heddlu. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, ac yng ngoleuni pryderon ynghylch profiad menywod yn y ddalfa yn benodol, cysylltodd HMICS â sefydliadau yn y trydydd sector a oedd yn gweithio gyda menywod â phrofiad o ddalfeydd yr heddlu a chynhaliodd grŵp ffocws gyda nhw. Mae'r dull hwn o weithredu wedi rhoi gwybodaeth newydd i HMICS am brofiad menywod yn y ddalfa. Mae HMICS yn bwriadu ymestyn y gwaith hwn i grwpiau eraill megis plant a dynion.

Dechreuodd **Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ar gyfer yr Alban (HMIPS)** gydweithio gyda Health Improvement Scotland yn 2018, er mwyn asesu ansawdd gofal iechyd yn ystod arolygiadau o garchardai a sefydliadau troseddwyr ifanc. Cynhaliodd HMIPS bedwar arolygiad llawn o garchardai a dau arolygiad dychwelyd o garchardai, a chynhaliodd bum arolygiad o ddalfeydd llysoedd yn 2018-19. Adolygodd a gwellodd HMIPS y safonau a ddefnyddir wrth arolygu dalfeydd y llysoedd. Hefyd, cyhoeddodd HMIPS adolygiad thematig, ar y cyd â HMICS, ar Gyrffew Cyfyngu i'r Cartref.

Gwirfoddolodd Monitoriaid Carchardai Annibynnol, sy'n rhan ffurfiol o strwythur HMIPS, dros 5,000 o oriau o'u hamser i fonitro carchardai'r Alban ar 917 o achlysuron, gan ymdrin â mwy na 900 o geisiadau gan garcharorion. Yn ystod 2018–19 bu Monitoriaid Carchardai Annibynnol yn cyfathrebu'n fwy uniongyrchol â'r gwaith arolygu a gynhaliwyd gan HMIPS a chawsant ddylanwad mwy uniongyrchol ar y gwaith hwnnw. At hynny, lluniodd HMIPS gynllun gweithredu newydd er mwyn helpu Monitoriaid Carchardai Annibynnol i asesu'r camau a gymerir gan Wasanaeth Carchardai'r Alban mewn ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion arolygiadau i wella'r ffordd y mae camdriniaeth yng ngharchardai'r Alban yn cael ei monitro'n gyffredinol.

Ym mis Tachwedd 2018 gofynnodd Ysgrifennydd Cabinet yr Alban dros Gyfiawnder i HMIPS gynnal adolygiad arbenigol o wasanaethau iechyd meddwl yn CEM Sefydliad Troseddwyr Ifanc Polmont, yn dilyn dwy farwolaeth hunanachosedig yn y carchar. Arweiniwyd yr adolygiad hwn gan arbenigwr clinigol allanol. Er na chyhoeddwyd yr adroddiad yn y flwyddyn adrodd, gwnaed llawer o'r gwaith adolygu yn ystod y cyfnod hwn a thynnodd sylw at yr angen i wella'r modd y rhennir gwybodaeth rhwng asiantaethau allanol a Gwasanaeth Carchardai'r Alban er mwyn gwella'r ffordd y rheolir risg pan fydd unigolion yn mynd i mewn i'r ddalfa ac yn ei gadael, a bod angen gwneud mwy i leihau i'r eithaf ynysu cymdeithasol, yn enwedig yn ystod yr wythnosau cyntaf yn y ddalfa.

Ym mis Mai 2018, lansiodd HMIPS set newydd o safonau arolygu ac 'Egwyddorion Panel'

y gwnaeth **Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC)** helpu i'w datblygu. Sicrhaodd y rhain fod egwyddorion hawliau dynol Cyfranogiad, Atebolrwydd, Dim Gwahaniaethu a chydraddoldeb, Grymuso a Chyfreithlondeb (PANEL) wedi'u hymgorffori ym mhob rhan o'r broses arolygu carchardai. Parhaodd SHRC i weithio gyda HMIPS ar ei chyfundrefn arolygu carchardai reolaidd. At hynny, cyflwynodd SHRC ymateb i adolygiad y Pwyllgor yn erbyn Artaith o'r Deyrnas Unedig er mwyn nodi'r ffordd y mae hawliau dynol pobl yn yr Alban yn cael eu diogelu.

Cynhaliodd gwirfoddolwyr **Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yr Alban (ICVS)** fwy na 1,363 o ymweliadau yn 2018–19.[101] Gan weithio gyda Heddlu'r Alban, nododd ICVS ffyrdd o sicrhau bod ymweliadau annibynnol â dalfeydd yn fwy effeithiol. Cynhaliwyd cynllun peilot mewn dwy ddalfa yng Ngorllewin yr Alban. Defnyddiodd y cynlluniau peilot hyn 'bwyntiau cyswllt' ICVS i wella'r gydberthynas â rhingyll y ddalfa a oedd ar ddyletswydd, gan leihau nifer yr ymweliadau â'r dalfeydd hyn a gafodd eu gohirio neu y rhoddwyd y gorau iddynt.

Cododd gwirfoddolwyr ymweld â'r ddalfa bryderon ynghylch rhoi'r Llythyr Hawliau i bobl yn y ddalfa. Mae taflenni 'Llythyr Hawliau' yn rhestru hawliau pobl yn nalfa'r heddlu er mwyn sicrhau y cânt eu trin yn deg gan yr heddlu. O dan Reoliadau'r Hawl i Wybodaeth (Pobl dan Amheuaeth ac a Gyhuddwyd) yr Alban 2014, mae gan Heddlu'r Alban rwymedigaeth statudol i roi'r taflenni hyn i bobl sy'n cael eu cadw yn y ddalfa. Ers i'r pryderon hyn gael eu codi, mae gwelliannau wedi'u gwneud i'r ffordd y mae'r ddarpariaeth hon yn cael ei monitro. Mae ymwelwyr â dalfeydd bellach yn gofyn i bobl yn y ddalfa a ydynt wedi cael Llythyr Hawliau ac a ydynt yn deall ei gynnwys.

Yn ei waith monitro tynnodd **Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban** sylw at y defnydd cynyddol o bwerau gorfodol o dan gyfraith iechyd meddwl a lles ac analluedd, gan leisio pryderon penodol ynghylch y cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth, yn enwedig mewn gwasanaethau i oedolion. Cyhoeddodd ddadansoddiad o ddefnydd yr heddlu o orchmynion Man Diogel o dan Ddeddf Iechyd Meddwl yr Alban, gydag argymhellion i wella cysondeb o ran arferion yn y dyfodol. Mae hynny wedi arwain at ragor o waith i adolygu Cynlluniau Brys Seiciatrig lleol. Chwaraeodd y Comisiwn ran bwysig mewn gwaith i adolygu'r ffordd yr ymchwilir i farwolaethau cleifion mewn gwasanaethau iechyd meddwl ac, o ganlyniad i hynny, gofynnodd y Llywodraeth iddo ddatblygu system adolygu newydd ar gyfer marwolaethau cleifion dan gadwad. Parhaodd y Comisiwn i nodi ei bryderon ynghylch nifer y bobl ag anableddau dysgu yr ymwelodd â nhw, a oedd yn dal i fod yn yr ysbyty, yn aml yn cael eu cadw'n gaeth, er iddynt gael eu hasesu fel unigolion a allai gael eu cefnogi yn y gymuned.

Cyhoeddodd **Arolygiad Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon (CJINI)** ddau adroddiad arolygu ar leoedd cadw yn 2018–19. Cyhoeddwyd ei adroddiad arolygu ar Garchar Maghaberry ym mis Tachwedd 2018 a thynnodd sylw at y lefelau calonogol o gynnydd a wnaed yn y carchar ers ei arolygiad blaenorol yn 2015. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod y canlyniadau i ddynion a oedd yn cael eu cadw'n gaeth ymhlith y gorau a welwyd gan CJINI mewn carchardai tebyg yn y blynyddoedd diwethaf. Drwy gydol y flwyddyn, gwnaeth CJINI ymdrechion i ganolbwyntio ar fonitro'r amodau ym Maghaberry a threfnodd raglen o arolygiadau rheolaidd, adolygiadau o ymweliadau cynnydd ac ymweliadau dirybudd â'r carchar.

101 Awdurdod Heddlu'r Alban, 2019, *Annual Review 2018-19. Independent Custody Visiting Scotland*, http://www.spa.police.uk/assets/128635/293559/icvannualreview201819 [cyrchwyd 04/02/20]

Mae canfyddiadau cadarnhaol yr arolygiad diwethaf i'w priodoli, yn rhannol, i'r ffocws cyson hwn. Cyhoeddwyd adroddiad CJINI ar Ganolfan Cyfiawnder Ieuenctid Woodlands ym mis Mehefin 2018. Nododd CJINI fod y cyfleuster hwn yn darparu gofal o safon uchel i blant.

Aeth y **Byrddau Monitro Annibynnol yng Ngogledd Iwerddon** i un o sesiynau hyfforddi'r NPM gydag Ysgrifenyddiaeth yr NPM ym mis Mawrth 2019. Recriwtiodd IMBNI aelodau bwrdd ychwanegol hefyd i'r timau yng ngharchardai Maghaberry a Hydebank Wood, gan gynyddu lefel y craffu yno.

Yn ystod y flwyddyn, tynnodd y bwrdd yn Hydebank Wood sylw Llywodraethwr y Carchar a CJINI at bryderon ynghylch ynysu carcharorion am gyfnodau o hyd at 28 diwrnod, gyda rhai'n cael eu cadw mewn llety arbennig a oedd yn cynnwys toiledau cemegol yn hytrach na chyfleusterau arferol. At hynny, tynnodd y Bwrdd Monitro Annibynnol sylw at rywfaint o amrywio o ran y ffordd roedd carcharorion yn cael eu trin gan staff nos o gymharu â staff dydd. O ganlyniad, darparodd Gwasanaeth Carchardai Gogledd Iwerddon hyfforddiant ychwanegol, yn enwedig ar gyfer staff nos, gyda'r nod o wella gofal i garcharorion. Mae IMBNI yn parhau â'i hymdrechion i sicrhau bod ei byrddau yn fwy gweladwy i garcharorion drwy arddangos posteri o amgylch carchardai ac ymweld ag ardaloedd addysg a gwaith yn ystod y dydd.

Bu 2018-19 yn flwyddyn brysur i **Gynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon (NIPBICVS)**. Yn dilyn etholiad y Cynulliad ym mis Mawrth 2017, ni ffurfiwyd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ac ni phenodwyd Gweinidog Cyfiawnder. Roedd hynny'n golygu na ellid cyfansoddi Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon yn llawn na phenodi aelodau. Ym mis Tachwedd 2018, cyflwynodd Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon Ddeddf Gogledd Iwerddon (Ffurfio'r Weithrediaeth ac Arfer Swyddogaethau) 2018. Cynigiodd y ddeddfwriaeth hon gyfle i benodi aelodau i Fwrdd Plismona Gogledd Iwerddon, gan ei gwneud yn bosibl i'r Bwrdd gael ei ailgyfansoddi ar 1 Rhagfyr 2018. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod hwn, roedd ymwelwyr annibynnnol â'r ddalfa yn gallu ymweld â gorsafoedd yr heddlu o hyd. Rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019, cynhaliodd NIPBICVS 508 o ymweliadau â dalfeydd ledled Gogledd Iwerddon, yr oedd 41 ohonynt yn ymweliadau â dalfeydd TACT.

Yn dilyn arolygiadau o ddalfeydd yr heddlu yng Ngogledd Iwerddon gan CJINI a RQIA, gwnaed argymhellion ar gyfer gwella gofal iechyd mewn dalfeydd . Yn ystod mis Ebrill 2018, dechreuodd Asiantaeth Iechyd y Cyhoedd werthuso Rhaglen Fraenaru Dalfeydd, sef menter diwygio gofal iechyd mewn dalfeydd. Mae Ymwelwyr â'r Ddalfa o'r Bwrdd Plismona yn chwarae rhan weithredol yn y fethodoleg adolygu ac maent yn rhanddeiliad allweddol yn y grŵp.

Parhaodd NIPBICVS i gynnal sesiynau hyfforddi er mwyn sicrhau bod ymweliadau annibynnol â dalfeydd yn effeithiol ac yn ataliol, gan gynnwys sesiynau ar hawliau dynol, cydraddoldeb ac iechyd meddwl.

Yn ystod 2018–19, dechreuodd yr **Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd (RQIA)** ar broses ailstrwythuro fewnol, sydd wedi'i gwneud yn bosibl i arolygiadau gael eu rhaglennu'n fwy effeithiol. Tua diwedd y cyfnod adrodd hwn, rhoddodd RQIA fethodoleg arolygu amlddisgyblaethol wedi'i diweddaru ar waith hefyd, sy'n cyfuno gwerthusiad o systemau sy'n darparu gofal ag archwiliad manwl o'r trefniadau ar gyfer arwain, llywodraethu a rhoi sicrwydd yn y cyfleusterau sy'n cael eu harolygu ac ar eu traws. Hefyd, dechreuodd RQIA ar waith i ymgorffori hawliau dynol yn fwy cadarn mewn arolygiadau rheolaidd ac adlewyrchu'r dull hwn

o weithredu yn gliriach mewn adroddiadau arolygu. Cefnogwyd y gwaith hwn drwy gyfres o sesiynau hyfforddi a gyflwynwyd gan arbenigwr ym maes hawliau dynol.

Cwblhawyd adolygiad thematig o ddiogelwch carcharorion yng Ngogledd Iwerddon ar y cyd gan RQIA a CJINI ym mis Medi 2018. Yn ystod yr adolygiad hwn, nododd RQIA nifer o bryderon a oedd yn ymwneud â'r amgylchedd ffisegol yn yr Uned Gofal a Goruchwyliaeth yng Ngholeg Diogel Hydebank Wood.

Rhoddodd **Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)** strwythur sefydliadol newydd ar waith oherwydd newidiadau a wnaed yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a ddaeth i rym yn 2016, a'r rhai a ddaeth yn sgil rhoi Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar waith yn 2018. Mae strwythur AGC wedi newid o fodel rheoleiddio ac arolygu rhanbarthol i un sy'n gweithio ledled Cymru. Mae strwythur gofal cymdeithasol newydd AGC yn parhau i flaenoriaethu cyfrifoldebau sy'n ymwneud ag atal cam-drin mewn cartrefi plant ac archwilio hysbysiadau Amddifadu o Ryddid a ddaw o gartrefi gofal i oedolion.

Er mwyn gwneud gwaith dilynol ar argymhellion a wnaed ynghylch darparu gofal cymdeithasol i oedolion a phlant yn yr ystad ddiogel, parhaodd AGC i gynnal adolygiadau rheolaidd o berfformiad gydag awdurdodau lleol ledled Cymru. Yn ystod 2018–19 cynhaliodd AGC arolwg anffurfiol hefyd gydag awdurdodau lleol o'r trefniadau ar gyfer darparu gofal ym mhob rhan o'r ystad ddiogel i oedolion yng Nghymru.

Ym mis Rhagfyr 2018, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r **Comisiwn Ansawdd Gofal** gynnal adolygiad thematig o ataliaeth, ynysu ac arwahanu, yn dilyn adroddiadau am y defnydd amhriodol o arwahanu ac ataliaeth a chleifion yn aros yn rhy hir mewn mewn lleoedd cadw. Canolbwyntiodd cam cyntaf y gwaith hwn ar bobl sy'n cael gofal ar wahân mewn ward i bobl ag anableddau dysgu neu ward iechyd meddwl i blant a phobl ifanc.

Ym mis Mawrth 2018, tynnodd y Comisiwn Ansawdd Gofal sylw NHS England ac NHS Improvement at bryderon ynghylch y nifer mawr o bobl a roddir mewn ysbytai adsefydlu iechyd meddwl ymhell o'u cartrefi. O ganlyniad, sefydlodd NHS England ac NHS Improvement dîm i weithio gyda chymunedau iechyd a gofal lleol er mwyn datblygu gwasanaethau a all ddiwallu anghenion cymhleth y bobl hyn.

Yn ystod y flwyddyn, darparodd y Comisiwn Ansawdd Gofal hyfforddiant ar OPCAT a rôl yr NPM hefyd i amrywiaeth o grwpiau o fewn ei sefydliad, gan gynnwys y grŵp iechyd meddwl cyffredinol sy'n ymwneud â chofrestru ac arolygu ysbytai a chartrefi gofal cymdeithasol. Penodwyd Prif Weithredwr newydd y Comisiwn Ansawdd Gofal, Ian Trenholm, ym mis Mai 2018.

Parhaodd **Comisiynydd Plant Lloegr** i drefnu is-grŵp Plant a Phobl Ifanc yr NPM, sy'n galluogi aelod-sefydliadau sy'n arolygu ac yn monitro lleoedd sy'n cadw plant i rannu gwybodaeth a chydweithio ar faterion a phryderon sy'n dod i'r amlwg. Ehangwyd tîm Comisiynydd Plant Lloegr yn 2018-19, a oedd yn golygu y gallai gynyddu nifer yr ymweliadau roedd yn eu cynnal â lleoedd cadw neu fannau lle roedd plant yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid. Ers hynny, mae tîm Comisiynydd Plant Lloegr wedi ymweld â sefydliadau cyfiawnder ieuenctid, iechyd meddwl a gofal cymdeithasol yn amlach.

Yn ystod 2018–19, cafodd **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)** gyllid ychwanegol a fydd yn ei galluogi i benodi rhagor o staff arolygu a staff cymorth ac atgyfnerthu ei rhaglen waith yn 2019–20. Mae AGIC hefyd wedi newid ei methodoleg arolygu er mwyn

ystyried newidiadau i'r Ddeddf Iechyd Meddwl, a gyflwynwyd gan Ddeddf yr Heddlu a Throseddu 2017. Yn 2018–19, denodd gwaith AGIC fwy o sylw ymhlith aelodau'r cyhoedd a'r cyfryngau, gyda'r sefydliad yn cael ei wahodd yn amlach i siarad mewn digwyddiadau cyhoeddus.

Mae **Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS)** wedi parhau i ddylanwadu ar welliannau i safonau yn nalfeydd yr heddlu a chanlyniadau i unigolion sy'n cael eu cadw'n gaeth drwy ymgysylltu'n gadarnhaol ag arweinydd cenedlaethol yr heddlu ar gyfer dalfeydd yng Nghymru a Lloegr a chyflwyno i fforymau dalfeydd yr heddlu cenedlaethol. Mae hefyd wedi mynd ati i geisio helpu heddluoedd i wella drwy gynnig cyfleoedd i swyddogion yr heddlu sy'n darparu gwasanaethau dalfeydd i gysgodi arolygiadau a chynyddu eu dealltwriaeth o'r gwasanaethau a ddisgwylir – a mynd ag arferion da yn ôl gyda nhw at eu heddluoedd eu hunain.

Cyhoeddodd **Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi** 73 o adroddiadau arolygu yn 2018–19. Roedd y rhain yn cynnwys adroddiadau arolygu ar 35 o garchardai sy'n dal oedolion gwrywaidd, tri charchar sy'n dal oedolion benywaidd, pedwar arolygiad o sefydliadau troseddwyr ifanc sy'n dal plant o dan 18 oed a phedwar arolygiad o dair canolfan hyfforddi ddiogel sy'n dal plant 12-18 oed, a gynhaliwyd ar y cyd ag Ofsted. Arolygodd Arolygiaeth Carchardai EM bedair canolfan symud mewnfudwyr, un uned cadw teuluoedd, wyth cyfleuster dal byrdymor a dwy ganolfan symud ehediadau siarter. At hynny, arolygodd ddalfeydd yr heddlu mewn saith ardal heddlu gyda HMICFRS, dalfeydd TACT ledled y wlad, tri o leoedd cadw'r llysoedd ac un arolygiad allawdurdodaeth mewn carchar yng Ngogledd Iwerddon.

Cynhelir arolygiadau Arolygiaeth Carchardai EM yn erbyn meini prawf cyhoeddedig a elwir yn 'Ddisgwyliadau'. Yn ystod 2018–19, cyhoeddodd Arolygiaeth Carchardai EM ddwy set ddiwygiedig o Ddisgwyliadau a, gyda HMICFRS, ei meini prawf asesu cyntaf ar gyfer triniaeth ac amodau unigolion sy'n cael eu cadw'n gaeth mewn dalfeydd TACT, sy'n dal y rhai sy'n cael eu cadw'n gaeth oherwydd troseddau terfysgol. Yn ogystal â hyn, cyhoeddodd Arolygiaeth Carchardai EM adroddiadau thematig ar y canlynol: canolfannau goruchwyliaeth agos mewn carchardai; gofal cymdeithasol mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr (gyda'r Comisiwn Ansawdd Gofal); dadansoddiad o ganfyddiadau plant o'u profiadau mewn canolfannau hyfforddi diogel a sefydliadau troseddwyr ifanc; ac adolygiad o'r ffordd y mae dynion a gafwyd yn euog o droseddau rhyw yn cael eu rheoli a'u goruchwylio.

Mae Arolygiaeth Carchardai EM wedi cynnwys dau ddatblygiad pwysig yn ei methodoleg arolygu dros y ddwy flynedd diwethaf. Yn y flwyddyn adrodd hon, cyflwynwyd yr adolygiadau annibynnol newydd o gynnydd ac ymgorfforwyd proses yr Hysbysiad Brys, a gyflwynwyd y llynedd. Mae proses yr Hysbysiad Brys yn galluogi'r Prif Arolygydd i ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol ar ôl i arolygiad nodi pryderon mawr ynghylch triniaeth ac amodau'r rhai dan gadwad. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymrwymo i ymateb yn gyhoeddus i'r pryderon a gyhoeddir gan yr Arolygiaeth o fewn 28 diwrnod calendr. Mae cyhoeddi hysbysiad y Prif Arolygydd ac ymateb yr Ysgrifennydd Gwladol yn sicrhau mwy o dryloywder mewn perthynas â charchardai sydd mewn trafferthion. Anfonodd y Prif Arolygydd dri llythyr Hysbysiad Brys at yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystod y flwyddyn, gan fynegi pryderon difrifol yr Arolygiaeth, yn dilyn arolygiadau o Garchardai EM Caerwysg, Birmingham a Bedford.

Datblygwyd methodoleg yr adolygiad annibynnol o gynnydd er mwyn sicrhau bod y broses o asesu i ba raddau roedd argymhellion yr Arolygiaeth wedi'u cyflawni yn un annibynnol. Mae methodoleg yr adolygiad annibynnol o gynnydd yn asesu i ba raddau y mae carchardai wedi gweithredu ar argymhellion allweddol Arolygiaeth Carchardai EM, yn enwedig yn dilyn arolygiadau o garchardai sydd wedi codi pryderon. Bydd y Prif Arolygydd yn nodi sefydliadau ar gyfer adolygiad annibynnol o gynnydd yn seiliedig ar nifer o ffactorau, gan gynnwys: sgoriau prawf carchar iach dros amser; y risgiau allweddol yn y sefydliad; a lefelau hyder yn y gallu i newid a gwella. Cânt eu hymgorffori yn 2019-20. Nod Arolygiaeth Carchardai EM yw cynnal rhwng 15 ac 20 o adolygiadau annibynnol o gynnydd bob blwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd **Cymdeithas yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa (ICVA)** gynllun peilot lle y newidiodd ei methodoleg, a arweiniwyd gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Swydd Derby ac a gynhaliwyd ledled ardal yr heddlu. Mae'r fethodoleg newydd yn cyfarwyddo ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa i edrych yn fwy gofalus ar y ffordd y mae pobl yn cael eu trin yn ystod eu hamser yn y ddalfa drwy archwilio cofnodion dalfeydd, gan ganolbwyntio ar hawliau a llesiant unigolion sy'n cael eu cadw'n gaeth. Nododd ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa yn Swydd Derby fod y cynllun peilot wedi gwella ac atgyfnerthu mesurau diogelwch i bobl sy'n agored i niwed yn y ddalfa. Dechreuodd yr ICVA weithio gyda chynlluniau ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa eraill ledled y wlad i weld a ellid atgynhyrchu gwelliannau tebyg.

Dechreuodd yr ICVA weithio hefyd ar feithrin dealltwriaeth gryfach o OPCAT a'r NPM o fewn cynlluniau ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa drwy ei ffrydiau gwaith. Mae'r ICVA wedi cynhyrchu deunydd hyfforddi newydd ar gyfer cynlluniau sy'n nodi'r gyfraith ryngwladol ynglŷn ag arteithio a cham-drin a phwysigrwydd mabwysiadu polisi ar gosbau.

Yn 2018, rhoddodd y **Byrddau Monitro Annibynnol** yng Nghymru a Lloegr strwythur llywodraethu newydd ar waith. Nod y strwythur newydd yw gwneud y sefydliad yn fwy annibynnol ac effeithiol drwy greu swydd Cadeirydd Cenedlaethol annibynnol a chryfhau'r gefnogaeth ranbarthol i'r Byrddau. Yn 2018, ysgrifennodd Ysgrifenyddiaeth y Byrddau Monitro Annibynnol at y Llywodraeth yn gofyn am roi sail statudol i'r strwythur newydd hwn. Mae sail statudol yn angenrheidiol er mwyn i'r Bwrdd Monitro Annibynnol ennill statws fel corff hyd braich annibynnol sy'n gallu recriwtio staff. Gofynnwyd i'r Swyddfa Gartref am gyllid ychwanegol i'r Ysgrifenyddiaeth a chytunwyd arno ar gyfer 2019-20, a bydd yn helpu'r

Ysgrifenyddiaeth i drefnu ymweliadau â lleoedd cadw yn ôl y risg a gwella'r hyffoddiant a roddir i wirfoddolwyr.

At hynny, dechreuodd y Bwrdd Monitro Annibynnol ar brosiect i adolygu nifer y gwirfoddolwyr ar bob un o'i fyrddau monitro a diweddaru ei Fframwaith Monitro Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod nifer a natur yr ymweliadau monitro â charchardai a chanolfannau symud mewnfudwyr yn cyflawni cyfrifoldebau'r NPM o ran atal, annibyniaeth ac ymrwymiad i OPCAT.

Gwelwyd sawl datblygiad yn sefydliad yr **Arsylwyr Lleyg** yn 2018-19. Ehangwyd Cyngor Cenedlaethol yr Arsylwyr Lleyg, drwy benodi dau aelod newydd yn ystod y flwyddyn. Cafodd trefniadau'r Arsylwyr Lleyg ar gyfer monitro'r ffordd y mae pobl yn nalfeydd y llysedd yn cael eu cludo i'r carchar, eu hatgyfnerthu a'u hymestyn. Ym mis Hydref 2018, cyflwynodd yr Arsylwyr Lleyg set ddiwygiedig o ddisgwyliadau, ynghyd â ffurflen adrodd newydd, i'w defnyddio gan wirfoddolwyr yn ystod ymweliadau â dalfeydd y llysoedd. O ganlyniad i adroddiadau'r Arsylwyr Lleyg ar faterion yn ymwneud â gofal iechyd, gwahoddwyd y sefydliad i fod yn gynrychiolydd i un o grwpiau NHS England sy'n ystyried anghenion gofal iechyd yn nalfeydd y llysoedd.

Atgyfnerthodd **Ofsted** ei goruchwyliaeth o ystad ddiogel y plant drwy feithrin gallu yn ei thîm arolygu, penodi Uwch-swyddog newydd i'w gwaith ar yr ystad ddiogel a fydd yn cydgysylltu ag adrannau'r llywodraeth a rhanddeiliaid ac yn cynrychioli Ofsted o fewn yr NPM. Yn dilyn hyn, newidiodd gwaith Ofsted ar gartrefi diogel i blant i fodel rhanbarthol, sy'n golygu bod rheolwyr rhanbarthol bellach yn weithredol gyfrifol am waith rheoleiddio ac arolygu tra bod yr Uwch-swyddog yn dal i fod yn gyfrifol am oruchwyliaeth genedlaethol. Mae Ofsted wedi cadw tîm arbenigol ar gyfer arolygu'r ystad ddiogel genedlaethol o fewn y model hwn.

Hefyd, cyhoeddodd Ofsted ddwy ddogfen ganllaw newydd i arolygwyr yn y flwyddyn adrodd. Mae'r *Fframwaith Cydarolygu* diwygiedig ar gyfer arolygu canolfannau hyfforddi diogel, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019, wedi hoelio'r sylw ar brofiadau a chynnydd plant. Mae canllawiau manylach Ofsted ar arolygu cartrefi diogel i blant fel rhan o Fframwaith Arolygu Cyffredin Gofal Cymdeithasol, a gyhoeddwyd hefyd ym mis Mawrth 2019, yn adlewyrchu natur arbenigol ac unigryw darpariaeth ddiogel.

Nid oedd y llywodraeth wedi llenwi rôl yr **Adolygwr Annibynnol Deddfwriaeth Terfysgaeth (IRTL)** yn ystod y flwyddyn adrodd. Roedd hyn yn golygu bod y gweithgarwch ymgysylltu rhwng IRTL ac ICVA i adrodd ar yr amodau mewn dalfeydd i'r rhai a oedd yn cael eu gadw'n gaeth o dan ddeddfwriaeth terfysgaeth wedi cael ei atal dros dro, gydag ICVA yn helpu Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i sicrhau bod gwaith craffu ac adrodd effeithiol yn cael ei gyflawni mewn perthynas â'r rhai a oedd yn cael eu cadw'n gaeth o dan gyfraith terfysgaeth nes i'r swydd gael ei llenwi.

Penodwyd Jonathan Hall CF i'r swydd ar 29 Mai 2019 ac ym mis Tachwedd 2019 cyflwynodd fersiwn ddrafft o'i adroddiad blynyddol cyntaf (ar y ffordd y rhoddwyd y Deddfau Terfysgaeth ar waith yn 2018) i'r Swyddfa Gartref er mwyn cynnal gwiriadau diogelwch a ffeithiau arni. Fe'i cyhoeddir gan y Llywodraeth maes o law. Bydd yr adroddiad yn cynnwys ystyriaeth o'r rôl a gyflawnir gan ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa a'r adroddiad a gyflwynwyd gan Arolygiaeth Carchardai EM a HMICFRS ar 1 Awst 2019, ac a oes angen newid y gyfraith ynglŷn â chadw unigolion yr amheuir eu bod wedi cyflawni gweithredoedd terfysgol yn gaeth.

## Cydweithio ar draws yr NPM

Cydweithio fel aelodau o'r NPM er mwyn atgyfnerthu'r mesurau diogelwch ar gyfer y rhai sy'n cael eu cadw'n gaeth yn y DU yw un o nodau strategol yr NPM.[102] Yn ogystal â chydweithio yn ystod arolygiadau a chyd-brosiectau thematig yr NPM, mae aelodau'r NPM yn cydweithio ar amrywiaeth eang o fentrau y bwriedir iddynt atgyfnerthu eu cydymffurfiaeth ag OPCAT a'u gweithgarwch monitro lleoedd cadw. Mae rhai enghreifftiau nodedig o'r flwyddyn yn cynnwys:

- Atgyfnerthwyd gwaith rhwng ICVA, HMICFRS ac Arolygiaeth Carchardai EM yn 2018–19. Cytunodd ICVA ar ffordd ffurfiol o weithio gyda'r arolygiaethau a'r cynlluniau ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa, sy'n cynnwys sicrhau bod rheolwr y cynllun yn cael adroddiad pwrpasol sy'n seiliedig ar adroddiadau'r arolygiaethau, sy'n nodi canfyddiadau sy'n arbennig o bwysig i'r ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa. Mae'r trefniadau newydd hyn yn helpu i sicrhau bod cynlluniau ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa a'r arolygiaethau yn gallu trafod canfyddiadau penodol a rhannu eu harbenigedd.
- Ym mis Ebrill 2018, lluniodd Ofsted a'r Comisiwn Ansawdd Gofal gytundeb y bydd y Comisiwn Ansawdd Gofal yn helpu Ofsted i arwain arolygiadau o gartrefi diogel i blant, gan roi sail ffurfiol i drefniadau anffurfiol blaenorol a helpu i sicrhau bod arolygiadau yn fwy cyson.
- Mae'r Arolygiaeth Gofal yn parhau i gefnogi HMIPS ar arolygiadau o garchardai – eleni bu'n arsylwi ar dri arolygiad o garchardai yn CEM Addiewell, CEM Sefydliad Troseddwyr Ifanc Polmont a CEM Grampian. Mae cynnwys yr Arolygiaeth Gofal yn golygu bod modd cynnal asesiad mwy cynhwysfawr o'r gofal a'r cymorth a roddir i garcharorion, gan ganolbwyntio'n benodol ar addasiadau gofal cymdeithasol a chyfathrebu rhwng y carchar ac asiantaethau eraill.
- Cyflwynodd HMICS a'r Arolygiaeth Gofal, gan weithio gyda phartneriaid eraill gan gynnwys Healthcare Improvement Scotland, fodel newydd ar gyfer arolygu gofal pobl ifanc a phlant ar y cyd, gan ganolbwyntio ar wella canlyniadau i blant mewn cartrefi gofal preswyl a chartrefi diogel i blant. Hyd yma mae tri arolygiad wedi'u cynnal ar y cyd o dan y fframwaith hwn.
- Er mwyn helpu i drefnu ac atgyfnerthu dull mwy cydgysylltiedig o fonitro triniaeth ac amodau yn nalfeydd yr heddlu yn yr Alban, mae HMICS a'r ICVS wedi ffurfioli trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth drwy femorandwm cyd-ddealltwriaeth. Gan weithio gyda HMICS, mae'r ICVS yn gweithio ar hyn o bryd ar lunio polisi cosbau er mwyn sicrhau y gall carcharorion siarad ag ymwelwyr â'r ddalfa yn agored heb ofni cael eu cosbi.
- Mae Arolygiaeth Carchardai EM a'r Byrddau Monitro Annibynnol yn parhau i gydweithio. Anfonodd y Bwrdd Monitro Annibynnol lythyr at Weinidogion ym mis Mai 2018 yn mynegi pryderon difrifol ynghylch triniaeth annynol yn CEM Birmingham. Cynhaliodd Arolygiaeth Carchardai EM arolygiad ym mis Gorffennaf a mis Awst 2018, yn rhannol oherwydd y pryderon a nodwyd gan y Bwrdd Monitro Annibynnol. Yn dilyn yr arolygiad, galwodd Arolygiaeth Carchardai EM ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ddefnyddio proses yr Hysbysiad Brys mewn perthynas â CEM Birmingham, gan dynnu sylw at ganfyddiadau'r arolygiad bod y carchar mewn 'appalling state' ac yn 'fundamentally unsafe'.[103] O ganlyniad

---

102 Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol, Ionawr 2019, *'The NPM in 2017-18', Ninth Annual Report*, https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/npm-prod-storage-19n0nag2nk8xk/uploads/2019/01/6.5163_NPM_AR_2017-18_WEB.pdf [cyrchwyd 05/12/19]

103 Arolygiaeth Carchardai EM, Medi 2018, *Report on an unannounced inspection of HMP Birmingham*, https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/wp-content/uploads/sites/4/2018/12/HMP-Birmingham-Web-2018.pdf [cyrchwyd 05/12/19]

uniongyrchol, penderfynodd gweinidogion y dylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb am reoli'r carchar o'r contractwyr, G4S, yn ôl i HMPSS a rhoddwyd mesurau ar waith ar unwaith i fynd i'r afael ag amodau'r carcharorion.

- Ymunodd AGC ag Arolygiaeth Carchardai EM a'r Comisiwn Ansawdd Gofal i gynnal adolygiad thematig o ofal cymdeithasol mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr. Gwnaeth AGC waith maes yn CEM Caerdydd lle y nododd arferion da o ran sgriniadau ac asesiadau cychwynnol gan dimau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol, a gynhaliwyd o fewn 24 awr i'r adeg yr aeth unigolyn i mewn i'r carchar.
- Mae CJINI yn parhau i gynnal ymweliadau â charchardai gydag aelodau eraill o'r NPM, megis RQIA a'r Bwrdd Monitro Annibynnol yng Ngogledd Iwerddon. Mae hyn yn darparu adnoddau ychwanegol er mwyn sicrhau bod ei arolygiadau yn fwy trylwyr ac yn golygu bod modd rhannu methodolegau arolygu a gwneud cymariaethau â charchardai yng Nghymru a Lloegr. Mae hefyd yn ei gwneud yn bosibl i Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol De-ddwyrain Lloegr, sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd yng ngharchardai Gogledd Iwerddon, gael ei harolygu a'i dwyn i gyfrif am wasanaethau a ddarperir. Mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn bartner allweddol sy'n darparu gwybodaeth i'r arolygiaethau am broblemau parhaus yn y carchar a phrofiadau carcharorion, y mae aelodau yn ei chael drwy ymweld â charchardai yn rheolaidd; gellir defnyddio'r wybodaeth hon i lywio canfyddiadau ac argymhellion yr arolygiadau. Mae'n bwriadu cynnal arolygiad o ddalfeydd yr heddlu ar y cyd â RQIA yn 2019-20.

## Cyflwyno cynigion a sylwadau ar ddeddfwriaeth

Mae OPCAT yn ei gwneud yn ofynnol i fecanweithiau ataliol cenedlaethol gyflwyno cynigion a sylwadau mewn perthynas â deddfwriaeth bresennol neu ddrafft er mwyn helpu i atal arteithio a cham-drin mewn lleoedd cadw. Ymgynghorir ag aelodau'r NPM ynghylch datblygu polisi a deddfwriaeth ynglŷn â lleoedd cadw, neu y maent yn ceisio dylwanwadu ar y gwaith o ddatblygu polisi a deddfwriaeth o'r fath, mewn sawl ffordd gan ddefnyddio tystiolaeth o'r gwaith y maent yn ei wneud i fonitro triniaeth ac amodau unigolion yn y ddalfa.[104] Fel arfer, mae aelodau'r NPM yn cyfrannu at ymgyngoriadau ffurfiol ar bolisi, ymchwiliadau Seneddol a deddfwriaeth ddrafft, yn ogystal â thrafodaethau uniongyrchol â llunwyr polisi a gwleidyddion. Er enghraifft:

- Roedd yr Arolygiaeth Gofal yn aelod o grŵp cyfeirio'r adolygiad o wasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc yn y ddalfa, a gomisiynwyd gan Lywodraeth yr Alban. Dilynodd hyn farwolaethau hunanachosedig dau unigolyn yn CEM Sefydliad Troseddwyr Ifanc Polmont, ac fe'i cynhaliwyd gan un o arbenigwyr annibynnol HMIPS. Cyflwynodd yr Arolygiaeth Gofal dystiolaeth hefyd i'r canlynol: ymchwiliad y Pwyllgor Cyfiawnder yn Senedd yr Alban i ddarpariaeth gofal diogel; Bil Oedran Cyfrifoldeb Troseddol (yr Alban); ymgynghoriad ar Ddiogelu Grwpiau sy'n Agored i Niwed a Datgelu Gwybodaeth Droseddol; ac adolygiad o ran un o Ddeddf Plant (yr Alban) 1995, a adolygodd y broses o lunio strategaeth moderneiddio cyfiawnder teulol.
- Rhoddodd SHRC dystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad Pwyllgor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yr Alban i Bleidleisio gan Garcharorion. Defnyddiodd SHRC gyfreitheg o Lys Hawliau Dynol Ewrop yn ei dystiolaeth ysgrifenedig a

104 *Optional Protocol to the Convention against Torture and other Cruel, Inhuman or Degrading Treatment or Punishment*, Art. 19 A/RES/57/199, 2002, ar gael yn https://www.ohchr.org/EN/ProfessionalInterest/Pages/OPCAT.aspx [cyrchwyd 14/01/20]

llafar, gan ddadlau bod gosod gwaharddiad cyffredinol awtomatig ar garcharorion yn pleidleisio yn fesur anghymesur.

- Cyflwynodd MWCS gynigion manwl i Lywodraeth yr Alban yn ei ymateb i ymgynghoriad ar ddiwygio cyfraith analluedd, gan dynnu sylw at yr angen i fynd i'r afael â rhwymedigaethau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.
- Rhoddodd Ofsted adborth i ymgynghoriad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ym mis Tachwedd 2018 er mwyn datblygu safonau ar gyfer plant yn y system cyfiawnder troseddol a'u rhoi ar waith. Cyflwynodd Ofsted dystiolaeth ysgrifenedig a llafar hefyd i'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA). Yn ei thystiolaeth, nododd Ofsted y gwahaniaeth mawr rhwng ei harolygiadau o gartrefi diogel i blant a'i harolygiadau o ganolfannau hyfforddi diogel. Gan gyfeirio at ei Hadroddiad Blynyddol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017, nododd Ofsted fod gan arolygwyr canolfannau hyfforddi diogel ‘bryderon difrifol’ ynghylch diogelwch plant a phobl ifanc, y lefelau cynyddol o drais rhwng plant a phobl ifanc, ymosodiadau ar staff ac anawsterau o ran cadw staff.[105]
- Cyflwynodd Comisiynydd Plant Lloegr dystiolaeth i'r Cydbwyllgor ar Hawliau Dynol yn ei ymchwiliad i ‘Youth Detention: Solitary Confinement and Restraint’, gan dynnu sylw at yr amser annerbyniol y mae rhai plant yn cael eu cadw ar wahân neu wedi'u hynysu. Bu Comisiynydd Plant Lloegr yn gweithio gyda swyddogion y llywodraeth hefyd ar ddatblygu Trefniadau Diogelu Rhyddid newydd er mwyn trafod sut y bydd y rhain yn sicrhau y caiff hawliau plant eu parchu.
- Rhoddodd Ysgrifenyddiaeth y Byrddau Monitro Annibynnol dystiolaeth i ymchwiliadau'r Pwyllgor Materion Cartref a'r Cydbwyllgor Hawliau Dynol i ganolfannau cadw mewnfudwyr. Tynodd sylw at yr effaith niweidiol y mae cadw mewnfudwyr yn gaeth am, gyfnodau amhenodol ac, mewn rhai achosion hir, yn ei chael ar lesiant ac iechyd meddwl unigolion dan gadwad, fel y dangosir yn adroddiadau'r Byrddau Monitro Annibynnol. Tynnodd sylw at faterion eraill hefyd, gan gynnwys: y defnydd o unedau arwahanu i ddal unigolion agored i niwed sy'n dioddef o salwch meddwl; y defnydd helaeth o gyffuriau a'r lefelau o drais mewn rhai canolfannau symud mewnfudwyr, sy'n destun pryder; a gorlenwi ac amodau byw annerbyniol, a achosir yn bennaf gan waith cynnal a chadw annigonol ac wedi'i ohirio. Rhoddodd y Byrddau Monitro Annibynnol dystiolaeth i'r Cydbwyllgor Hawliau Dynol ar yr effaith niweidiol y mae polisi cadw yn ei chael ar y bobl y mae gwirfoddolwyr yn cyfarfod â nhw mewn lleoedd cadw, a lleisiodd amheuon difrifol ynghylch effeithiolrwydd y polisi ‘Oedolion mewn Perygl’ o ran atal yr unigolion mwyaf agored i niwed rhag cael eu rhoi mewn lleoedd cadw.
- Rhoddodd y Byrddau Monitro Annibynnol dystiolaeth ysgrifenedig hefyd i ymchwiliad y Pwyllgor Cyfiawnder i boblogaeth y carchardai, gan ganolbwyntio ar effaith dedfrydau i gyfnodau amhenodol yn y carchar er mwyn diogelu'r cyhoedd, y defnydd amhriodol o'r carchar ar gyfer y rhai â salwch meddwl a'r ffaith bod poblogaeth fenywaidd y carchardai yn agored i niwed.
- Rhoddodd HMIPS dystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i bleidleisio gan garcharorion yn yr Alban, gan nodi ei bod o blaid ymestyn hawliau pleidleisio i gynnwys pob carcharor. Rhoddodd HMIPS dystiolaeth ysgrifenedig hefyd i'r Pwyllgor Cyfiawnder ar y Bil Rheoli Troseddwyr (yr Alban) lle roedd o blaid gwneud defnydd helaethach o ddulliau monitro electronig fel dewis amgen i ddedfrydau o garchar.

105 Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, Chwefror 2019, *Sexual Abuse of Children in Custodial Institutions: 2009–2017 Investigation Report,* https://www.iicsa.org.uk/key-documents/9560/view/sexual-abuse-children-custodial-institutions-investigation-report-february-2019.pdf [cyrchwyd 12/12/19]

- Cyflwynodd HMICS dystiolaeth ysgrifenedig ar y cyd â'r NPM i adolygiad ôl-ddeddfwriaethol Pwyllgor Cyfiawnder Senedd yr Alban o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Gwasanaethau Tân (yr Alban) 2012. Tynnodd sylw at yr angen i roi sail statudol i waith HMICS ar ddalfeydd. O ganlyniad i'r arolygiad a gynhaliwyd ganddi yn 2018, rhoddodd HMICS adborth ar wasanaethau priodol i oedolion i swyddogion polisi Llywodraeth yr Alban a oedd yn gweithio ar adolygu a diwygio'r trefniadau hyn.
- Mae'r ICVS wedi llywio polisi Heddlu'r Alban drwy gyfrannu at Weithdrefn Gweithredu Safonau Gofal a Llesiant. Rhoddodd yr ICVS dystiolaeth benodol ar ddarparu eitemau ar gyfer y mislif yn nalfeydd yr heddlu a gofal rhyw-benodol.
- Mae Arolygiaeth Carchardai EM wedi defnyddio canfyddiadau ei harolygiadau i wneud sylwadau ac argymhellion mewn perthynas â'r canlynol: y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, Adolygiad o'r System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru (1 Mehefin 2018); y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 'Prison Healthcare' (1 Mehefin 2018); y Cydbwyllgor Hawliau Dynol, 'Youth Detention: Solitary Confinement and Restraint' (19 Mehefin 2018); Cyngor Cynghori ar Gamddefnyddio Cyffuriau, 'Custody-Community Transitions' (20 Mehefin 2018); y Cydbwyllgor Hawliau Dynol, 'Immigration Detention' (6 Medi 2018); y Pwyllgor Materion Cartref, 'Macpherson: 20 Years On' (15 Chwefror 2019); Prif Arolygydd Annibynnol Ffiniau a Mewnfudo, 'Call for evidence: 'Adults at Risk' in immigration detention' (7 Mawrth 2019).[106]
- Cyfarfu cynrychiolwyr o bob un o'r tri bwrdd monitro annibynnol yng Ngogledd Iwerddon â Chyfarwyddwr Cyffredinol Gwasanaeth Carchardai Gogledd Iwerddon (NIPS) er mwyn trafod materion a godwyd mewn adroddiadau blynyddol blaenorol a rhoi adborth ar gynlluniau NIPS ar gyfer polisi 'dim smygu', rhaglen arweinwyr ifanc a newidiadau newydd i drefniadau profi cyn rhyddhau. Ymatebodd IMBNI yn Hydebank Wood i ymgynghoriad NIPS ar Ystadau Gwasanaethau Carchardai 2020 yn mis Rhagfyr 2018 ac aeth i gyfarfod â Chyfarwyddwr Cyffredinol NIPS er mwyn trafod yr ymgynghoriad ym mis Chwefror 2019. Gwnaeth IMBNI argymhellion ynghylch adeiladu carchar i fenywod o fewn Hydebank Wood.
- Cyfrannodd y Comisiwn Ansawdd Gofal at ymchwiliad y Pwyllgor Dethol ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol i iechyd mewn carchardai, a gynhaliwyd yn 2018, drwy gyflwyno sylwadau ysgrifenedig a mynd i gyfarfodydd y pwyllgor. Manteisiodd y Comisiwn Ansawdd Gofal ar y cyfle i godi pryderon ynghylch y ffaith bod pobl sy'n cael eu cadw'n gaeth o fewn y system cyfiawnder troseddol yn agored i niwed, gan gynnwys eu dewisiadau cyfyngedig ac effaith Deddf Gofal 2014, a ddileodd yr angen am graffu annibynnol statudol gan fyrddau lleol diogelu oedolion. Pwyleisiodd argymhellion dilynol i'r llywodraeth bwysigrwydd atgyfnerthu rôl y Comisiwn Ansawdd Gofal wrth reoleiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn carchardai.
- Parhaodd y Comisiwn Ansawdd Gofal i ymgysylltu â'r adolygiad annibynnol o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, a gadeiriwyd gan yr Athro Syr Simon Wessley. Croesawodd y Comisiwn Ansawdd Gofal yr adroddiad ar yr adolygiad, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018, ac ymrwymodd i roi cymorth a chyngor i'r llywodraeth wrth iddi lunio ei blaenoriaethau ar gyfer newid. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, mae'r Comiswn Ansawdd Gofal wedi parhau i awgrymu bod cyfnod o dri mis ar gyfer meddyg a benodwyd i roi ail farn yn amser rhy hir i aros er mwyn iddo fod yn fesur diogelwch effeithiol neu fodloni disgwyliadau datblygol cyfraith ryngwladol.

106 Am ragor o wybodaeth am gyflwyniadau Arolygiaeth Carchardai EM, ewch i: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmi-prisons/about-hmi-prisons/chief-inspectors-submissions-and-letters/

Mae ei argymhellion bellach wedi'u cydnabod ac mae cynnydd yn cael ei wneud o ran pa drefniadau amgen ymarferol y gellir eu gwneud.

- Hefyd, cododd y Comisiwn Ansawdd Gofal, gyda swyddogion y llywodraeth, y problemau cyfreithiol sy'n ymwneud â rhyddhau cleifion sy'n cael eu cadw'n gaeth yn yr ysbyty o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl i amgylcheddau, megis cartrefi gofal cymdeithasol i oedolion, lle maent yn parhau i gael eu hamddifadu o'u rhyddid o dan y Ddeddf. Mae dyfarniad y Goruchaf Lys ar y mater hwn yn achos MM eleni (Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder v MM [2018] UKSC 60) yn awgrymu y gall rhai newidiadau i'r statud fod yn ddefnyddiol er mwyn sicrhau na fydd rhwystrau cyfreithiol yn atal cleifion rhag cael gofal yn yr amgylchedd lleiaf cyfyngol sydd ar gael.

Gwrandawodd Goruchaf Lys y DU achos yr **Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder v MM** ym mis Gorffennaf 2018, a rhoddodd ei ddyfarniad ar 28 Tachwedd 2018.

Roedd yr achos yn ymwneud â chlaf, MM, a oedd yn cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty o dan adran 37 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl, ynghyd â gorchymyn cyfyngu o dan adran 41. Gwnaeth MM gais i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf i gael ei ryddhau'n amodol o'r ysbyty. Dim ond Tribiwnlys Haen Gyntaf neu'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a all awdurdodi ei ryddhau'n amodol. Er mwyn iddo gael ei ryddhau byddai angen i MM fyw mewn lleoliad lle na fyddai'n rhydd i adael, nac yn cael mynd y tu allan heb hebryngydd. Er nad oedd lleoliad addas wedi'i ganfod, cytunodd MM i gael ei roi mewn lleoliad o'r fath.

Er gwaethaf hyn, dyfarnodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf nad oedd ganddo'r pŵer i ryddhau MM gyda chynllun gofal a fyddai'n gyfystyr â'i amddifadu o'i ryddid na gosod amodau o'r fath arno.

Dyfarnodd y Goruchaf Lys, o fwyafrif o 4 i 1, nad yw Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn rhoi pwerau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf na'r Ysgrifennydd Gwladol osod amodau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid, hyd yn oed os bydd y claf yn cydsynio i hynny.

## Craffu a chydweithredu rhyngwladol

Yn ystod 2018–19 bu NPM y DU yn ymgysylltu â dau gorff hawliau dynol rhyngwladol. Mae gan y Pwyllgor yn erbyn Artaith (CAT) a Phwyllgor Cyngor Ewrop er Atal Arteithio a Thriniaeth neu Gosb Annynol neu Ddiraddiol (CPT) fandad i asesu cydymffurfiaeth Gwladwriaethau sy'n bartïon â chyfraith ryngwladol ar wahardd ac atal arteithio. Mae'r CAT yn cynnal sesiynau adolygu rheolaidd gyda Gwladwriaethau sy'n bartïon a gall y CPT ymweld â lleoedd cadw. Mae'r prosesau hyn yn rhoi arferion cadw'r DU o dan chwyddwydr rhyngwladol, gan ddarparu gwaith craffu pwysig yn unol â safonau hawliau dynol rhyngwladol.

### Y Pwyllgor Ewropeaidd er Atal Arteithio a Thriniaeth neu Gosb Annynol neu Ddiraddiol

Ym mis Hydref 2018, ymwelodd y CPT â'r Alban.[107] Aeth y ddirprwyaeth i bum carchar a phump o orsafoedd yr heddlu, gan asesu triniaeth ac amodau y rhai dan gadwad. Cyfarfu'r Pwyllgor hefyd â chynrychiolwyr yr NPM yn ystod ei ymweliad. Mae gan yr NPM gydberthynas waith adeiladol â'r CPT ac mae ymweliadau yn bwysig iawn i'r NPM, am eu bod yn cynnig cyfle i godi ein pryderon gyda chorff arbenigol rhyngwladol. At hynny, mae ymweliadau ac adroddiadau'r CPT yn darparu argymhellion defnyddiol i'r NPM ac awdurdodau'r llywodraeth ar y ffordd orau o ddiogelu hawliau pobl sy'n cael eu cadw'n gaeth.

**Argymhellion ynglŷn â'r NPM a wnaed gan sefydliadau a gyfrannodd at adolygiad y CAT:**

*'The UK should place the NPM under statutory footing to provide it with formal status and guarantee its independence. The UK should ensure that the bodies under the NPM, including the NPM Secretariat, has sufficient human, material and financial resources to operate independently and effectively, and that its mandate includes military detention facilities overseas.'* REDRESS, Civil Society Alternative Report to UN Committee against Torture

*'The UK Government should:*

- *Ensure that the NPM has access to all places of detention and their installations and facilities, including UK-controlled places of detention overseas, to regularly examine the treatment of people deprived of their liberty.*
- *Introduce legislation to ensure and safeguard the independence of the NPM and provide sufficient resources to permit the effective implementation of its mandate in line with the requirements of the OPCAT.'* Equality and Human Rights Commission, Submission to the UN Committee against Torture in response to the UK List of Issues

107 Pwyllgor Cyngor Ewrop er Atal Arteithio, Hydref 2019, *Report to the Government of the United Kingdom on the visit to the United Kingdom carried out by the European Committee for the Prevention of Torture and Inhuman or Degrading Treatment or Punishment (CPT) from 17 to 25 October 2018*, https://rm.coe.int/1680982a3e [cyrchwyd 14/01/20]

## Y Pwyllgor yn Erbyn Artaith (CAT)

Mae'r CAT yn craffu ar wledydd drwy gynnal adolygiad yng Ngenefa bob ychydig o flynyddoedd. Pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd cael gwybodaeth gan yr NPM, yn ogystal â chyrff anllywodraethol a chomisiynau hawliau dynol, cyn y sesiwn adolygu, a gynhaliwyd yng Ngenefa ym mis Mai 2019.

Rhoddodd aelodau'r NPM flaenoriaeth i lunio cyflwyniad i'r Pwyllgor er mwyn llywio ei adolygiad. Tynnodd y cyflwyniad sylw at faterion trawsbynciol mewn lleoedd cadw ledled y DU, gan nodi pryderon ynghylch hawliau dynol mewn carchardai, dalfeydd yr heddlu, lleoedd cadw iechyd meddwl, canolfannau cadw mewnfudwyr a maes iechyd a gofal cymdeithasol.

At hynny, roedd adolygiad y CAT yn gyfle i'r NPM weithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a gynhaliodd ddigwyddiad codi ymwybyddiaeth o broses y CAT ac a oedd yn cefnogi cyflwyniad cymdeithas sifil cynhwysfawr ar gyfer yr adolygiad.

## Cydweithio


Fel mewn blynyddoedd blaenorol, bu'r NPM a'i aelodau yn cydweithio ag amrywiaeth o ysgogwyr rhyngwladol, gan gynnwys cyrff monitro ac arolygiaethau o wledydd eraill, academyddion a chyrff anllywodraethol. Cyfrannodd yr NPM a'i aelodau at fecanweithiau ataliol cenedlaethol eraill, fforymau arbenigol a mentrau monitro lleoedd cadw newydd yn ystod y flwyddyn, fel a ganlyn:

- Mae'r NPM yn parhau i weithio'n agos â'r Gymdeithas er Atal Arteithio (APT), sy'n gorff anllywodraethol a leolir yng Ngenefa, a thrafododd yr angen am rwydwaith a arweinir gan fecanweithiau ataliol cenedlaethol yn Ewrop gyda'r gymdeithas honno. Rhoddodd Cyngor Ewrop gyfle i Gadeirydd yr NPM ac aelod o staff o'r APT roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynigion ar gyfer rhwydwaith a arweinir gan fecanweithiau ataliol cenedlaethol mewn cyfarfod o Fforwm Mecanweithiau Ataliol Cenedlaethol Ewrop yn Ljubljana ar 17 a 18 Ebrill 2019.
- Aeth Cadeirydd yr NPM ac arolygydd o dîm mewnfudo Arolygiaeth Carchardai EM i'r Ail Gyfarfod Rhanbarthol ar Atal Arteithio gyda'r Sefydliad er Diogelwch a Chydweithredu yn Swyddfa Ewrop ar gyfer Sefydliadau Democrataidd a Hawliau Dynol (OSCE/ODIHR), a'r Gymdeithas er Atal Arteithio (APT) ym Milan ym mis Rhagfyr 2018. Gwnaethant gyfrannu at drafodaeth arbenigol ynghylch monitro canolfannau cadw mewnfudwyr, yn ogystal â'r gwahanol rolau y gall y mecanweithiau ataliol cenedlaethol eu chwarae mewn perthynas ag atal arteithio.
- Parhodd Ysgrifenyddiaeth yr NPM i gefnogi ymdrechion awdurdodau a rhanddeiliaid ehangach a oedd yn rhan o'r broses o sefydlu NPM yn Awstralia, gan gyfarfod â'r Prif Gomisiynydd Plant a Phobl Ifanc yn Victoria, Awstralia a pharhau â'i thrafodaethau ag eraill.
- Rhoddodd Pennaeth Ysgrifenyddiaeth yr NPM gyflwyniad ar yr NPM yng Nghynhadledd Flynyddol y Gyfadran Seiciatreg Fforensig yn Fienna ym mis Mawrth mewn sesiwn lawn ar hawliau a chyfrifoldebau mewn lleoedd cadw.
- Rhoddodd cynrychiolydd o'r Comisiwn Ansawdd Gofal anerchiad mewn seminar yn Copenhagen ar 'Enhancing Monitoring Methodologies for NPMs'. Ynghyd ag ICVA, croesawodd Gomisiwn Hawliau Dynol De Affrica fel rhan o daith astudio i'r DU.
- Cyfarfu ICVA â dirprwyaeth o Tsieina a oedd yn cynnwys cyfreithwyr ac ysgolheigion â diddordeb mewn atal arteithio a chamdriniaeth.

- Gwahoddwyd HMICS i ddod i Iwerddon gan Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai Iwerddon er mwyn rhoi cyngor ar sefydlu NPM. Siaradodd HMICS mewn dau ddigwyddiad, am hawliau dynol mewn lleoedd cadw a'r cyrff craffu yn Iwerddon a allai gael eu dynodi'n aelodau o NPM Iwerddon.
- Yn ystod 2018, gofynnodd Dirprwy Lywodraethwr Ynysoedd Cayman i'r Byrddau Monitro Annibynnol roi cyngor ar fwrdd annibynnol i fonitro lleoedd cadw ar yr ynys. Darparodd y cadeirydd cenedlaethol ac aelod o dîm hyfforddi cenedlaethol y Byrddau Monitro Annibynnol wybodaeth, cynhaliodd ymweliad ymchwiliol a lluniodd adroddiad i swyddfa'r Dirprwy Lywodraethwr. Wedyn, darparodd dau aelod o'r tîm hyfforddi cenedlaethol hyfforddiant i'r tîm monitro newydd ei benodi ar Ynysoedd Cayman, a dilynodd cadeirydd bwrdd Ynysoedd Cayman gwrs i arweinwyr Byrddau Monitro Annibynnol.
- Croesawodd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon gynrychiolwyr o Awdurdod Goruchwylio Dinasyddion Jamaica i Ogledd Iwerddon ym mis Gorffennaf 2018 a rhoddodd gyflwyniad cynhwysfawr ar rôl oruchwylio ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yr heddlu. Ym mis Chwefror 2019, ymwelodd cynrychiolwyr o'r Prosiect Hyrwyddo a Diogelu Hawliau Dynol yn Armenia â Gwasanaeth Plismona Gogledd Iwerddon ar gyfer ymweliad tridiau, a chyfrannodd NIPBICVS at drafodaeth ynghylch goruchwyliaeth gan wirfoddolwyr yn nalfeydd yr heddlu.
- Trefnodd IMBNI ymweliadau gan gynrychiolydd o Swyddfa Ombwdsmon y Carcharorion yn Seland Newydd ac ymwelodd cynrychiolydd o Asiantaeth Cyfiawnder Brodorion Gogledd Awstralia â Hydebank Wood er mwyn edrych ar y ffordd y mae OPCAT yn cael ei roi ar waith yn y DU.

## Adran tri

# Edrych ymlaen at 2019-20



## Ymweliad gan Is-bwyllgor y Cenhedloedd Unedig er Atal Arteithio (SPT)

Ar 26 Tachwedd 2018, anfonodd yr SPT gadarnhad i Lywodraeth y DU y byddai'n cynnwys y DU yn ei raglen ymweld ar gyfer 2019–20. Gwnaed y cyhoeddiad hwn ar ôl i'r SPT wahodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder i annerch ei sesiwn yng Ngenefa ym mis Mehefin 2018. Hwn fydd yr ymweliad ffurfiol cyntaf gan y corff hwn a sefydlwyd gan y Cenhedloedd Unedig â'r DU.

Mae'r SPT yn ymweld ag aelod-wledydd er mwyn edrych ar gyflwr lleoedd cadw. Gall hefyd roi cyngor a chymorth i fecanweithiau ataliol cenedlaethol yn ystod ei ymweliad o ran y ffordd orau o roi OPCAT ar waith mewn lleoedd cadw y maent yn eu monitro neu'n eu harolygu.


Mae'r ymweliad gan yr SPT yn 2019–20 yn garreg filltir allweddol yn hanes yr NPM a sefydlwyd 10 mlynedd yn ôl. Mae'n rhoi cyfle i'r NPM gyfrif am ei waith hyd yma, a bydd yr adroddiad y bydd yr SPT yn ei ysgrifennu o ganlyniad i'w ymweliad yn ddisgrifiad awdurdodol o'n gwaith. Bydd yr SPT yn gwneud argymhellion ynghylch meysydd lle mae'n rhaid i'r NPM wella ac rydym yn disgwyl i faterion megis ein statws a'n hadnoddau gael eu codi. Gobeithio y bydd adroddiad yr SPT yn esgor ar gyfleoedd newydd i weithio gyda'r llywodraeth tuag at atgyfnerthu'r NPM.

Bydd yr ymweliad hefyd yn tynnu sylw'r cyhoedd at NPM y DU a'i fodel amlgorff unigryw a bydd argymhellion yr SPT yn llywio ein harferion a'n blaenoriaethau yn y dyfodol. Felly, prif ffocws yr NPM yn ystod 2019-20 oedd paratoi ar gyfer yr ymweliad pwysig hwn. Mae hyn wedi golygu dod at ein gilydd fel NPM er mwyn trafod y ffyrdd rydym yn gweithio'n unigol a gyda'n gilydd er mwyn diogelu hawliau pobl mewn lleoedd cadw rhag cael eu cam-drin. Rydym wedi gweithio i hyrwyddo'r ymweliad gyda'r llywodraeth a rhanddeiliaid eraill, er mwyn pwysleisio pa mor bwysig ydyw i'n henw da am roi mesurau ar waith i ddiogelu hawliau dynol. Ar ôl yr ymweliad, bydd yr NPM yn neilltuo amser er mwyn ystyried argymhellion yr SPT a sut mae angen cynnwys y rhain yn ein gwaith yn y dyfodol.

Mae'r NPM hefyd wedi cytuno ar y cynlluniau canlynol ar gyfer ein blwyddyn fusnes nesaf:

- Er mwyn dathlu 10fed flwyddyn yr NPM, byddwn yn cyhoeddi adroddiad i nodi'r achlysur. Bydd yr adroddiad byr yn dangos sut mae aelod-sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd ac ar draws pedair gwlad y DU er mwyn atal camdriniaeth ac yn nodi sut mae'r NPM wedi llwyddo i sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n fwy ag OPCAT.
- Ein nod yw ailgydio mewn gwaith thematig ar gamdriniaeth, ynghyd ag academyddion o Ganolfan Gweithredu Hawliau Dynol Prifysgol Bryste.
- Mae'r NPM eisoes wedi dechrau ar waith er mwyn sicrhau ein bod yn fwy gweladwy i'r cyhoedd a chodi ymwybyddiaeth o OPCAT. Yn 2019–20, ein nod yw paratoi deunyddiau hyfforddi newydd a gwell ar NPM y DU ac OPCAT. Rydym hefyd yn gobeithio ennyn mwy o ddiddordeb ymhlith y cyhoedd a'r cyfryngau yn ein gwaith i gryfhau'r ddealltwriaeth o weithgarwch monitro ataliol.

# Adran pedwar
# Atodiadau



# Atodiad I

## Llythyr oddi wrth Gadeirydd yr NPM John Wadham at Gadeirydd y Cydbwyllgor Hawliau Dynol, Harriet Harman

UK National Preventive Mechanism
c/o HM Inspectorate of Prisons
Third Floor, 10 South Colonnade
London
E14 4PU
Tel: 020 3334 0359
E-mail: Anna.Edmundson@hmiprisons.gov.uk

17 September 2018

Dear Harriet

UK National Preventive Mechanism (NPM)

I am writing as the independent Chair of the UK NPM following a recent conversation you had with my NPM colleague, Katie Kempen of the Independent Custody Visiting Association. I understand she shared details of some of the work that the NPM undertakes to prevent ill-treatment of people in all forms of detention.

There are clear shared interests and overlaps between the NPM's work inspecting and monitoring all forms of detention across the UK and the Joint Committee's current work (indeed we have submitted evidence, jointly with our NPM colleagues from the Children's Commissioner for England's office, to the Committee's ongoing inquiry into restraint and solitary confinement of children and young people in detention settings). I would be delighted to meet with you to discuss our common areas of interest.

I would also value the opportunity to discuss an important issue of the UK's compliance with a UN treaty ratified by the UK and designed to protect human rights in the UK. The Optional Protocol to the Convention Against Torture (OPCAT), requires states that ratify the treaty to create or designate National Preventive Mechanisms. The current members of the UK NPM were designated by the UK government in 2009, with additional designations in 2013 and 2017. All the organisations originally designated were already functioning, many of them from some years before OPCAT was agreed by the UN, and the government decided that they were already carrying out the functions necessary for OPCAT. Currently, only two of the 21 members of the NPM (both in Scotland) have any reference to their OPCAT mandate written into their legislation.


The NPM itself has neither been recognised nor set up as an independent institution by legislation and has no legal identity. It was only in 2015 that the members of the NPM themselves decided

to create a distinct role for the Chair of the NPM, independent of the other members of the NPM, and selected and appointed a Chair but without any support from the UK Government. As result, the Chair, like the NPM itself, is not recognised in legislation (nor given any of the required powers, immunities or status).

I strongly believe there is a need for separate legislation for the UK NPM and, in particular, a need to guarantee the independence of the NPM itself and to recognise the importance of NPM members' work to prevent ill treatment of detainees under OPCAT. The absence of legislation setting out the OPCAT mandate and responsibilities of each of the designated organisations (and specifically protecting their independence) does not comply with OPCAT or the guidelines from the expert body set up by the UN to advise on implementation - the Subcommittee on Prevention of Torture and other Cruel, Inhuman or Degrading Treatment or Punishment (SPT). It is our view that, in addition to recognising the specific NPM role of its members in their own originating legislation, the NPM as a co-ordinating entity led by an independent Chair needs to be recognised separately in statute. This is important for our role nationally and for our reputation internationally. I continue to raise this issue with the Ministry of Justice and we will be raising it with the UN Committee against Torture as they consider the UK Government's track record on compliance with the Convention against Torture in May 2019.

I would welcome the opportunity to discuss this further with you would be available to meet you at your convenience. As always, if there is any other information that would be of use to you or the Committee from myself or the NPM Secretariat, please do not hesitate to let me know.

Yours sincerely,



**John Wadham**
Chair
UK National Preventive Mechanism

# Atodiad II

## Llythyr oddi wrth Gadeirydd yr NPM John Wadham at Gadeirydd y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder, Syr Robert Neill

UK National Preventive Mechanism
c/o HM Inspectorate of Prisons
Clive House, 5th Floor
70 Petty France
London SW1H 9EX
Tel: 020 3334 0359
E-mail: Anna.Edmundson@hmiprisons.gov.uk

1 August 2018

Dear Mr Neill

UK National Preventive Mechanism (NPM)

You will remember that last year the NPM submitted written evidence to the Justice Select Committee's inquiry on prison reform. In that evidence, we raised our concerns about the lack of separate legislation for the UK NPM and, in particular, the need to guarantee the independence of the NPM itself and to recognise the importance of NPM members' work to prevent ill treatment of detainees under the Optional Protocol to the United Nations Convention against Torture (OPCAT).

I was therefore grateful that the Justice Committee, in its Report on prison reform (which scrutinised the provisions in Part 1 of the Prisons and Courts Bill), recommended the opportunity should be taken to place the NPM "on a definitive statutory basis, in accordance with the UK's international obligations as a party to OPCAT" should legislation on prison reform be brought forward. It was disappointing that opportunity was lost when government did not re-introduce such legislation. Nonetheless, the NPM has continued working towards improved recognition of its independence, and I am therefore writing to update you on recent developments that have taken place.


The position in relation to enacted legislation remains as it was when the Justice Committee was examining this issue: only two of the 21 members of the NPM (both based in Scotland) have any reference to OPCAT written in to their legislation. As a result, the lack of formal legislative recognition of the independence and OPCAT role of the NPM collectively and of its individual members has remained a key challenge for the NPM.

We continue to believe the absence of legislation setting out the OPCAT mandate and responsibilities of each of the designated organisations, specifically protecting their independence does not comply with OPCAT or the guidelines from the expert body set up by the UN to advise on implementation - the Subcommittee on Prevention of Torture and other Cruel, Inhuman or Degrading Treatment or Punishment (SPT). It is our view that, in addition to recognising the specific NPM role of its members in their own originating legislation, the NPM as a co-ordinating entity led by an independent Chair needs to be recognised separately in statute. This is important for our role nationally and for our reputation internationally. I have therefore again raised this issue with the Ministry of Justice (correspondence attached), with the support of the SPT (correspondence also attached).

In parallel with our efforts to guarantee the independence of the NPM through specific legislation, we have asked the Ministry of Justice to implement other measures to strengthen the NPM. In our view, these measures would be interim steps towards, not in place of, legislation. One of the options being discussed is a Protocol between the Ministry of Justice and the Chair of the NPM (modelled on the Protocol between HM Inspectorate of Prisons and the Ministry of Justice that was adopted last year and which your Committee was integral to delivering). There has been some progress towards this, with the Ministry completing a first draft. However, a number of key areas, including those relating to the independence of the NPM and a road-map towards legislation (either within the Protocol itself or in Written Ministerial Statement), are yet to be agreed

I would welcome the opportunity to discuss this further with yourself and the Committee and would be available to meet you at your convenience. As always, if there is any other information that would be of use to the Committee from myself or the NPM Secretariat, please do not hesitate to let me know.

Yours sincerely,



**John Wadham**
Chair
UK National Preventive Mechanism

Encs.


cc Dominic Lake, Deputy Director, Human Rights & Intergovernmental Relations, Ministry of Justice

# Atodiad III

## Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| **AGC** | Arolygiaeth Gofal Cymru |
| **AGIC** | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| **APT** | Y Gymdeithas er Atal Arteithio |
| **CCE** | Comisiynydd Plant Lloegr |
| **CEM** | Carchar Ei Mawrhydi |
| **CI** | Yr Arolygiaeth Gofal |
| **CJINI** | Arolygiad Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon |
| **CPT** | Y Pwyllgor er Atal Arteithio (Cyngor Ewrop) |
| **CQC** | Y Comisiwn Ansawdd Gofal |
| **CRC** | Y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn |
| **DoLS** | Trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid |
| **ECHR** | Llys Hawliau Dynol Ewrop |
| **FCO** | Swyddfa Dramor a Chymanwlad |
| **HMICFRS** | Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi |
| **HMICS** | Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn yr Alban |
| **HMI Prisons** | Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi |
| **HMIPS** | Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ar gyfer yr Alban |
| **HMPPS** | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi |
| **ICVA** | Cymdeithas yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa |
| **ICVS** | Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn yr Alban |
| **IMB** | Bwrdd Monitro Annibynnol |
| **IMBNI** | Byrddau Monitro Annibynnol (Gogledd Iwerddon) |
| **IRC** | Canolfan symud mewnfudwyr |
| **IRTL** | Adolygwr Annibynnol Deddfwriaeth Terfysgaeth |
| **JCHR** | Cydbwyllgor Hawliau Dynol |
| **LO** | Arsylwyr Lleyg |
| **MHA** | Deddf Iechyd Meddwl 1983 |
| **MoJ** | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| **MWCS** | Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban |
| **NGO** | Corff anllywodraethol |
| **NIPBICVS** | Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon |
| **NPM** | Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol |

| | |
|---|---|
| **NPS** | Sylweddau seicoweithredol newydd |
| **OSCE** | Sefydliad Diogelwch a Chydweithredu yn Ewrop |
| **Ofsted** | Swyddfa Safonau Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau |
| **OPCAT** | Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith neu Driniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol arall |
| **PACE** | Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 |
| **PSI** | Cyfarwyddyd Gwasanaeth yr Heddlu |
| **PPO** | Yr Ombwdsman Carchardai a Phrawf |
| **PSO** | Gorchymyn Gwasanaeth yr Heddlu |
| **RQIA** | Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd |
| **SHRC** | Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban |
| **SPT** | Is-bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Atal Artaith a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol arall |
| **SCH** | Cartref diogel i blant |
| **YOI** | Sefydliad troseddwyr ifanc |



Daw'r ddelwedd yn yr adroddiad hwn o'r darlun *Wishful Thinking* a baentiwyd gan garcharor yn CEM Oakwood (hawlfraint ⓗ 2020 Ymddiriedolaeth Koestler, cedwir pob hawl).
Mae Ymddiriedolaeth Koestler yn elusen ar gyfer y celfyddydau mewn carchardai, sy'n ysbrydoli troseddwyr, cleifion mewn unedau diogel ac unigolion dan gadwad i gymryd rhan yn y celfyddydau, gweithio er mwyn cyflawni a thrawsnewid eu bywydau.

Am ragor o wybodaeth ewch i: www.koestlertrust.org.uk

**Cynhyrchwyd gan Design102,**
**Y Gyfarwyddiaeth Cyfathrebu a Gwybodaeth, y Weinyddiaeth Gyfiawnder**

CCS0220180248

978-1-5286-1803-8